

# Ein Gwlad Ar-lein

## Adroddiad 2024

Cyhoeddwyd 28 Tachwedd 2024

# Cynnwys

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ... **3**

**2. Trosolwg** ... **5**

**3. Y dirwedd ar-lein** ... **12**

Cyflwyniad ... 12
Derbyn a defnyddio ... 13
Defnydd o wasanaethau rhyngrwyd – y prif gwmnïau ar-lein ... 17
Defnydd o wasanaethau rhyngrwyd – y prif apiau ... 27

**4. Sectorau ar-lein** ... **36**

Cyflwyniad ... 36
Chwilio ... 37
Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ... 41
Cyfryngau cymdeithasol ... 49
Negeseuon a galwadau ... 58
Cwrdd â chariad ... 62
Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig ... 68
Newyddion ... 71
Iechyd a llesiant ... 77
Gemau ... 81
Manwerthu ... 89
Storio yn y cwmwl ... 92

**5. Y profiad ar-lein** ... **97**

Cyflwyniad ... 97
Manteision ac anfanteision y rhyngrwyd ... 98
Cysylltiad defnyddwyr y rhyngrwyd â niwed posibl ar-lein ... 104
Y llwyfannau a'r gwasanaethau lle daethpwyd ar draws niwed posibl ... 116
Ymateb defnyddwyr y rhyngrwyd ar ôl dod i gysylltiad â niwed posibl ... 122
Agweddau a dulliau defnyddwyr tuag at gadw'n ddiogel ar-lein ... 128


## Anecs


**A1. Methodoleg** ... **132**

# 1. Cyflwyniad

Mae Ein Gwlad Ar-lein gan Ofcom yn gyhoeddiad blynyddol sy'n edrych ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar-lein, sut wasanaeth y maent yn ei dderbyn gan ddarparwyr cynnwys a llwyfannau ar-lein, a'u hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau ohoni. Mae adroddiad rhyngweithiol cysylltiedig sy'n cynnwys data ychwanegol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Ym mis Hydref 2023, daeth Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer diogelwch ar-lein yn y DU o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ddilyn amryw o reolau, gan gynnwys diogelu defnyddwyr rhag cynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon ar-lein, a diogelu plant rhag cynnwys a gweithgarwch niweidiol ar-lein. Nid yw'r derminoleg, na chategoreiddio'r gwasanaethau a'r niwed posibl a drafodir yn yr adroddiad hwn, o reidrwydd yn cyd-fynd â diffiniadau'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac ni ddylid ystyried eu bod yn adlewyrchu unrhyw safbwynt polisi y gallai Ofcom ei fabwysiadu.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau trydydd parti a ffynonellau Ofcom i ddarparu cyd-destun a gwybodaeth am ddefnydd y DU o wasanaethau ar-lein a phrofiadau pobl o fod ar-lein. Roedd dwy ffynhonnell yn flaenllaw iawn yn y gwaith o gynhyrchu'r adroddiad hwn: Traciwr Profiadau Ar-lein (OET),[1] ac Ipsos iris Ofcom.[2] Y Traciwr Profiadau Ar-lein yw arolwg tracio meintiol chwemisol Ofcom sy'n edrych ar agweddau pobl at ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, a'u profiadau ohonynt. Ipsos iris yw'r arian sydd wedi'i gymeradwyo gan UKOM ar gyfer mesur cynulleidfaoedd ar-lein ac mae'n darparu data sy'n gynrychioliadol o'r boblogaeth oedolion ar-lein (18 oed a hŷn) y DU, gan roi cipolwg ar gyrhaeddiad a'r amser a dreuliwyd ar wefannau ac apiau, ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron ym mis Mai 2024. Mae'n cymharu tueddiadau o un flwyddyn i'r llall ers mis Mai 2022, ac mae'n cael ei ddefnyddio i edrych ar dueddiadau misol lle mae newidiadau nodedig yn digwydd.

**Nodyn ar fethodoleg yr ymchwil a'r derminoleg ynghylch 'niwed posibl' a ddefnyddir yn yr adroddiad**

Mae arolwg OET yn ceisio deall profiadau defnyddwyr rhyngrwyd sy'n 13 oed a hŷn yn y DU o ddod ar draws niwed posibl ar-lein. Nid yw pob digwyddiad o gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein yn arwain at achosi niwed seicolegol (neu ariannol) mewn gwirionedd, felly cyfeirir atynt fel 'niwed posibl' yn yr adroddiad hwn.

Mae'r data sy'n ymwneud â'r math o niwed posibl a pha mor gyffredin ydyw yn ymwneud ag ymatebion defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n dod ar draws 'niwed posibl' yn y pedair wythnos cyn cwblhau'r arolwg OET; 'y niwed posibl mwyaf diweddar iddynt ddod ar ei draws'. Mae rhagor o ddata OET sy'n ymwneud â lleoliad ac effaith niwed posibl, ac ymateb iddo, yn ymwneud â'r 'niwed posibl mwyaf diweddar iddynt ddod ar ei draws'. I gasglu'r ffigurau hyn, mae cyfranogwyr yr arolwg yn yr OET yn cael rhestr o niwed posibl, ac mae eu hymatebion yn seiliedig ar eu gallu i gofio a barnu'r cynnwys a'r ymddygiad maen nhw'n credu sy'n cyd-fynd â'r rheini sydd wedi'u rhestru yn yr holiadur.

[1] Mae'r Traciwr Profiadau Ar-lein (OET) yn cael ei greu gan Ofcom, ac yn cael ei redeg gan YouGov ar ei banel ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth a data o bob ton ar gael yma: Profiadau o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.
[2] Mae Ipsos iris yn mesur gweithgarwch ac ymddygiad cyfranogwyr ar-lein ar eu dyfeisiau personol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Ipsos iris a'r atodiad methodoleg isod.

Un o’r pethau sydd wedi’i gynnwys yn y rhestr o niwed posibl yn yr holiadur OET yw cynnwys sy’n niweidiol i blant, sy’n dod o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, ac sydd hefyd yn ymestyn i fathau eraill o gynnwys ac ymddygiad a allai fod yn niweidiol, er mwyn cael amrywiaeth eang o brofiadau ar-lein.[3]

[3] Mae rhestr lawn o’r niwed posibl sy’n cael ei ddefnyddio i annog cyfranogwyr ar gael yn yr holiadur.

# 2. Trosolwg

## Amser sy'n cael ei dreulio ar-lein

**Ym mis Mai 2024, fe wnaeth oedolion y Deyrnas Unedig dreulio 4 awr 20 munud y dydd ar-lein ar gyfartaledd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron**

Oedolion ifanc dreuliodd y cyfnodau hiraf ar-lein, gyda phobl ifanc 18-24 oed yn treulio 6 awr 1 munud ar-lein y dydd ar gyfartaledd, a phobl 65+ dreuliodd yr amser lleiaf ar-lein (3 awr 10 munud). Treuliodd menywod fwy o amser ar-lein na dynion ym mhob grŵp oedran. Y cyfartaledd dyddiol i fenywod oedd 4 awr 36 munud, sy'n 33 munud yn fwy na dynion (4 awr a 3 munud). Roedd y gwahaniaeth ar ei uchaf ymysg menywod 18-24 oed 'Cenhedlaeth Z' sydd wedi treulio mwy nag awr yn hirach ar-lein na dynion (6 awr 36 munud o'i gymharu â 5 awr 28 munud).

**Mae bron i hanner (48%) yr amser mae oedolion y DU yn ei dreulio ar-lein yn digwydd ar wasanaethau sy'n eiddo i Alphabet neu Meta**

Ym mis Mai 2024, treuliodd oedolion y Deyrnas Unedig 2 awr 4 munud y dydd ar gyfartaledd yn defnyddio gwasanaethau sy'n eiddo i'r sefydliadau hyn. Mae Alphabet yn parhau i fod y sefydliad mwyaf poblogaidd gyda bron pob oedolyn ar-lein (99%) yn ymweld â'u gwasanaethau, gyda 94% yn ymweld â YouTube, gan dreulio 47 munud y dydd ar gyfartaledd ar y gwasanaeth. Nid oedd Meta ymhell ar ei hôl hi, a nhw oedd yn yr ail safle o ran eu cyrhaeddiad (96%). Roedd cyfanswm o 70% (33 miliwn) o oedolion ar-lein yn y DU wedi ymweld â phob un o'r tri llwyfan mwyaf poblogaidd sy'n eiddo i Meta – Facebook, WhatsApp ac Instagram. Er mai Facebook a Messenger oedd y gwasanaeth Meta gyda'r cyrhaeddiad mwyaf ymysg oedolion (91%), mae gwahaniaeth nodedig yn yr amser mae oedolion o wahanol grwpiau oedran yn ei dreulio arno. Defnyddwyr Facebook 18-24 oed oedd yn ymgysylltu leiaf â'r gwasanaeth, gan dreulio 15 munud y dydd ar gyfartaledd ar y llwyfan, sy'n llawer is na'r amser cyfartalog a dreulir gan oedolion yn gyffredinol (39 munud).

## Sectorau ar-lein

### Cyfryngau cymdeithasol

**Reddit yw'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol mawr sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gan gyrraedd dros hanner oedolion ar-lein y DU erbyn mis Mehefin 2024**

Gwelodd Reddit gynnydd o 47% o flwyddyn i flwyddyn mewn cyrhaeddiad ymysg oedolion ar-lein yn y DU, gan godi i 22.9 miliwn (48% o oedolion ar-lein yn y DU) erbyn mis Mai 2024 (Mai 2023: 15.6m, 33%), gan ddisodli X (Twitter gynt) a LinkedIn yn y pumed safle o blith y gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion. Sbardunwyd y cynnydd hwn gan oedolion ifanc yn bennaf, gan olygu fod Reddit yn ymddangos yn y deg sefydliad ar-lein mwyaf poblogaidd ar gyfer oedolion ifanc ar-lein am y tro cyntaf (18-24 oed: 71%; 25-34 oed: 63%). Mae hyn wedi cynyddu'n arwyddocaol ers mis Mai 2023 (18-24: 58%, 25-34: 49%). Cynyddodd Reddit ei gyrhaeddiad ymhellach ym mis Mehefin 2024, gan gyrraedd 24.6 miliwn (52%) o oedolion ar-lein yn y DU.

Flwyddyn ar ôl ei ryddhau, gwasanaeth microflogio Meta Threads oedd y 12fed gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 5.3 miliwn (11%) o oedolion ar-lein y DU

ym mis Gorffennaf 2024. Er mai X yw'r gwasanaeth microflogio mwyaf poblogaidd o hyd, mae cyrhaeddiad misol cyfartalog ymhlith oedolion yn parhau i ostwng: o 27.9 miliwn yn 2021 i 26.5 miliwn yn 2022 a 23.8 miliwn yn 2023. Y cyfartaledd misol 2024 hyd at fis Awst 2024 oedd 22.2 miliwn, sy'n ostyngiad pellach o 1.6 miliwn yn nifer yr oedolion sy'n ymweld.

**Roedd ymwelwyr 18-24 oed â TikTok a Snapchat yn treulio tua awr y dydd ar gyfartaledd ar bob gwasanaeth**

Fe wnaeth tua thri chwarter (74%, 2.0m) o bobl ifanc 18-24 oed ar-lein ymweld â TikTok ym mis Mai 2024, gan dreulio 64 munud y dydd ar gyfartaledd ar y gwasanaeth a oedd yn cyfrif am 39% o gyfanswm yr amser roedd oedolion yn y DU yn ei dreulio ar y gwasanaeth. Roedd menywod 18-24 oed a oedd yn ymweld â TikTok yn treulio 1 awr 17 munud ar y gwasanaeth ar gyfartaledd, ac roedd dynion yn treulio 35 munud yn llai ar gyfartaledd (48 munud). Mae Snapchat yn gwyro mwy fyth tuag at oedolion ifanc, gyda defnyddwyr 18-24 oed yn cyfrif am 64% o gyfanswm yr amser a dreuliwyd gan oedolion yn y DU ar Snapchat ym mis Mai 2024, sef 55 munud y diwrnod ar gyfartaledd. Menywod oedd i gyfrif am ddwy ran o dair o gyfanswm yr amser a dreuliwyd gan oedolion yn y DU ar Snapchat ym mis Mai 2024; roedd menywod 18-24 oed a oedd yn ymweld â Snapchat yn treulio dros awr (67 munud) ar gyfartaledd ar y gwasanaeth bob dydd, ac roedd dynion yn treulio 42 munud.

## Negeseuon a galwadau

**Anfonodd pedwar deg tri y cant o ddefnyddwyr negeseuon Snapchat y DU a oedd yn 16 oed a hŷn ddelwedd neu fideo sy'n diflannu ar y gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2024**

Canfu arolwg gan Ofcom ym mis Gorffennaf 2024 fod 57% o bobl ifanc 16-24 oed wedi anfon delwedd neu fideo sy'n diflannu ar Snapchat. Mae WhatsApp a Telegram hefyd yn cynnig swyddogaethau 'gweld unwaith' neu ddelweddau/fideos sy'n diflannu, ac roedd 9% a 12% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn yn y drefn honno yn defnyddio'r rhain.

Dangosodd data Ipsos iris mai WhatsApp oedd y gwasanaeth negeseuon mwyaf poblogaidd o hyd, gan gyrraedd 87% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024. Roedd chwe-deg-pedwar y cant o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio WhatsApp bob dydd, i fyny o 58% ym mis Mai 2023.

## Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol

**ChatGPT oedd yr adnodd Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol mwyaf poblogaidd, gyda 37% o bobl 8-15 oed ar-lein ym Mhrydain a 33% o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y DU dros 16 oed yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

Dangosodd arolwg gan Ofcom a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024 fod dros hanner (54%) y plant 8-15 oed ar-lein ym Mhrydain a 41% o ddefnyddwyr 16 oed a hŷn ar-lein yn y DU yn dweud eu bod wedi defnyddio adnodd Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dynion ar-lein 16 oed a hŷn yn y DU yn fwy tebygol na menywod o fod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf (50% o'i gymharu â 33%). Canfu data Ipsos iris fod ChatGPT wedi parhau i ehangu ei gyrhaeddiad, gyda 4.2 miliwn (9%) o oedolion ar-lein yn y DU yn ymweld ag ef ym mis Mai 2024, gan gynyddu i 4.4 miliwn (9%) erbyn mis Gorffennaf 2024. Ym mis Mai 2024, roedd cyrhaeddiad ChatGPT ymhlith oedolion ar ei uchaf ymysg pobl ifanc ar-lein 18-24 oed yn y DU (27%, 1.4m).

**Er mai ‘dod o hyd i wybodaeth neu gynnwys’ yw’r rheswm mwyaf poblogaidd dros ddefnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, dim ond lleiafrif sy’n credu bod y wybodaeth a ddarperir yn ddibynadwy**

Y rheswm mwyaf poblogaidd dros ddefnyddio adnodd Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd dod o hyd i wybodaeth neu gynnwys, a nodwyd hyn gan 48% o ddefnyddwyr rhyngrwyd dros 16 oed a 31% o blant 8-15 oed ar-lein ym Mhrydain. Serch hyn, dim ond 18% o’r rhai 16 oed a hŷn a ddywedodd eu bod yn credu bod y wybodaeth o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ddibynadwy, a dywedodd traean o’r plant 8-15 oed eu bod yn hyderus yn y wybodaeth roeddent yn ei chael o’r adnoddau hyn.

## Peiriannau chwilio

**Mae peiriannau chwilio yn dal i gael eu defnyddio’n eang; fe wnaeth 90% o oedolion ar-lein y DU ymweld ag o leiaf un o’r deg peiriant chwilio mwyaf poblogaidd ym mis Mai 2024**

Google yw’r peiriant chwilio mwyaf poblogaidd o hyd, gan gyrraedd 83% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024, i lawr o 86% ym mis Mai 2023. Bing gan Microsoft oedd yn yr ail safle, sef 39% ym mis Mai 2024, i lawr o 46% ym mis Mai 2023. Mae safleoedd chwilio Google a Microsoft wedi ymgorffori deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol – Microsoft Copilot a Google Gemini. Dywedodd pymtheg y cant o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy’n 16 oed a hŷn eu bod wedi defnyddio Copilot, yr adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol uchaf ond un, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a dywedodd 10% eu bod wedi defnyddio Google Gemini, gan ei wneud y pedwerydd adnodd deallusrwydd artiffisial mwyaf poblogaidd dim ond chwe mis ar ôl ei lansio.

## Cwrdd â chariad

**Ymwelodd un o bob deg oedolyn ar-lein yn y DU â gwasanaeth cwrdd â chariad ym mis Mai 2024, gan gyd-fynd â mis Mai 2023 (11%), er bod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o wasanaethau cwrdd â chariad poblogaidd ymysg oedolion yn y DU**

Oedolion 18-24 oed (18%) a 25-34 oed (17%) oedd yn ymweld fwyaf â gwasanaethau cwrdd â chariad. Tinder oedd yn dal i fod â’r cyrhaeddiad uchaf, sef 1.9 miliwn (4%) o oedolion ar-lein yn y DU. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 600,000 yn ei gyrhaeddiad o 2.5 miliwn o ymwelwyr (5%) yn y flwyddyn flaenorol. Cyrhaeddodd Hinge, yr ail wasanaeth mwyaf poblogaidd, 1.4 miliwn o oedolion ar-lein yn y DU (3%) ym mis Mai 2024, gostyngiad o 131k ers y flwyddyn flaenorol. Er bod mwy o ddynion na menywod o hyd ar wasanaethau cwrdd â chariad ar-lein yn gyffredinol, roedd Hinge yn fwy poblogaidd ymysg menywod ym mis Mai 2024.

## Gwasanaethau cynnwys pornograffig

**Roedd dau-ddeg-naw y cant o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig ym mis Mai 2024**

Roedd dau-ddeg-naw y cant (13.8m) o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio gwasanaeth cynnwys pornograffig ym mis Mai 2024, gan gyd-fynd â’r ddwy flynedd flaenorol (Mai 2023: 29%, Mai 2022: 31%). Yn ystod hanner cyntaf 2024, yr amser cyfartalog misol a dreuliwyd ar wasanaethau cynnwys pornograffig gan ymwelwyr sy’n oedolion yn y DU oedd 1 awr 33 munud, gostyngiad o 11% (-11 munud) o’i gymharu â hanner cyntaf 2023 (cyfartaledd misol o 1 awr 41 munud). Roedd dynion yn llawer mwy tebygol o ymweld â gwasanaeth cynnwys pornograffig, ac yn cyfrif am 72% o gynulleidfa

oedolion y DU ym mis Mai 2024, gan gyd-fynd â'r flwyddyn flaenorol (Mai 2023: 73%). Pornhub yw'r gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd o hyd ar draws cenhedloedd, rhywiau a grwpiau oedran, gyda 18% (8.4m) o oedolion ar-lein y DU yn ymweld â'r gwasanaeth ym mis Mai 2024.

## Manwerthu

**Amazon oedd prif fanwerthwr ar-lein y DU o hyd gyda 35% o oedolion ar-lein y DU yn ymweld â'r gwasanaeth bob dydd ym mis Mai 2024**

Ymwelodd wyth deg wyth y cant (41.5m) o oedolion ar-lein y DU ag Amazon ym mis Mai 2024, sy'n cyd-fynd â'r un cyfnod yn y ddwy flynedd flaenorol (Mai 2022: 88%, Mai 2023: 87%). Ar ddiwrnod arferol, roedd 16.4 miliwn (35%) o oedolion ar-lein y DU yn ymweld ag Amazon bob dydd ym mis Mai 2024. Roedd tri chwarter poblogaeth ar-lein y DU sy'n 16 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi defnyddio marchnad ar-lein yn Ch2 2024. Ebay oedd y farchnad ar-lein â'r cyrhaeddiad uchaf (57%) a Facebook Marketplace oedd yn yr ail safle gyda 40% yn dweud eu bod wedi defnyddio'r gwasanaeth yn Ch2 2024.

# Y profiad ar-lein

**Mae dwy ran o dair (67%) o oedolion ar-lein yn cytuno bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau, gostyngiad o'i gymharu â mis Mehefin 2023 (71%) a mis Ionawr 2024 (68%)**

Roedd oedolion ifanc 18-24 oed (11%) a'r rheini o grwpiau ethnig lleiafrifol (10%) yn fwy tebygol o gytuno bod y risgiau o fod ar-lein yn drech na'r manteision. Er bod mwy o ddefnyddwyr yn teimlo bod y manteision personol o fod ar-lein yn uchel (67%), roedd llai'n teimlo bod y rhyngrwyd yn dda i gymdeithas (40%). Roedd menywod (34%), unigolion gwyn (39%), y rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C2DE is (36%) a'r rheini â chyflwr cyfyngol (36%) yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo bod y rhyngrwyd yn beth da i gymdeithas.

**Roedd oedolion ifanc yn llai tebygol na phobl hŷn o feddwl bod ganddyn nhw gydbwysedd da rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein, ac roedd plant hŷn yn poeni mwy na rhai iau am yr amser roedden nhw'n ei dreulio ar-lein**

Canfu ymchwil Ofcom ar Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau fod oedolion ifanc yn fwy tebygol nag oedolion hŷn o anghytuno bod ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein (21% o bobl ifanc 18-24 oed o'i gymharu â 7% o bobl dros 54 oed). Dangosodd arolwg ar wahân gan Ofcom fod pryder plant am yr amser roeddent yn ei dreulio ar-lein yn cynyddu gydag oedran: Dywedodd 35% o blant 8-9 oed, 46% o blant 10-12 oed, a 51% o blant 13-15 oed eu bod yn poeni am faint o amser roeddent yn ei dreulio ar o leiaf un math o wasanaeth. Roedd plant yn poeni am effeithiau treulio gormod o amser ar-lein ar iechyd meddyliol (49%) a chorfforol (46%).

**Camwybodaeth oedd y math o niwed posibl mwyaf cyffredin o hyd, gyda 39% o ddefnyddwyr 13 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi dod ar ei draws ym mis Mehefin 2024**

Ym mis Mehefin 2024, dywedodd tri o bob deg defnyddiwr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU eu bod wedi gweld rhywbeth yn ystod y pedair wythnos diwethaf a oedd wedi gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn ypset neu'n negyddol, a oedd yn gynnydd ers mis Mehefin 2023 (27%). Er gwaethaf y cynnydd, roedd cyfran y defnyddwyr a oedd wedi dod ar draws o leiaf un o'r mathau o niwed a restrwyd yn ein harolwg OET yr un fath ag yr oedd mewn blynyddoedd blaenorol (68%);

Roedd oedolion iau (18-24: 80% o'i gymharu â rhai 65+: 55%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi dod ar draws niwed posibl ar-lein.

Camwybodaeth oedd y math o niwed posibl mwyaf cyffredin, gyda 39% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi dod ar ei draws. Pan gynhaliwyd yr arolwg, roedd y mathau o gamwybodaeth a welwyd gan ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn amrywio yn ôl y newyddion a materion cyfoes amserol. Ar ôl cyhoeddi Etholiad Cyffredinol y DU ar 22 Mai 2024, roedd cynnydd bach ond sylweddol ym mis Mehefin 2024 yng nghanran y defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn a ddywedodd eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth wleidyddol neu etholiadol (25%), gan godi o'r ganran o 22% ym mis Ionawr 2024. Ym mis Ionawr 2024, bu cynnydd sylweddol yn yr adroddiadau o gamwybodaeth am wrthdaro (i 21% o'i gymharu â 6% ym mis Mehefin 2023), ac mae'n debyg fod hyn yn gysylltiedig â'r rhyfel yn Gaza a ddechreuodd ym mis Hydref 2023. Er y bu gostyngiad yn y niferoedd hyn yn arolwg mis Mehefin 2024, mae'n dal yn sylweddol uwch na'r ganran o 16% ym mis Mehefin 2023.

**Mae mwy o oedolion ar-lein yn dod ar draws cynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd yn yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU sy'n dweud eu bod wedi gweld cynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol, o 23% ym mis Mehefin 2023 i 26% ym mis Mehefin 2024. Mae'r mathau o gynnwys ar-lein cas a nodwyd yn amrywio yn ôl y straeon newyddion a materion cyfoes ar adeg yr arolwg. Ym mis Ionawr 2024, bu cynnydd sydyn yn nifer yr adroddiadau am gynnwys cas tuag at bobl oherwydd eu hethnigrwydd neu eu crefydd, i 36% a 33% yn y drefn honno, gan godi o 25% a 16% ym mis Mehefin 2023. Ym mis Mehefin 2024, roedd y ffigurau hyn yn dal yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, o ran ethnigrwydd (33%) a chrefydd (30%).

Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran y mathau o niwed posibl y daethpwyd ar eu traws ar-lein. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth (41% o'i gymharu â 37%), sgamiau neu dwyll (36% o'i gymharu â 31%), cynnwys cas (27% o'i gymharu â 24%), cynnwys ffug neu dwyllodrus (20% o'i gymharu â 16%) a chynnwys y talwyd amdano/a noddwyd nad oedd wedi'i nodi felly (19% o'i gymharu â 15%). Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o roi gwybod eu bod wedi cael ceisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu'n ddilynwyr (30% o'i gymharu â 26%), cynnwys cas tuag at fenywod (23% o'i gymharu â 19%) a chynnwys sy'n gysylltiedig â delwedd y corff (21% o'i gymharu â 13%).

**Mae gan un plentyn 8-15 oed o bob pump oedran defnyddiwr o 18 oed o leiaf ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol ond mae arwyddion bod gwasanaethau'n ymdrechu'n amlach i wirio dyddiadau geni**

Mae ymchwil oedran defnyddwyr Ofcom, a gynhaliwyd ym mis Awst 2024 yn awgrymu bod gan 22% o blant 8–17 oed (ac 20% o blant 8-15 oed) sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o'r llwyfannau a restrir yn ein hastudiaeth, oedran proffil defnyddiwr o 18 oed neu hŷn, sy'n golygu bod mewn mwy o berygl iddynt weld cynnwys i oedolion. Mae hyn yn dal i gyd-fynd â data a gasglwyd ym mis Chwefror 2024 a mis Medi 2023 (8-17 oed: 21% a 22%, 8-15 oed: 20% ar gyfer y ddau). O'i gymharu â mis Medi 2023, roedd plant 8-17 oed yn fwy tebygol o ddweud ym mis Awst 2024 eu bod wedi cael cais i ddilysu eu dyddiad geni ar eu proffil (Facebook: 25% o'i gymharu â 10%, Instagram: 18% o'i gymharu â 9%, Snapchat: 14% o'i gymharu â 9%, TikTok: 19% o'i gymharu â 13%, X: 20% o'i gymharu â 10% a YouTube: 14% o'i gymharu â 10%).

**Ymysg pobl ifanc yn eu harddegau ar-lein, iaith anweddus neu dramgwyddus yn gyffredinol[4] oedd y niwed posibl mwyaf cyffredin y daethant ar ei draws, er bod eu hamlygrwydd honedig wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf**

Ym mis Mehefin 2024, dywedodd tri deg pump y cant o ddefnyddwyr 13-17 oed eu bod wedi dod ar draws iaith a oedd yn gyffredinol anweddus neu dramgwyddus ar-lein. Bu gostyngiad dros y flwyddyn ddiwethaf yng nghyfran y bobl ifanc 13-17 oed sy'n wynebu'r niwed posibl hwn, gyda 47% wedi nodi'r niwed hwn ym mis Mehefin 2023 a 40% ym mis Ionawr 2024.

**Roedd bechgyn yn eu harddegau yn fwy tebygol o ddod ar draws cynnwys a oedd yn dangos styntiau peryglus, ac roedd merched yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl yn ymwneud â delwedd y corff**

Roedd gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran nifer yr achosion o niwed posibl yr oedd pobl ifanc yn eu harddegau yn dod ar eu traws. Roedd bechgyn yn eu harddegau yn fwy tebygol na merched o ddod ar draws cynnwys a oedd yn dangos styntiau peryglus (29% o'i gymharu â 19%). Mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddod i gysylltiad â niwed posibl ar-lein sy'n ymwneud â delwedd y corff; mae hyn yn cynnwys pethau sy'n creu stigma ynghylch mathau penodol o'r cyrff (25% o'i gymharu ag 11%), cynnwys sy'n hyrwyddo bwyta/ymarfer corff gormodol neu afiach (19% o'i gymharu â 9%), codi cywilydd ar grwpiau (19% o'i gymharu â 10%) a chynnwys sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta (17% o'i gymharu â 5%). Mae merched yn eu harddegau hefyd yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod wedi cael ceisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu ddilynwyr (33% o'i gymharu â 21%) a chynnwys sy'n dangos casineb at fenywod (23% o'i gymharu â 14%).

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf Facebook yw'r gwasanaeth lle mae defnyddwyr sy'n oedolion yn fwyaf tebygol o fod wedi dod ar draws niwed posibl o hyd (29%), a TikTok (22%) ac YouTube (13%) yw'r gwasanaethau lle'r oedd defnyddwyr yn eu harddegau yn fwyaf tebygol o ddod ar draws niwed posibl**

Roedd defnyddwyr 13 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddweud mai ar wasanaethau cyfryngau cymdeithasol yr oeddent wedi dod ar draws niwed posibl ar-lein yn fwyaf diweddar (56%). Facebook (29%) oedd y llwyfan lle'r oedd defnyddwyr sy'n oedolion yn fwyaf tebygol o ddod ar draws niwed posibl arno, wedi'i ddilyn gan X (Mehefin 2024: 18%, i lawr o 23% ym mis Mehefin 2023). Roedd oedolion hŷn yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod ar draws y niwed posibl mwyaf diweddar ar Facebook, (55+: 45% o'i gymharu â phobl 18-24 oed: 8%). Roedd defnyddwyr 18-24 oed yn fwy tebygol nag oedolion hŷn o ddod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar ar X (23%), Instagram (20%), TikTok (20%), Snapchat (3%) a Tumblr (1%), ac roedd yn llai tebygol o fod ar Facebook (8%).

Roedd plant 13-17 oed gryn dipyn yn fwy tebygol nag oedolion o fod wedi dod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar ar TikTok (22% o'i gymharu â 9%), YouTube (13% o'i gymharu â 4%), Snapchat (7% o'i gymharu ag 1%) a WhatsApp (7% o'i gymharu â 2%).

**Ym mis Mehefin 2024, dywedodd 35% o oedolion eu bod wedi creu adroddiad neu wedi tynnu sylw at gynnwys mewn ymateb i ddod ar draws niwed posibl ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf**

Roedd tri deg wyth y cant o oedolion a ddewisodd greu adroddiad neu dynnu sylw at y cynnwys neu'r gweithgaredd yn ymwybodol o ganlyniad eu hadroddiad, cynnydd ers dwy don ddiwethaf yr

---

[4] Er nad yw iaith dramgwyddus neu anweddus yn cael ei chydnabod ar wahân fel niwed yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023. Cafodd hyn ei gynnwys fel rhan o restr o niwed posibl yn ein harolwg OET gan ein bod eisiau cofnodi profiad ehangach defnyddwyr ar-lein.

arolwg (32% ym mis Ionawr 2024, 30% ym mis Mehefin 2023). Roedd menywod yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent ‘wedi clywed dim byd eto’ mewn ymateb i’w hadroddiad, o’u cymharu â dynion (55% o’i gymharu â 46%). Roedd dynion yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael ymateb ysgrifenedig (11% o’i gymharu â 7%) ac yn fwy tebygol o ddweud bod y cynnwys a adroddwyd wedi cael ei dynnu i lawr (25% o’i gymharu â 18%).

Bu cynnydd mewn bodlonrwydd ar ôl rhoi gwybod am gynnwys a allai fod yn niweidiol, o 31% ym mis Mehefin 2023 i 40% ym mis Mehefin 2024. Mae cynnydd hefyd wedi bod mewn ymwybyddiaeth o beth oedd canlyniad rhoi gwybod am gynnwys (e.e. tynnu cynnwys i lawr, ymateb ysgrifenedig, ac ati), o 30% ym mis Mehefin 2023 i 38% ym mis Mehefin 2024.

**Mae dwy ran o bump o oedolion sy’n defnyddio’r rhyngrwyd yn credu mai’r wefan/ap (39%) a’r peiriannau chwilio (41%) ddylai fod yn gyfrifol am gadw defnyddwyr yn ddiogel ar-lein**

Roedd menywod yn fwy tebygol na’r cyfartaledd o ddweud mai’r wefan neu’r ap sy’n cynnal cynnwys sy’n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr (40%) a’r peiriannau chwilio (45%) ddylai fod yn gyfrifol am hyn, ac roedd 38% o ddynion yn dweud hyn am wefannau ac apiau sy’n cynnal cynnwys sy’n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr a pheiriannau chwilio. Roedd ugain y cant o ddefnyddwyr sy’n oedolion yn credu mai cyfrifoldeb yr unigolyn oedd sicrhau bod yr hyn roeddent yn ei bostio’n briodol i ddefnyddwyr eraill.

Ym mis Mehefin 2024, dywedodd mwy o oedolion ar-lein ei bod yn bwysig i safleoedd fonitro a dileu safbwyntiau sarhaus i ddiogelu defnyddwyr eraill nag y gwnaeth hynny ym mis Mehefin 2023 (26%, o’i gymharu â 24% ym mis Mehefin 2023). Fodd bynnag, roedd 38% o oedolion ar-lein yn cytuno bod gan ‘y rhyngrwyd rôl bwysig o ran cefnogi rhyddid mynegiant’. Mae dynion yn fwy tebygol o ddadlau dros ryddid mynegiant: Roedd 47% yn cytuno â’r datganiad hwn, o’i gymharu â 30% o fenywod.

Roedd cynnydd yng nghyfran yr oedolion ar-lein a oedd yn credu bod angen rhagor o fesurau diogelwch ar-lein (44%, o’i gymharu â 42% ym mis Ionawr 2024 a 40% ym mis Mehefin 2023). Mae’r gred hon yn arbennig o amlwg ymysg menywod, pobl 55 oed a hŷn a phobl heterorywiol. Ar y llaw arall, mae dynion, oedolion iau a’r rheini sy’n ystyried eu hunain yn LHD+ yn fwy tebygol o ddweud bod y mesurau diogelwch presennol yn ddigonol.

# 3. Y dirwedd ar-lein

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r hyn mae pobl yn y DU yn ei wneud ar-lein, gan edrych ar ddefnydd oedolion o'r gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd a'r rheini maen nhw'n treulio'r amser hiraf arnynt, a'u hymddygiad arnynt. Mae'n seiliedig yn bennaf ar ddata ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn ar-lein yn y DU, a ddarperir gan Ipsos iris, y dull mesur cynulleidfaoedd ar-lein sydd wedi'i achredu gan UKOM. Rydym yn defnyddio Mai 2024 fel y mis cyfeirio craidd.

### Metrigau allweddol

**Ffigur 1: Amser yr oedd oedolion yn unig yn ei dreulio ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, yn ôl dyfais ac oedran (oriau:munudau): Mai 2024**




*Ffynhonnell: Yr amser a dreuliwyd ar-lein bob dydd ar gyfartaledd yn ôl dyfais - Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos. Yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn cynnwys defnydd personol ac mewn rhai achosion, y rheini sy'n defnyddio eu dyfais ar gyfer gwaith. Mynediad i'r rhyngrwyd mewn cartrefi yn y DU - Traciwr Technoleg Ofcom 2024. CE1: A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol ac ati) ac os felly, a ydych chi'n gwneud defnydd personol o'r rhyngrwyd gartref? Sail: yr holl ymatebwyr 16 oed a hŷn.*

# Derbyn a defnyddio

## Treuliodd oedolion y DU 4 awr a 20 munud y diwrnod ar-lein ar gyfartaledd ym mis Mai 2024; Treuliodd menywod 18-24 oed fwy nag awr yn hirach ar-lein na dynion yn yr un grŵp oedran

Mae data gan Ipsos iris[5] yn dangos bod 47.4 miliwn o oedolion y Deyrnas Unedig wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron ym mis Mai 2024 (ein mis sampl), gan dreulio 4 awr ac 20 munud ar-lein ar gyfartaledd bob dydd. Oedolion ifanc sy'n treulio'r amser hiraf ar-lein, gyda phobl ifanc 18-24 oed yn treulio 6 awr ac 1 munud ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, a phobl 65 oed a hŷn sy'n treulio'r lleiaf o amser (3 awr 10 munud). Oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn yr Alban (4 awr 44 munud) a Chymru (4 awr 43 munud) sy'n treulio'r amser hiraf ar-lein bob dydd o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Yr amser cyfartalog ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon oedd 4 awr ac 16 munud yr un.[6] [7]

Treuliodd menywod fwy o amser ar-lein na dynion ym mhob grŵp oedran. Y cyfartaledd dyddiol i fenywod oedd 4 awr 36 munud, sy'n 33 munud yn fwy na dynion (4 awr a 3 munud). Roedd y gwahaniaeth mwyaf yn yr amser a dreuliwyd ar-lein ymysg pobl ifanc 18-24 oed, ac roedd menywod o'r oedran hwn yn treulio 21% yn fwy o amser ar-lein na dynion o'r un oedran[8].

**Ffigur 2: Amser yr oedd oedolion yn y DU yn ei dreulio ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, yn ôl oedran a rhywedd (oriau:munudau): Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.*

---

[5] Gweler y Fethodoleg i gael manylion am Ipsos iris.
[6] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.
[7] O ganlyniad i wella methodoleg set ddata Ipsos iris, ni ellir cymharu cyfanswm y data o ran yr amser cyfartalog a dreuliwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
[8] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

## Ym mis Mai 2024, roedd tri chwarter yr amser a dreuliwyd ar-lein bob dydd yn digwydd ar ffonau clyfar

Ym mis Mai 2024, roedd 75% (3 awr 15 munud) o'r amser a dreuliwyd ar-lein bob dydd gan oedolion ar-lein yn y DU ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron, yn cael ei dreulio ar ffonau clyfar. Roedd yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar-lein ar gyfrifiaduron a dyfeisiau tabled yn union yr un fath, sef 32 munud bob dydd, ac roedd tueddiad i bobl hŷn (65 oed a hŷn) dreulio mwy o'u hamser ar-lein ar ddyfeisiau tabled, ac mae pobl ifanc yn treulio rhywfaint yn fwy o'u hamser ar gyfrifiaduron. Roedd pobl ifanc 25-34 oed yn treulio'r gyfran uchaf o'u hamser ar-lein ar ffonau clyfar, sef 83%, ac roedd y rheini sy'n 65 oed a hŷn yn treulio'r gyfran isaf o'u hamser ar-lein ar ffonau clyfar, sef 56%.[9]

Ar y cyfan, roedd tueddiad i fenywod dreulio cyfran ychydig yn uwch o'u hamser ar-lein ar ffonau clyfar, sef 77%, o'i gymharu â 73% ar gyfer dynion. Ymysg pobl 25-34 oed, roedd menywod yn defnyddio 87% o'u hamser ar-lein ar ffonau clyfar, o'i gymharu â 79% ar gyfer dynion. Yn y grwpiau oedran 55-64 a 65 oed a hŷn, roedd dynion a menywod yn treulio'r un gyfran (55-64: 70%, 65 oed a hŷn: 56%) o'u hamser ar-lein ar ffonau clyfar.[10]

**Ffigur 3: Amser yr oedd oedolion yn ei dreulio ar-lein bob dydd, yn ôl dyfais a gwlad yn y DU (oriau:munudau): Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.*

## Nid oes gan un o bob 20 o bobl fynediad i'r rhyngrwyd gartref

Mae pump y cant o unigolion 16 oed a hŷn yn y DU yn dweud nad oes mynediad ganddynt i'r rhyngrwyd gartref yn 2024,[11] i lawr o 7% yn 2022 a 2023. Mae'n anghyffredin, ymysg pobl ifanc 16-

---

[9] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[10] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[11] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom. CE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sylwer: Nododd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref.

54 oed, i fod heb fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref, gan amrywio rhwng 1 a 3%, ac yn gyffredinol y grwpiau oedran hŷn (55 oed a hŷn) sy'n fwy tebygol o fod heb gysylltiad o'r fath. [12]Nid oes gan 13 y cant o'r rheini 65 oed a hŷn fynediad i'r rhyngrwyd gartref, i lawr o 18% yn 2023,[13] ac mae gan 2% arall fynediad i'r rhyngrwyd gartref ond nid ydynt yn ei ddefnyddio.[14]

Mae'r dulliau o gysylltu â'r rhyngrwyd yn fwy amrywiol ymhlith grwpiau oedran iau, mae 8% o bobl 16-24 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref drwy eu cysylltiad ffôn symudol yn unig, dwywaith y cyfartaledd cyffredinol, ac 86% drwy fand eang sefydlog. Mewn cymhariaeth, mae 93% o'r rheini sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd gartref yn derbyn eu rhyngrwyd drwy fand-eang sefydlog, ac mae 4% o aelwydydd ar-lein yn cael mynediad i'r rhyngrwyd gartref drwy eu rhwydwaith symudol yn unig.[15]

**Ffigur 4: Unigolion 16 oed a hŷn yn y DU, lleoliad eu defnydd o'r rhyngrwyd**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2023 a 2024. CE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? CE4: Ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl y tu allan i'ch cartref yn y lleoliadau canlynol? Sail: yr holl ymatebwyr 16+ oed.*

**Ffigur 5: Canran yr unigolion 16 oed a hŷn yn y DU sydd â mynediad i'r rhyngrwyd gartref, yn ôl blwyddyn: 2022-2024**

| Blwyddyn | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref ac yn ei ddefnyddio | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref ond ddim yn ei ddefnyddio |
|---|---|---|---|
| **2024** | 94% | 93% | 1% |

[12]Traciwr Technoleg Ofcom 2022 a Traciwr Technoleg Ofcom 2023. CE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref?
[13] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom. CE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sail: yr holl ymatebwyr 16+ oed.
[14] Traciwr Technoleg Ofcom 2024, CE16. Pa rai o'r rhesymau hyn sy'n berthnasol i pam yr ydych chi'n annhebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf? Sail: Lle nad yw'n debygol o gael y rhyngrwyd yn ystod y 12 mis nesaf.
[15] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom. CE7. Pa rai o'r dulliau hyn y mae'ch cartref yn eu defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd gartref? Sail: Lle defnyddir y rhyngrwyd gartref.

| Blwyddyn | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref ac yn ei ddefnyddio | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref ond ddim yn ei ddefnyddio |
|---|---|---|---|
| **2023** | 92% | 90% | 2% |
| **2022** | 93% | 92% | 1% |

*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, 2022, 2023 a 2024. CE1: A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd GARTREF (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sail: yr holl ymatebwyr 16+ oed. Sylwer: Nododd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref ai peidio.*

## Nododd mwy na chwarter y rheini nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref mai fforddiadwyedd oedd y rheswm am hynny

Roedd y rhan fwyaf (82%) o'r rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn annhebygol neu'n sicr o beidio â chael mynediad gartref yn ystod y 12 mis nesaf; dywedodd 10% eu bod yn debygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd ac atebodd 8% arall i ddweud nad oeddent yn gwybod. O'r rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref a oedd yn 65 oed a hŷn, dywedodd 95% eu bod yn annhebygol o gael mynediad yn ystod y 12 mis nesaf, gyda chyfran uchel (80%) yn dweud mai'r rheswm am hynny oherwydd diffyg diddordeb neu angen, ac mae 19% yn dweud bod rhywun arall yn gallu mynd ar-lein ar eu rhan os oes angen, ac 16% yn dweud ei bod yn rhy gymhleth i ddefnyddio'r rhyngrwyd.[16]

Yn 2024, dywedodd dros chwarter (27%) y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref a oedd yn 16 oed a hŷn nad oeddent yn debygol o'i gael yn ystod y 12 mis nesaf oherwydd rhesymau'n ymwneud â chostau (2023: 26%), gyda 22% yn sôn yn benodol am gostau sy'n ymwneud â band eang (2023: 23%). Rhai o'r rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â chost oedd 'gall rhywun arall fynd ar y rhyngrwyd ar fy rhan i os oes angen' (17%) ac 'mae defnyddio'r rhyngrwyd yn rhy gymhleth' (13%). Dywedodd pedwar y cant o ddynion a 6% o fenywod nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref. Roedd menywod heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn fwy tebygol na dynion o ddweud bod defnyddio'r rhyngrwyd yn rhy gymhleth (19%) fel rheswm pam dros beidio â bod yn debygol o'i gael.[17]

Ym mis Hydref 2024, mae Ofcom yn amcangyfrif bod tua 1.9 miliwn (+/- 500,000) o gartrefi yn y DU sydd â band eang sefydlog yn ei chael hi'n anodd fforddio eu gwasanaeth band eang sefydlog a bod 1.6 miliwn (+/- 400,000) o aelwydydd yn y DU sydd â ffôn symudol yn cael trafferth fforddio eu gwasanaeth ffôn symudol. Mae hyn wedi gostwng o'i gymharu â ffigurau o fis Hydref 2023 (2.4 miliwn (+/- 500,000) a 2.4 miliwn (+/- 500,000) yn y drefn honno.[18]

[16] Traciwr Technoleg Ofcom 2024, CE16. Pa rai o'r rhesymau hyn sy'n berthnasol i pam yr ydych chi'n annhebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf? Sail: Lle nad yw'n debygol o gael y rhyngrwyd yn ystod y 12 mis nesaf.
[17] Traciwr Technoleg Ofcom 2024, CE16. Pa rai o'r rhesymau hyn sy'n berthnasol i pam yr ydych chi'n annhebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf? Sail: Lle nad yw'n debygol o gael y rhyngrwyd yn ystod y 12 mis nesaf.
[18] Traciwr Fforddiadwyedd Ofcom 2024

**Ffigur 6: Rhesymau'n ymwneud â chostau peidio â chael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf**

| Rheswm | Oedran | | | Statws gweithio | Grŵp economaidd-gymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 16+ | 16-64 | 65+ | Ddim yn gweithio | DE |
| Unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â'r gost | 27% | 51% | 15% | 25% | 28% |
| Costau gosod band eang | 18% | 38% | 8% | 17% | 22% |
| Cost misol band eang sefydlog | 11% | 20% | 7% | 9% | 14% |
| Cost gliniadur/cyfrifiadur neu ddyfais tabled | 6% | 7% | 5% | 6% | 6% |
| Cost ffôn symudol | 5% | 5% | 5% | 5% | 5% |
| Cost gwasanaeth ffôn symudol bob mis | 3% | 4% | 3% | 2% | 3% |

*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2024, CE16. Pa rai o'r rhesymau hyn sy'n berthnasol i pam yr ydych chi'n annhebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf? Sail: Lle nad yw'n debygol o gael y rhyngrwyd yn ystod y 12 mis nesaf. Ni ellir dangos grwpiau economaidd-gymdeithasol eraill a grwpiau oedran ystod llai oherwydd bod y sail yn fach.*

# Defnydd o wasanaethau rhyngrwyd – y prif gwmnïau ar-lein

## Apiau a gwefannau sy'n eiddo i Alphabet a Meta oedd yn dal i gael eu defnyddio amlaf yn y DU

Gan gyd-fynd â'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf, Alphabet, sy'n berchen ar Google a YouTube, oedd yn parhau i fod y sefydliad[19] sydd â'r gwefannau a'r apiau mwyaf poblogaidd ymysg holl oedolion ar-lein y DU, gan gyrraedd bron pob oedolyn ar-lein yn y DU (99%) ym mis Mai 2024, gan gynnal y lefelau a welwyd yn 2023 (99%). Roedd Meta, perchennog Facebook, Instagram a WhatsApp, yn dynn ar eu sodlau, gyda 96% o oedolion ar-lein y DU yn ymweld â'i safleoedd a'i apiau (Mai 2023: 97%). Gwefannau ac apiau Amazon, Microsoft a'r BBC oedd yn y trydydd, y pedwerydd a'r pumed safle o ran y nifer mwyaf o ymwelwyr, gyda 90%, 87% ac 83% o oedolion ar-lein y DU yn y drefn honno. Roedd y pum sefydliad yr ymwelwyd â nhw fwyaf yr un fath ym mhob un o wledydd y DU (gweler Ffigur 7 isod).[20]

[19] 'Sefydliadau' yw rhiant-gwmnïau'r grwpiau o wefannau ac apiau; er enghraifft, mae sefydliadau Alphabet yn cynnwys Google Search, Gmail a YouTube; Mae Meta'n cynnwys Facebook a Messenger, Instagram a WhatsApp.

[20] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

Y BBC oedd y sefydliad mwyaf poblogaidd a oedd wedi'i leoli yn y DU, gan gyrraedd 83% o oedolion ar-lein yn y DU. Y BBC hefyd oedd y pumed sefydliad yr ymwelwyd ag ef fwyaf yng Nghymru (82%), Lloegr (83%), yr Alban (83%) a Gogledd Iwerddon (86%) ym mis Mai 2024. Roedd cyrhaeddiad y BBC ar ei uchaf ymysg pobl ar-lein 55-64 oed yn y DU (87%) ac roedd ei gyrhaeddiad ar ei isaf ymysg cynulleidfaoedd o oedolion 25-34 oed (76%).[21]

I gyd-fynd â'r cyhoeddiad am etholiad cyffredinol ar 22 Mai, [22]ar y cyd â'r glawiad mwyaf erioed rhwng y 21 a 23 Mai,[23] cynyddodd nifer yr oedolion a ymwelodd â safleoedd Llywodraeth y DU (sy'n cynnwys y Swyddfa Dywydd) o 59% ar gyfartaledd yn ystod y 12 mis blaenorol[24] i 62% ym mis Mai 2024. Er bod safleoedd Llywodraeth y DU yn ymwneud yn bennaf â safleoedd a gwasanaethau llywodraeth ganolog, ac nad ydynt yn cynnwys safleoedd y llywodraethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae'r grŵp hwn o safleoedd hefyd yn ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer holl wledydd y DU ar wahân i'r Alban.[25] Canfu Traciwr Technoleg Ofcom fod 67% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi mynd ar-lein i ddod o hyd i wybodaeth neu i wneud cais am fudd-daliadau/credydau treth/cymorth arall gan y llywodraeth neu elusennau. Dywedodd saith deg wyth y cant eu bod yn defnyddio safleoedd y cyngor lleol/y Llywodraeth.[26]

## Reddit yn ymddangos yn y deg sefydliad ar-lein mwyaf poblogaidd ar gyfer oedolion ifanc ar-lein am y tro cyntaf

Ymddangosodd Reddit yn y deg safle uchaf ar gyfer oedolion ifanc (18-24: 71%, 25-34: 63%) ond nid ar gyfer y rheini sy'n 35 oed a hŷn; mae ei gynulleidfa o oedolion iau wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Mai 2023 (18-24: 58%, 25-34: 49%). Ym mis Mai 2023, X (Twitter gynt) oedd y degfed sefydliad mwyaf poblogaidd ymhlith pobl ifanc 18-24 oed, gan gyrraedd 61% o'r gynulleidfa. Ym mis Mai 2024, roedd wedi syrthio i'r 12fed safle, gyda chyrhaeddiad o 56%.[27] I gael rhagor o wybodaeth, gweler Sectorau Ar-lein - Cyfryngau Cymdeithasol.

Bytedance, perchennog TikTok, oedd y sefydliad mwyaf poblogaidd ar gyfer pobl ifanc 18-34 oed nad oedd yn ymddangos yn y deg uchaf cyffredinol (cyrhaeddiad ymhlith oedolion ar-lein y DU: 51%, yn y 16eg safle), gan gyrraedd 75% o bobl 18-24 oed (6ed safle) a 64% o bobl 25-34 oed yn yr 8fed safle). Roedd hyn yn gynnydd o'r canrannau o 72% a 57% ym mis Mai 2023 ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed a 25-34 oed yn y drefn honno. Y bobl ifanc 18-24 oed oedd hefyd yr unig grŵp oedran i gynnwys

[21] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[22]BBC, Rishi Sunak announces UK General Election for Thursday 4 July, 22 Mai 2024.
[23]Y Swyddfa Dywydd, May 2024 Monthly Weather Report.
[24] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 - Ebrill 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[25] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, mis Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[26] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom. CE9.4. Dod o hyd i wybodaeth neu wneud cais am fudd-daliadau/credydau treth/cymorth arall gan y llywodraeth neu elusennau. CE9.16. Defnyddio safleoedd y cyngor lleol/Llywodraeth (e.e. i ddod o hyd i wybodaeth, i gyflawni prosesau fel gwneud cais am basbort). Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd gartref neu yn rhywle arall.
[27] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: defnyddwyr rhyngrwyd 18+ yn y DU.

Spotify[28] (69%) a Snap (69%) yn eu deg uchaf, a nhw oedd yr unig grŵp oedran i beidio â chynnwys y cyhoeddwr newyddion Reach (safle 13, 55%).[29]

Yr un oedd y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw fwyaf i ddynion a menywod. Roedd eBay hefyd wedi'i gynnwys yn y deg uchaf ar gyfer dynion a menywod (dynion: 63%, yn yr 8fed safle, menywod: 64%, yn y 9fed safle) a Llywodraeth y DU (dynion 62%, yn y 9fed safle; menywod: 63%, yn y 10fed safle). Fodd bynnag, roedd dwy nodwedd unigryw yn y deg uchaf ar gyfer pob rhywedd. Ymysg dynion, Sky, sy'n cynnwys safleoedd ac apiau Sky News, Sky Sports, Sky Go a Now TV, oedd yn y seithfed safle o ran y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw fwyaf (67%) ac roedd News UK, sy'n cynnwys safleoedd ac apiau fel The Sun, The Times a Sunday Times, a talkSPORT, yn y degfed safle (60%). Ymysg menywod, y gwasanaeth talu ar-lein PayPal oedd y seithfed safle yr ymwelwyd ag ef fwyaf (67%), ac Apple, sy'n cynnwys apiau sy'n cwmpasu ystod eang o sectorau a swyddogaethau fel newyddion, tywydd, cerddoriaeth, podlediadau, ffrydio a rheolyddion cartref clyfar, oedd yr wythfed sefydliad yr ymwelwyd ag ef fwyaf (65%).[30]

---

[28] Defnydd o Spotify ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron yn unig.

[29] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: defnyddwyr rhyngrwyd 18+ yn y DU.

[30] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: defnyddwyr rhyngrwyd 18+ yn y DU.

**Ffigur 7: Y deg prif sefydliad yr ymwelodd oedolion ar-lein yn y DU â nhw ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, yn ôl gwlad: Mai 2024**

| | Y DU | | Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** |
| **1** | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 100% |
| **2** | Meta | 96% | Meta | 96% | Meta | 97% | Meta | 99% | Meta | 99% |
| **3** | Amazon, Inc | 90% | Amazon, Inc | 90% | Amazon, Inc | 90% | Amazon, Inc | 92% | Amazon, Inc | 94% |
| **4** | Microsoft Corporation | 87% | Microsoft Corporation | 87% | Microsoft Corporation | 86% | Microsoft Corporation | 87% | Microsoft Corporation | 89% |
| **5** | Corfforaeth y BBC | 83% | Corfforaeth y BBC | 83% | Corfforaeth y BBC | 83% | Corfforaeth y BBC | 82% | Corfforaeth y BBC | 86% |
| **6** | Reach Plc | 71% | Reach Plc | 71% | Reach Plc | 70% | Reach Plc | 81% | Reach Plc | 78% |
| **7** | eBay Inc | 64% | eBay Inc | 64% | Apple Inc | 63% | Llywodraeth y DU | 67% | Llywodraeth y DU | 68% |
| **8** | Apple Inc | 63% | Apple Inc | 64% | Gwefannau News UK | 61% | eBay Inc | 66% | eBay Inc | 65% |
| **9** | Llywodraeth y DU | 62% | Llywodraeth y DU | 63% | eBay Inc | 61% | Sky | 64% | Gwefannau News UK | 64% |
| **10** | PayPal Inc | 61% | PayPal Inc | 62% | PayPal Inc | 61% | Gwefannau News UK | 63% | Mail Metro Media | 64% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, Adroddiad safleoedd, oedran: defnyddwyr y rhyngrwyd 18 oed a hŷn, y DU, ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Sylwer: Mae pob sefydliad wedi cael lliw penodol. Nid yw safleoedd 'Llywodraeth y DU' yn cynnwys safleoedd y llywodraethau datganoledig.*

**Ffigur 8: Y deg prif sefydliad sy'n cael eu defnyddio ar-lein gan unigolion yn y DU ar eu ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, yn ôl grŵp oedran: Mai 2024**

| | 18-24 | | 25-34 | | 35-44 | | 45-54 | | 55-64 | | 65+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** |
| **1** | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% |
| **2** | Meta | 95% | Meta | 95% | Meta | 96% | Meta | 97% | Meta | 97% | Meta | 96% |
| **3** | Microsoft Corporation | 92% | Amazon, Inc | 90% | Amazon, Inc | 91% | Amazon, Inc | 92% | Amazon, Inc | 91% | Amazon, Inc | 89% |
| **4** | Amazon, Inc | 87% | Microsoft Corporation | 89% | Microsoft Corporation | 88% | Microsoft Corporation | 87% | Corfforaeth y BBC | 87% | Corfforaeth y BBC | 86% |
| **5** | Corfforaeth y BBC | 80% | Corfforaeth y BBC | 76% | Corfforaeth y BBC | 82% | Corfforaeth y BBC | 85% | Microsoft Corporation | 86% | Microsoft Corporation | 80% |
| **6** | Bytedance Inc | 75% | Llywodraeth y DU | 68% | Reach Plc | 73% | Reach Plc | 76% | Reach Plc | 77% | Reach Plc | 75% |
| **7** | Reddit Inc | 71% | Reach Plc | 67% | eBay Inc | 67% | eBay Inc | 71% | eBay Inc | 68% | Mail Metro Media | 63% |
| **8** | Spotify Music | 69% | Bytedance Inc | 64% | Llywodraeth y DU | 66% | PayPal Inc | 68% | Gwefannau News UK | 66% | Gwefannau News UK | 61% |
| **9** | Snap Inc | 69% | Apple Inc | 64% | PayPal Inc | 65% | Sky | 67% | Mail Metro Media | 66% | Gwefannau'r GIG | 60% |
| **10** | Apple Inc | 69% | Reddit Inc | 63% | Apple Inc | 65% | Mail Metro Media | 66% | Llywodraeth y DU | 64% | eBay Inc | 60% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad Safleoedd a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Mae pob sefydliad wedi cael lliw penodol.*

## YouTube yw’r gwasanaeth mwyaf poblogaidd sy’n eiddo i Alphabet, gyda Google Search, Google Maps a Gmail hefyd yn cyrraedd y rhan fwyaf o oedolion ar-lein yn y DU

YouTube, sy’n cynnwys YouTube, YouTube Music, YouTube Kids a YouTube Studio, oedd y gwasanaeth mwyaf poblogaidd (94%, 44.5m) sy’n eiddo i Alphabet ymysg oedolion ar-lein yn y DU ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron. Mae hyn yn gynnydd yn ei gyrhaeddiad o’r ganran o 91% ym mis Mai 2023. Roedd gwefan youtube.com yn parhau i fod ar y blaen i ap YouTube, gan gyrraedd 77% o oedolion o’i gymharu â 69%. Roedd oedolion a oedd yn ymweld â YouTube yn treulio 47 munud ar gyfartaledd yr y gwasanaeth bob dydd ar ffonau clyfar, tabledi neu gyfrifiaduron, yn y cartref neu’r tu allan i’r cartref ym mis Mai 2024. Mae menywod ychydig yn fwy tebygol o ymweld â YouTube (menywod: 95%, dynion: 93%); fodd bynnag, mae ymwelwyr gwrywaidd yn treulio mwy o amser ar y safle bob dydd ar gyfartaledd (dynion: 54 munud, menywod: 40 munud).[31] Er bod Ipsos iris yn mesur gweithgarwch ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron, mae Barb yn mesur fideos YouTube sy’n cael eu gwylio gartref, gan gynnwys ar y set deledu, ond dim ond gwylio ar ddyfeisiau eraill wrth ddefnyddio rhwydwaith WiFi y cartref y mae’n ei fesur. Ym mis Mai 2024 dangosodd data Barb fod dros draean (39%) o’r gwylio ar YouTube yn y cartref dros fand eang yn digwydd ar setiau teledu.[32]

Google Search yw’r ail wasanaeth Alphabet mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 83% o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024. Yn y safle nesaf roedd Google Maps, a gododd o gyrraedd 69% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2023 i 73% yn 2024, yn bennaf drwy’r ap symudol, a gyrhaeddodd 71% o oedolion ar-lein y DU, a chyrhaeddodd y wefan 11%. Mewn cymhariaeth, ymwelwyd â Apple Maps, yr ail wasanaeth canfod y ffordd mwyaf poblogaidd, gan 19% (8.9m) o gyfanswm oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024, gostyngiad o 6pc (25%, 12.1m) ers mis Mai 2023. Gmail oedd y pedwerydd gwasanaeth mwyaf poblogaidd a oedd yn eiddo i Alphabet (55%) ac roedd yn parhau i fod y gwasanaeth e-bost ar-lein mwyaf poblogaidd yn gyffredinol, o flaen Microsoft Outlook (50%).[33]

[31] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[32] Barb fel y'i gwelwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill gan ddefnyddio rhwydwaith WiFi y cartref. Nid yw’n cynnwys yr amser a dreulir yn cael mynediad drwy gysylltiad rhyngrwyd rhwydwaith symudol, Mai 2024, oedran: 18+, y DU.
[33] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU, mae Microsoft Outlook yn cynnwys ap Outlook, ap Outlook Lite a gwefan outlook.live.com.

**Ffigur 9: Y deg uchaf, yn ôl cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU, o wasanaethau sy'n eiddo i Alphabet: Mai 2023 a Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Dadansoddiad Alphabet, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: rhestr sydd wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom, nid yw ap gwasanaethau Google Play wedi cael ei gynnwys gan fod hwn yn wasanaeth cefndirol a llyfrgell i'w defnyddio gan apiau symudol sy'n rhedeg ar y ddyfais. Nid yw Google Search yn cynnwys gwasanaethau Maps, Shopping, Play na News.*

## Roedd saith-deg y cant o oedolion ar-lein yn y DU wedi ymweld â phob un o'r tri llwyfan mwyaf poblogaidd sy'n eiddo i Meta – Facebook, WhatsApp ac Instagram

Mae gwasanaethau sy'n eiddo i Meta'n cynnwys tri phrif frand: Facebook (gan gynnwys Facebook Messenger), WhatsApp ac Instagram. Facebook / Messenger sydd ar flaen y gad o ran gwasanaethau Meta, gyda naw deg un y cant o oedolion ar-lein y DU yn ymweld â'r naill wasanaeth neu'r llall ym mis Mai 2024, sy'n cyd-fynd â'r flwyddyn flaenorol (Mai 2023: 92%). WhatsApp oedd y gwasanaeth nesaf mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 87% o oedolion ar-lein y DU, cynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol (85%). Instagram oedd â'r cynnydd mwyaf yn ei gyrhaeddiad, i fyny o 73% ym mis Mai 2023 i 76% ym mis Mai 2024. Roedd saith-deg y cant o oedolion ar-lein yn y DU (33.0m) wedi ymweld â phob un o'r tri llwyfan mwyaf poblogaidd sy'n eiddo i Meta – Facebook, WhatsApp ac Instagram. Roedd hyn yn fwyaf tebygol ymysg oedolion ifanc, gydag 81% (4.0m) o bobl ifanc 18-24 oed yn ymweld â'r tri, fel y gwnaeth 55% (4.7m) o oedolion ar-lein 65 oed a hŷn.[34]

Ym mis Gorffennaf 2023, lansiodd Meta wasanaeth Threads, sy'n gystadleuydd i X, fel is-frand Instagram, ac roedd angen cyfrif Instagram ar ddefnyddwyr i gofrestru. Ym mis Gorffennaf 2024, roedd Threads wedi cyrraedd 11% (4.3m) o oedolion ar-lein y DU.[35] Un o'r gwasanaethau eraill sy'n eiddo i Meta yw Workplace, a gyrhaeddodd 1% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024.[36]

---

[34] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[35]Adroddwyd ar ddata mis Mai 2024 gan mai dim ond data iOS rhannol a gasglwyd ar gyfer Threads.
[36] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

Er bod cyrhaeddiad gwasanaethau Meta'n uchel i bob defnyddiwr ar-lein, mae menywod (98%) yn fwy tebygol na dynion (94%) o fod yn ymwelwyr, ac ar gyfartaledd mae menywod yn treulio 45% yn hirach na dynion ar wasanaethau sy'n eiddo i Meta (menywod: 1 awr 15 munud, dynion: 52 munud) y dydd. Ac, ymwelodd 95% o fenywod â Facebook / Messenger ym mis Mai 2024, o'i gymharu â 87% o ddynion. Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y rhywiau i'w weld ar Instagram, gyda 82% o fenywod ar-lein yn ymweld ym mis Mai 2024 (Mai 2023: 79%) o'i gymharu â 70% o ddynion ar-lein. Fodd bynnag, bu cynnydd o 4 pwynt canran mewn cyrhaeddiad dynion ers mis Mai 2023, y cynnydd mwyaf mewn cyrhaeddiad i'r naill ryw neu'r llall ar gyfer unrhyw wasanaeth Meta (ac eithrio Threads).[37]

**Ffigur 10: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ar gyfer y tri gwasanaeth uchaf sy'n eiddo i Meta: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Dyblygu cynulleidfaoedd, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.*

## Mae bron i hanner yr amser mae oedolion y DU yn ei dreulio ar-lein yn digwydd ar safleoedd sy'n eiddo i Alphabet neu Meta

Alphabet a Meta oedd y ddau brif sefydliad o hyd o ran yr amser a dreuliwyd – gyda'i gilydd, roeddent yn cyfrif am bron i hanner (48%, 2 awr a 4 munud) yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar-lein gan oedolion yn y DU ym mis Mai 2024. Roedd 17 o sefydliadau eraill yn gyfrifol am y 25% nesaf o'r amser a dreulir ar-lein bob dydd; roedd deg o'r 25 pwynt canran yn sefydliadau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys perchennog TikTok Bytedance, Snap ac X.[38]

Roedd oedolion ar-lein yn y DU yn treulio 1 awr 3 munud bob dydd ar gyfartaledd (24.3% o gyfanswm eu hamser ar-lein) gyda safleoedd ac apiau sy'n eiddo i Alphabet. Dim ond mymryn ar ei hôl hi oedd gwasanaethau Meta, gydag oedolion yn treulio 1 awr 1 munud y dydd ar gyfartaledd

[37] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[38] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

(23.6% o gyfanswm yr amser ar-lein) ar y gwasanaethau hyn. O'r munudau dyddiol cyfartalog (1 awr 3 munud) sy'n cael eu treulio ar wasanaethau Alphabet ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron, mae 44 munud yn cael ei dreulio ar apiau a safleoedd YouTube (sylwer nad yw hyn yn cynnwys yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio YouTube ar setiau teledu sydd, yn ôl data Barb, yn cyfrif am 38% o'r gwylio yn y cartref dros WiFi).[39] O'r amser a dreuliwyd ar wasanaethau sy'n eiddo i Meta, treulir 36 munud ar Facebook / Messenger, ac mae 13 munud yn cael eu treulio ar WhatsApp ac ar Instagram. Bytedance yw'r sefydliad sydd â'r trydydd amser hiraf yn cael ei dreulio ar eu gwasanaethau, gryn dipyn ar ei hôl hi, gyda 13 munud ar gyfartaledd yn cael ei dreulio ar TikTok bob dydd ymhlith yr holl oedolion ar-lein.[40]

Wrth edrych ar yr amser a dreulir yn ôl rhyw, daw darlun cyferbyniol i'r amlwg. Treuliodd dynion ar-lein 1 awr 9 munud (28%) ar gyfartaledd ar wasanaethau sy'n eiddo i Alphabet a 49 munud (20%) ar wasanaethau sy'n eiddo i Meta, tra bod menywod ar-lein wedi gwrthdroi'r patrwm hwn, gan dreulio 1 awr 13 munud (27%) ar gyfartaledd ar wasanaethau Meta a 57 munud (21%) ar wasanaethau Alphabet. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, roedd dynion a menywod yn treulio 48% o'u diwrnod ar-lein ar gyfuniad o'r gwasanaethau hyn.[41]

Roedd dros hanner yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar-lein bob dydd yn digwydd ar amrywiaeth eang o wasanaethau llai. Ar gyfartaledd, treuliodd oedolion ar-lein y DU fwy na munud ar wasanaethau siopa Vinted (1 munud 18 eiliad), a Temu sy'n rhannol yn eiddo i WhaleCo (1 munud 10 eiliad), gyda menywod yn gyrru'r ffigurau hyn (Vinted: 2 munud 12 eiliad, WhaleCo: 1 munud 34 eiliad). Roedd amser hir ar gyfartaledd yn cael ei dreulio bob dydd ar ddarparwyr gwasanaethau chwarae gemau fel Scopely (1 munud 24 eiliad), Playrix (1 munud 12 eiliad), Activision Blizzard (1 munud 12 eiliad) a Roblox (51 eiliad).[42]

---

[39] Mae data Barb, fel y'i gwelir, yn cofnodi'r defnydd o fideos YouTube ar setiau teledu a dyfeisiau eraill drwy rwydwaith WiFi y cartref; nid yw unrhyw wylio y tu allan i'r cartref neu wylio drwy rwydweithiau symudol wedi'i gynnwys. Oedolion 18+, Ionawr-Mehefin 2024

[40] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

[41] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (ORG) Alphabet, (ORG) Meta, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.

[42] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 11: Cyfran o'r amser y mae poblogaeth oedolion y DU yn ei dreulio ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, yn ôl sefydliad (oriau:munudau): Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, sefydliadau, amser ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron yn unig, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Mae arall yn cynnwys sefydliadau sydd ag amser o lai na 2 funud ar gyfartaledd. Nid yw chwarae sain pan fydd ap Spotify wedi cau yn cael ei fesur; dim ond pan fydd yr ap yn y blaen yn cael ei ddefnyddio y bydd yn cael ei fesur.*

# Defnydd o wasanaethau rhyngrwyd – y prif apiau

## Roedd cynnydd ym mis Mai 2024 yn nifer cyfartalog yr apiau ffonau clyfar yr ymwelwyd â nhw gan bobl 25 oed a hŷn, a bu rhywfaint o ostyngiad yn y nifer ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed

Ar gyfartaledd, ym mis Mai 2024, roedd oedolion ar-lein y DU yn defnyddio 38 o apiau ar eu ffonau clyfar, i fyny o 36 ym mis Mai 2023. Gwelwyd cynnydd yn nifer cyfartalog yr apiau roedd oedolion o bob grŵp oedran yn eu defnyddio ar eu ffonau clyfar rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024 ac eithrio pobl ifanc 18-24 oed, a oedd yn defnyddio un ap yn llai na'r flwyddyn flaenorol (gweler Ffigur 12), a phobl ifanc 18-24 oed yn defnyddio'r nifer lleiaf o apiau o unrhyw grŵp oedran ac eithrio'r rheini sy'n 55 oed a hŷn – sy'n syndod efallai, gan mai'r grŵp oedran 18-24 sy'n treulio'r amser hiraf yn defnyddio ffonau clyfar.[43]

Ar gyfartaledd, roedd menywod ar-lein yn y DU yn defnyddio dau ap yn fwy na dynion (39 o'i gymharu â 37). Ar gyfartaledd, roedd oedolion sy'n defnyddio ffonau clyfar android ac iPhone yn defnyddio'r un nifer o apiau (38). Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth wrth gymharu grwpiau oedran; roedd defnyddwyr iPhone 18-24 oed yn defnyddio 6 ap yn fwy ar gyfartaledd (40) na phobl ifanc 18-

[43] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.

24 oed sy'n defnyddio ffonau Android (34). Roedd oedolion hŷn a oedd yn defnyddio Android yn defnyddio ychydig yn fwy o apiau na'u cymheiriaid ar yr iPhone.[44]

**Ffigur 12: Nifer cyfartalog yr apiau y mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU yn eu defnyddio ar ffonau clyfar, yn ôl system weithredu a demograffig: Mai bob blwyddyn 2022-2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.*

## Google Maps yn ymuno â WhatsApp a Facebook gan Meta ymhlith y tri ap ffonau clyfar mwyaf poblogaidd ymysg oedolion yn y DU

Ym mis Mai 2024, cynyddodd y defnydd o ap WhatsApp i 91% o oedolion ar-lein y DU sy'n defnyddio ffonau clyfar, i fyny o 89% ym mis Mai 2023. Cyrhaeddodd ap Facebook 82%, lefel sefydlog ers yr un cyfnod yn 2023 (81%).[45]

Cipiodd Google Maps y trydydd safle o blith apiau ffonau clyfar, gyda 73% o oedolion yn ymweld â'r safle, i fyny o 70% y flwyddyn flaenorol gan ei wneud yn fwy poblogaidd na'r ap oedd yn arfer bod yn y trydydd safle - Facebook Messenger (sydd bellach yn 6ed, ac yn cyrraedd 65% o ddefnyddwyr ffonau clyfar sy'n oedolion yn y DU ym mis Mai 2024, i lawr o 72% ym mis Mai 2023). Apple Maps oedd yr ap canfod y ffordd mwyaf poblogaidd ar ffonau clyfar (18%, 8.0m). Cyrhaeddodd apiau canfod y ffordd eraill fel Waze (10%), Citymapper (5%) a What3words (5%) 10% neu lai o oedolion ar-lein y DU sy'n defnyddio ffonau clyfar ym mis Mai 2024.[46]

Arhosodd TikTok yn y deg uchaf ar gyfer pobl ifanc 18-34 oed, ond ni symudodd i fyny o'i safle fel y degfed ap mwyaf poblogaidd ar ffonau clyfar, er bod ei gyrhaeddiad wedi cynyddu o 54% i 60% o un

[44] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.
[45] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (AP), WhatsApp Messenger, (AP) Facebook, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[46] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

flwyddyn i'r llall. Hefyd, fe wnaeth apiau fel Gmail (64%; +4pc o un flwyddyn i'r llall) ac Amazon (62%; +2pc o un flwyddyn i'r llall) gynyddu eu cyrhaeddiad. Neidiodd Instagram uwchben YouTube (80.6%) a Facebook (81.2%) i fod yr ail ap mwyaf poblogaidd ar ffonau clyfar ymysg pobl ifanc 18-34 oed, gyda chyrhaeddiad yn codi o 78.5% ym mis Mai 2023 i 81.2% ym mis Mai 2024.[47]

Er bod naw o'r deg ap mwyaf poblogaidd ar ffonau clyfar ar gyfer dynion a menywod yr un fath, roedd TikTok, sef y 10fed ap mwyaf poblogaidd ar gyfer menywod (46%), yn yr 16eg safle ar gyfer dynion (33%) ym mis Mai 2024.[48]

[47] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[48] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran, 18 oed a hŷn, y DU.

**Ffigur 13: Y deg prif ap ffonau clyfar, cyrhaeddiad oedolion yn y DU, yn ôl oedran a rhyw: Mai 2024**

| | Oedran | | | | | | | | Rhyw | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18+ | | 18-34 | | 35-54 | | 55+ | | Dynion dros 18 oed | | Menywod dros 18 oed | |
| Safle | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) |
| 1 | WhatsApp | 91% | WhatsApp | 92% | WhatsApp | 90% | WhatsApp | 91% | WhatsApp | 88% | WhatsApp | 94% |
| 2 | Facebook | 82% | Instagram | 81% | Facebook | 85% | Facebook | 80% | Facebook | 77% | Facebook | 88% |
| 3 | Google Maps | 73% | Facebook | 81% | Google Maps | 74% | Google Maps | 70% | Google Maps | 73% | Instagram | 74% |
| 4 | YouTube | 69% | YouTube | 81% | YouTube | 72% | Facebook Messenger | 63% | YouTube | 72% | Google Maps | 73% |
| 5 | Instagram | 68% | Google Maps | 76% | Instagram | 71% | YouTube | 57% | Instagram | 60% | Facebook Messenger | 73% |
| 6 | Facebook Messenger | 65% | Gmail | 64% | Facebook Messenger | 69% | Amazon | 53% | Gmail | 58% | YouTube | 67% |
| 7 | Amazon | 61% | Facebook Messenger | 64% | Amazon | 67% | Instagram | 52% | Amazon | 58% | Amazon | 63% |
| 8 | Gmail | 56% | Spotify | 64% | Gmail | 55% | Gmail | 51% | Facebook Messenger | 57% | Gmail | 54% |
| 9 | Apple Music | 47% | Amazon | 62% | eBay | 51% | Google Play Store | 46% | Google Play Store | 47% | Apple Music | 50% |
| 10 | Spotify | 44% | TikTok | 60% | Apple Music | 48% | Apple Music | 44% | Apple Music | 44% | TikTok | 46% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap ffôn symudol, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Mae pob sefydliad wedi cael lliw penodol.*

## Mae oedolion iau a grwpiau economaidd-gymdeithasol mwy cyfoethog yn fwy tebygol o ddefnyddio ffonau clyfar Apple

Yn 2024, dywedodd 52% o ddefnyddwyr ffonau clyfar y DU sy'n 16 oed a hŷn eu bod yn defnyddio iPhone Apple fel eu prif ffôn clyfar tra bod 47% yn defnyddio ffôn clyfar Android, gan gyd-fynd yn fras â 2023 (Apple: 51%, Android: 46%). Y rheini rhwng 16 a 24 oed sydd fwyaf tebygol o hyd o ddefnyddio iPhone (69%) o'i gymharu ag Android (31%), a'r rheini sy'n 65 oed a hŷn yw'r lleiaf tebygol o fod ag iPhone fel eu prif ffôn clyfar (42%) ac sydd fwyaf tebygol o fod â ffôn Android (55%). Mae perchnogaeth iPhone Apple yn gwyro tuag at fenywod, sef 55% o'i gymharu â dynion (48%), ac mae hyn wedi'i wrthdroi o ran ffonau clyfar Android (dynion 51%, menywod 44%). Mae defnyddwyr ffonau clyfar yn Lloegr (52%) a'r Alban (50%) yn fwy tebygol o ddefnyddio Apple na ffonau clyfar Android (Lloegr: 47%, Yr Alban: 48%), ac yng Nghymru (51%) a Gogledd Iwerddon (51%), mae defnyddwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio Android nag Apple (Cymru: 46%, Gogledd Iwerddon: 45%).[49]

Mae cydberthynas hefyd rhwng perchnogaeth ffôn clyfar a grŵp economaidd-gymdeithasol, gydag iPhones Apple yn fwy tebygol o fod yn eiddo i'r rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol AB (58%) ac yn llai tebygol ymysg y rheini yn y grŵp DE economaidd-gymdeithasol is (41%). Mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer ffonau Android, gyda grŵp DE (57%) yn fwy tebygol a grŵp AB (41%) yn llai tebygol. Gall hyn fod oherwydd pwynt prisiau cyfartalog uwch ffonau Apple o'i gymharu â'r ystod ehangach o brisiau sydd ar gael ar gyfer ffonau Android. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o berthyn i'r grŵp economaidd-gymdeithasol is DE ac felly gallai oedran fod yn ffactor ddylanwadol yma hefyd.[50]

---

[49] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom. CM9. Gan feddwl am eich prif ffôn symudol, a yw'n defnyddio system weithredu Apple ynteu Android? Sail: Lle mae ganddynt ffôn clyfar. Dywedodd 1% 'dim un o'r rhain' ac 1% 'ddim yn gwybod'.

[50] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom. CM9. Gan feddwl am eich prif ffôn symudol, a yw'n defnyddio system weithredu Apple ynteu Android? Efallai na fydd yr ymatebion yn rhoi cyfanswm o 100% oherwydd y gallai ymatebwyr fod wedi nodi 'dim un o'r rhain' neu 'ddim yn gwybod'.

**Ffigur 14: Defnyddwyr ffonau clyfar yn y DU sy'n 16 oed a hŷn, cyfran o system weithredu Apple o'i gymharu ag Android: 2024**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2024. CM9. Gan feddwl am eich prif ffôn symudol, a yw'n defnyddio system weithredu Apple neu Android? Sail: Lle mae ganddynt ffôn clyfar. nid yw ymatebion 'dim un o'r rhain' neu 'ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys ar y siart.*

## Apiau sy'n eiddo i Alphabet sy'n cyfrif am chwech o'r deg prif ap ar ffonau clyfar Android, a dim ond dau sydd yn y deg uchaf ar gyfer Apple

Mae chwech o'r deg ap a ddefnyddir amlaf ar ffonau clyfar Android ym mis Mai 2024 yn eiddo i Alphabet, perchennog system weithredu Android (gan gyd-fynd â mis Mai 2023). Ar iPhones Apple mae dau o'r deg ap uchaf yn perthyn i Alphabet: Google Maps ar 66% (o'i gymharu ag 81% ar ffonau Android) a YouTube ar 62% (o'i gymharu â 77% ar ffonau Android). Er mai dyma'r ap cynhenid ar iPhones, mae Apple Maps yn dal i fod gryn dipyn y tu ôl i Google Maps ar iPhones, gyda 33% o ddefnyddwyr iPhone yn eu defnyddio. Mae Apple Music (85%), yr ap cerddoriaeth cynhenid ar ddyfeisiau Apple, yn cael ei ddefnyddio gan fwy o ddefnyddwyr iPhone na Spotify (50%), ac mae apiau cerddoriaeth yn gyffredinol yn llawer is ymysg defnyddwyr Android, gyda Spotify'n cael ei ddefnyddio gan 35% ac Apple Music gan ddim ond 1%. Mae Instagram yn cael ei ddefnyddio gan 80% o ddefnyddwyr iPhone (4ydd safle) ond nid yw'n ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer defnyddwyr Android, gan gyrraedd 52% ac eistedd yn y 12fed safle.[51]

[51] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 15: Y deg prif ap ffonau clyfar, ffonau Android o'u cymharu ag iPhones, yn seiliedig ar gyrhaeddiad fel % o gyfanswm yr holl apiau ffonau clyfar: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap yn unig Android o'i gymharu ag iOS, ffôn clyfar yn unig, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Nid yw Apple App Store yn cael ei fesur gan Ipsos iris, nid yw ap gwasanaethau Google Play wedi'i gynnwys gan fod hwn yn wasanaeth cefndirol a llyfrgell i'w ddefnyddio gan apiau symudol sy'n rhedeg ar y ddyfais.*

## Meta sy'n berchen ar bedwar o'r pum prif ap ffonau clyfar sydd â'r cyrhaeddiad dyddiol uchaf

Apiau ffonau clyfar Meta oedd pedwar o'r pum ap gyda'r cyrhaeddiad dyddiol uchaf ymysg oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024 (gweler Ffigur 16). Yr unig ap nad oedd yn un Meta oedd Gmail, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 32% o oedolion ar-lein bob dydd ym mis Mai 2024 ar gyfartaledd, o'i gymharu â 28% yn ystod yr un cyfnod yn 2023, gan symud o flaen Facebook Messenger (Mai 2023: 39%, Mai 2024: 31%). Er mai WhatsApp oedd yr ap ffôn clyfar gyda'r cyrhaeddiad dyddiol uchaf ymysg pobl ifanc 18-24 oed ar-lein (3.1m, 63%), yr ail ap mwyaf poblogaidd oedd Instagram, gan gyrraedd 60% (3.0 miliwn) ac yna Snapchat (2.6m, 53%) ym mis Mai 2024. Roedd y pum prif ap ffonau clyfar yn debyg ymysg dynion a menywod; fodd bynnag, fe wnaeth YouTube (dynion: 32% ac yn y 5ed safle, menywod: 26% ac yn y 7fed safle) ddisodli Facebook Messenger (dynion: 25% ac yn y 7fed safle, menywod: 36% ac yn y 4ydd safle) yn nhrefn yr apiau yr ymwelwyd â nhw ar ddiwrnod arferol.[52]

[52] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 16: Pum ap ffonau clyfar mwyaf poblogaidd ymhlith oedolion ar-lein y DU, yn seiliedig ar gyrhaeddiad dyddiol cyfartalog: Mai 2024**

| Safle | Ap ar ffôn clyfar | Rhiant-gwmni | Cyrhaeddiad dyddiol cyfartalog ymhlith oedolion ar-lein y DU | | Cynulleidfa ddyddiol o oedolion ar-lein | | Gwahaniaeth o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mai 2023 | Mai 2024 | Mai 2023 | Mai 2024 | |
| **1** | **WhatsApp** | Meta | 61% | 67% | 27.3m | 30.2m | +2.9m |
| **2** | **Facebook** | Meta | 50% | 57% | 22.5m | 25.7m | +3.2m |
| **3** | **Instagram** | Meta | 34% | 40% | 15.4m | 18.1m | +2.8m |
| **4** | **Gmail** | Alphabet | 28% | 32% | 12.6m | 14.4m | +1.9m |
| **5** | **Facebook Messenger** | Meta | 39% | 31% | 17.7m | 13.8m | -3.9m |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, prif apiau ar ffonau clyfar yn ôl cyrhaeddiad ar ddiwrnod arferol, Mai 2023/Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Oherwydd talgrynnu, gallai ymddangos fod y gwahaniaeth 0.1 miliwn i ffwrdd. Mae'r blychau gwyrdd yn nodi cynnydd o un flwyddyn i'r llall, tra bo'r blychau coch yn nodi gostyngiad.*

# 4. Sectorau ar-lein

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn edrych y ffordd mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn defnyddio gwasanaethau ar-lein mewn sectorau penodol: peiriannau chwilio, deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon a galwadau, cwrdd â chariad, gwasanaethau cynnwys pornograffig, newyddion, gemau, iechyd a llesiant, gwasanaethau manwerthu a storio yn y cwmwl.

### Metrigau allweddol

**Ffigur 17: Gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd yn ôl sector ymysg oedolion ar-lein y DU, ym mis Mai bob blwyddyn: 2022- 2024**

| | Sector | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|
| | Chwilio | Google Search **86%** | Google Search **86%** | Google Search **83%** |
| | Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol | **Amh** | * | ChatGPT **9%** |
| | Cyfryngau cymdeithasol | Facebook / Messenger **94%** | Facebook / Messenger **92%** | YouTube **94%** |
| | Negeseuon a ffonio | WhatsApp **84%** | WhatsApp **85%** | WhatsApp **87%** |
| | Cwrdd â chariad | Tinder **5%** | Tinder **5%** | Tinder **4%** |
| | Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig | PornHub **17%** | PornHub **18%** | PornHub **18%** |
| | Newyddion | BBC **75%** | BBC **70%** | BBC **75%** |
| | Iechyd a llesiant | Y GIG **60%** | Y GIG **51%** | Y GIG **56%** |
| | Apiau chwarae gemau | Candy Crush Saga **4%** | Candy Crush Saga **5%** | Candy Crush Saga **5%** |
| | Manwerthu | Amazon **88%** | Amazon **87%** | Amazon **88%** |
| | Storio yn y cwmwl **(16 oed a hŷn)** | * | * | Google Drive (Mehefin) **39%** |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Nid yw'r BBC yn cynnwys cyrhaeddiad drwy Apple News. Sylwer: * nid oes data mae modd ei gymharu. Amh. – Lansiodd ChatGPT ym mis Tachwedd 2022 felly nid oes data ar gyfer mis Mai 2022. / Storio yn y cwmwl: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 1: Pa un o'r datganiadau canlynol, os o gwbl,*

*sy'n disgrifio ORAU pryd y gwnaethoch chi ddefnyddio pob un o'r gwasanaethau storio yn y cwmwl a restrir ddiwethaf? Y rhai a ddewisodd yn y mis diwethaf. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2100).*

# Chwilio

Mae'r adran hon yn edrych ar wasanaethau chwilio, yn benodol gwasanaethau chwilio cyffredinol – a ddiffinnir fel gwasanaethau sy'n anelu at fynegeio'r rhyngrwyd agored yn ei chyfanrwydd. Mae dau brif fath o wasanaeth chwilio:

- Gwasanaethau chwilio cyffredinol, sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio drwy fewnbynnu ymholiadau chwilio a dychwelyd canlyniadau. Mae'r gwasanaethau hyn yn dibynnu ar eu dull mynegeio eu hunain yn unig, ac maent yn gweithio drwy ddefnyddio prosesau awtomatig a luniwyd i ganfod a threfnu cynnwys (a elwir yn ymlusgo a mynegeio). Yna defnyddir algorithmau i roi'r cynnwys mewn trefn ar sail perthnasedd i'r ymholiad chwilio a ffactorau eraill (safleoedd). Mae gwasanaethau chwilio cyffredinol 'sy'n is i lawr' hefyd yn rhoi mynediad at gynnwys o bob rhan o'r we, ond maent yn cael eu canlyniadau chwilio o wasanaethau chwilio cyffredinol.[53]
- Gwasanaethau chwilio fertigol, sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio am bynciau penodol, neu nwyddau neu wasanaethau a gynigir gan ddarparwyr trydydd parti; er enghraifft, peiriant chwilio sydd ond yn mynegeio erthyglau academaidd o wefannau neu gronfeydd data penodol.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau chwilio yn rhad ac am ddim. Ym mhob achos bron, mae gwasanaethau chwilio yn gwneud eu holl refeniw o hysbysebion, a hynny drwy chwiliad â thâl. Mae hysbysebwyr yn talu i'w hysbysebion fod yn fwy amlwg yng nghanlyniadau chwilio sy'n cynnwys allweddeiriau neu ymadroddion perthnasol. Fel arfer, gwneir hyn drwy hysbysebion talu fesul clic, lle mae hysbysebwyr yn talu pan fydd defnyddiwr yn clicio ar un o'u hysbysebion. Mae'r prisiau ar gyfer termau chwilio allweddol fel arfer yn cael eu pennu gan eu perthnasedd i'r termau a'r ymholiadau sy'n cael eu chwilio, ac arwerthiant ymysg hysbysebwyr ar gyfer yr allweddeiriau perthnasol. Yn ôl IAB UK, cynyddodd refeniw hysbysebu chwilio â thâl 12% i £14.7bn yn 2023 yn y DU, ac mae wedi mwy na dyblu ei faint yn ystod y pum mlynedd diwethaf (2018: £6.8 bn). [54]

## Fe wnaeth naw i bob deg oedolyn ar-lein y DU ymweld ag o leiaf un o'r deg peiriant chwilio mwyaf poblogaidd ym mis Mai 2024

Google[55] yw'r peiriant chwilio mwyaf poblogaidd o hyd, gan gyrraedd 83% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024, sef gostyngiad o 3 pwynt canran o un flwyddyn i'r llall (Mai 2023: 86%). Ymwelodd bron i hanner (49%) o oedolion ar-lein y DU â Google Search yn ddyddiol ym mis Mai 2024. Gyda cyrhaeddiad o 39%, Bing (sy'n eiddo i Microsoft) oedd yr unig beiriant chwilio arall a gyrhaeddodd

[53] I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ddogfen ymgynghori Ofcom ar niwed anghyfreithlon: Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein: cyfrol 1.
[54] Mae'r ffigur yn cynnwys refeniw o beiriannau chwilio a gwasanaethau sy'n gweithredu model hysbysebu chwilio â thâl, er enghraifft Amazon a Pinterest. IAB UK, A guide to the State of Search, Mawrth 2021.
[55] Nid yw'n cynnwys gwasanaethau chwilio Google - Maps, Shopping, Play na News.

dros 3% o oedolion ar-lein yn y DU. Ymwelodd dros filiwn o oedolion â phedwar peiriant chwilio yn y DU ym mis Mai 2024.[56]

[56] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 18: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU o’r deg peiriant chwilio mwyaf poblogaidd, a’r amser a dreulir ar gyfartaledd gan ymwelwyr: Mai 2024**

**ALLWEDD:** Gwasanaeth chwilio cyffredinol | Gwasanaeth chwilio cyffredinol sy’n is i lawr

| Safle | Peiriant chwilio | Pencadlys | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2022 | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2024 | Newid o un flwydd yn i’r llall | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2024 | Amser cyfartalog a dreuliwyd ym mis Mai 2024 fesul ymwelydd (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Google Search** | UDA | 41.1m | 41.3m | 39.6m | -1.8m | 83% | 01:29 |
| 2 | **Bing** | UDA | 13.9m | 21.9m | 18.5m | -3.4m | 39% | 00:38 |
| 3 | **Yahoo!** | UDA | 1.5m | 1.6m | 1.6m | -24k | 3% | 00:07 |
| 4 | **DuckDuckGo** | UDA | 1.8m | 1.3m | 1.5m | +202k | 3% | 00:22 |
| 5 | **Yandex** | Rwsia | 1.3m | 379k | 762k | +383k | 2% | 00:01 |
| 6 | **Ecosia** | Yr Almaen | 814k | 724k | 637k | -87k | 1% | 02:42 |
| 7 | **Ask.com** | UDA | 498k | 574k | 410k | -163k | 1% | 00:07 |
| 8 | **Info.co.uk** | UDA | 1.9m | 539k | 263k | -275k | 1% | 00:01 |
| 9 | **Tineye** | Canada | 177k | 217k | 195k | -22k | <1% | 0:01 |
| 10 | **Baidu** | Tsieina | 175k | 82k | 168k | +87k | <1% | 0:03 |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Nid yw Google Search yn cynnwys gwasanaethau Google Search o fewn Maps, Shopping, Play na News. Rhestr wedi’i diffinio’n benodol gan Ofcom. Oherwydd cyrhaeddiad isel rhai o’r gwasanaethau hyn, gallant fod yn fwy agored i amrywiadau o un flwyddyn i’r llall. Mae’r blychau gwyrdd yn nodi cynnydd o un flwyddyn i’r llall, tra bo’r blychau coch yn nodi gostyngiad.*

## Mae gan Bing, Yahoo, ask.com ac info.co.uk gyrhaeddiad cynulleidfa oedolion uwch ar gyfrifiaduron o’i gymharu â’u cynulleidfa ar ddyfeisiau symudol

Roedd gan bedwar o’r deg peiriant chwilio mwyaf poblogaidd gynulleidfa oedolion uwch ar gyfrifiaduron, o’i gymharu â’u cynulleidfa ar ffonau clyfar neu dabled, ym mis Mai 2024 (gweler Ffigur 19). Ymwelodd dros 90% o gynulleidfa oedolion Yahoo! ac ask.com â’r peiriannau chwilio drwy gyfrifiadur, a chafodd Bing ac Info.co.uk gyrhaeddiad o 57% a 66% yn y drefn honno. Mae cyrhaeddiad Google yn debygol o fod yn arbennig o uchel ar ffonau clyfar gan mai dyma’r peiriant chwilio diofyn ar ddyfeisiau Android, yn ogystal ag ar ddyfeisiau Apple drwy borwr Safari. Yn yr un

modd, mae'n debyg bod cyrhaeddiad Bing yn gymharol uchel ar gyfrifiaduron gan mai dyma'r peiriant chwilio diofyn ar borwyr Microsoft Edge ac Internet Explorer.[57]

**Ffigur 19: Cyrhaeddiad oedolion yn y DU ymysg y deg peiriant chwilio mwyaf poblogaidd, yn ôl dyfais: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Nid yw Google Search yn cynnwys gwasanaethau Google Search - Maps, Shopping, Play na News. Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

## Cynyddodd cyrhaeddiad Bing pan gafodd adnodd deallusrwydd artiffisial ei gyflwyno i'w wasanaeth, ond ers hynny mae wedi gostwng unwaith eto

Ym mis Chwefror 2023, lansiodd Microsoft fersiwn o'i wasanaeth chwilio Bing a phorwr gwe Edge sy'n cael ei bweru gan dechnoleg GPT-4 OpenAI, o'r enw Bing Chat.[58] Yn dilyn y datganiad hwn, roedd nifer yr oedolion ar-lein y DU a oedd yn ymweld â Bing.com wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Ebrill 2023, gyda 46% (22.2m) o gyrhaeddiad, cynnydd o 60% ar y ffigur chwe mis yn gynharach (29% o oedolion ar-lein y DU, 13.9m ym mis Hydref 2022).[59] Ond oherwydd bod Bing Chat wedi'i integreiddio o fewn peiriant chwilio Bing, mae'n debygol nad oedd pob defnyddiwr yn ymwybodol eu bod yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Ers mis Ebrill 2023, mae cyrhaeddiad oedolion ar Bing wedi bod yn gostwng yn araf, gan sefydlogi ym mis Ebrill 2024, ond mae'n dal yn uwch na'r cyfnod cyn cyflwyno deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.[60] Ym mis Medi 2023, dechreuodd Microsoft gyflwyno ei adnodd deallusrwydd artiffisial newydd, Copilot, gan ddisodli Bing Chat erbyn mis Tachwedd 2023.[61] Mae Copilot ar gael i'w ddefnyddio fel gwefan ac ap annibynnol, ond mae

---

[57] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[58] Microsoft, Reinventing search with a new AI-powered Microsoft Bing and Edge, 7 Chwefror 2023.
[59] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Hydref 2022 ac Ebrill 2023, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[60] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, bing.com, misol 2022-2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[61] Microsoft, Announcing Microsoft Copilot, your everyday AI companion, 21 Medi 2023.

hefyd ar gael ar wefan bing.com. Felly, mae'n bosibl y bydd rhai pobl sy'n mynd ar wefan Bing.com yn defnyddio peiriant chwilio Bing neu Copilot (i gael rhagor o wybodaeth am Copilot, ewch i'r adran Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol). Mae oedolion hŷn ar-lein y DU yn fwy tebygol nag oedolion iau o ymweld â Bing (pobl ifanc ar-lein y DU sydd rhwng 25 a 34 oed: 36% (3.1m) o'i gymharu â phobl dros 64 oed: 43% (3.9m) ym mis Mai 2024).[62]

**Ffigur 20: Cyrhaeddiad gwefan Bing.com ymysg oedolion yn y DU bob mis: Hydref 2022 – Awst 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Hydref 2022 - Awst 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.*

## Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol

Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cyfeirio'n fras at algorithmau sy'n gallu creu cynnwys i ymateb i anogwr. Gall y cynnwys newydd gynnwys testun, delweddau, sain, fideo neu god. Mae'r cynnwys sy'n cael ei greu yn seiliedig ar setiau data'r cynnwys y hyfforddwyd algorithm y model arno.

Megis dechrau y mae'r broses o wneud arian o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, sy'n cynnwys amrywiaeth o fodelau busnes ar hyn o bryd (wedi'u hariannu gan hysbysebion, tanysgrifiadau, taliadau a thrwyddedu), ac mae'n debygol o aros yn amrywiol yn y tymor canolig.

Comisiynodd Ofcom arolwg i ddeall sut mae defnyddwyr rhyngrwyd y DU yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae'r adran hon yn defnyddio ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024 ymysg pobl ar-lein y DU sy'n 16 oed a hŷn a phlant ar-lein Prydeinig 8-15 oed. Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr am sut maent yn defnyddio 16 o adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.[63]

---

[62] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, bing.com, misol 2022-2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

[63] Adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn yr arolwg: ChatGPT; Ategyn ChatGPT; My AI ar Snapchat, Google Gemini, Microsoft CoPilot, DALL-E, Midjourney, Character.AI, Scribe, AlphaCode, Quillbot, Synthesia, Claude o Anthropic, Perplexity, Adnodd deallusrwydd artiffisial Stability a Grok ar X.

## Mae hanner y dynion ar-lein y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â thraean o'r menywod

Canfu ymchwil Ofcom fod 41% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi dweud eu bod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda 18% o'r rheini sy'n 16 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y mis diwethaf. Defnyddwyr y rhyngrwyd 16-24 oed oedd y mwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (78%) o'i gymharu â phob grŵp oedran arall (gweler Ffigur 21). Mae gwahaniaeth clir rhwng y rhywiau o ran y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Roedd dynion ar-lein 16 oed a hŷn yn y DU yn fwy tebygol na menywod o fod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf (50% o'i gymharu â 33%). Roedd dynion ym mhob categori oedran yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gyda'r gwahaniaeth mwyaf yn ymddangos ymysg pobl 45-54 oed (22 pwynt canran), wedi'i ddilyn yn agos gan bobl 35-44 oed (21 pwynt canran) a phobl 16-24 oed (19 pwynt canran).[64]

**Ffigur 21: Defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU sydd wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl oedran a rhywedd: Mehefin 2024**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024. Cwestiwn 1: Pryd, os o gwbl, wnaethoch chi ddefnyddio'r offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol canlynol ddiwethaf? Mae canlyniadau net offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cynnwys: ChatGPT; Ategyn ChatGPT; My AI ar Snapchat, Google Gemini, Microsoft CoPilot, DALL-E, Midjourney, Character.AI, Scribe, AlphaCode, Quillbot, Synthesia, Claude o Anthropic, Perplexity, Offer deallusrwydd artiffisial Stability a Grok ar X. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2520).*

## ChatGPT yw'r adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion

Mae arolwg Ofcom ym mis Mehefin yn rhoi cipolwg ar y defnydd wedi'i gofnodi o ddeallusrwydd artiffisial gan bobl. Roeddem hefyd wedi edrych ar ddata Ipsos iris i olrhain tueddiadau yn nefnydd

[64] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.

gwirioneddol oedolion, fel y casglwyd drwy fonitro ffonau clyfar, tabledi a chyfrifiaduron a ddefnyddir gan banel Ipsos iris yn oddefol.[65] Canfu arolwg Ofcom fod 33% o bobl ar-lein y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi dweud eu bod wedi defnyddio ChatGPT yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda rhestr hirfaith o adnoddau deallusrwydd artiffisial eraill yn cael eu defnyddio gan 15% neu lai.[66] Canfu data Ipsos iris fod 9% (4.2m) o oedolion ar-lein y DU sy'n 18 oed a hŷn wedi ymweld â ChatGPT ym mis Mai 2024,[67] gan gynyddu i 11% (5.0m) ym mis Awst 2024. Ym mis Mai 2024, roedd cyrhaeddiad ChatGPT ymhlith oedolion ar ei uchaf ymysg pobl ifanc ar-lein 18-24 oed yn y DU (27%, 1.4m). Fodd bynnag, er bod cyrhaeddiad y rheini sy'n 25 oed a hŷn wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y ddau fis diwethaf, gostyngodd y cyrhaeddiad i bobl ifanc 18-24 oed 16% (-226k) – gweler Ffigur 23 isod.[68] Gall hyn fod yn rhannol oherwydd bod y cyfnod hwn yn nodi diwedd y flwyddyn academaidd, gyda'r grŵp oedran hwn o bosibl â llai o angen i ddod o hyd i wybodaeth neu gynnwys sy'n ymwneud â'u haddysg (gweler isod ar weithgareddau a gynhaliwyd ar adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol). Gellir priodoli'r cynnydd nodedig mewn cyrhaeddiad – yn enwedig i bobl ifanc 25-34 oed – ym mis Awst 2024 o'i gymharu â misoedd blaenorol, yn rhannol i'r cyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd gan gyhoeddiad OpenAI ar 25 Gorffennaf o Brototeip SearchGPT – chwiliad a gynlluniwyd i gyfuno modelau deallusrwydd artiffisial OpenAI â gwybodaeth o'r we.[69] O ran rhywedd, dynion oedd 62% (2.6m) o oedolion a ymwelodd â ChatGPT ym mis Mai 2024, a menywod oedd 38% (1.6m).[70] Cipiodd Microsoft Copilot a Snapchat My AI yr ail a'r trydydd safle o blith yr adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.[71]

Ym mis Rhagfyr 2023, lansiodd Google ei gynorthwyydd deallusrwydd artiffisial newydd, Google Gemini, sydd ar gael i'w ddefnyddio gan ddefnyddwyr rhyngrwyd sydd â chyfrif Google. Erbyn mis Mehefin 2024, canfu ymchwil Ofcom mai dyma'r adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol sydd yn y pedwerydd safle ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn (10%). Canfu Ipsos iris fod 548k (1%) o oedolion ar-lein y DU wedi ymweld â gwefan Google Gemini ym mis Mai 2024. Fodd bynnag, dylid nodi bod mynediad at Gemini hefyd ar gael drwy ap Google, sy'n cynnig opsiwn toglo i ymwelwyr, i fod yn gallu defnyddio'r ap ar gyfer Google Search neu Google Gemini.[72]

---

[65] I gael rhagor o wybodaeth am Ipsos iris, gweler Methodoleg.
[66] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.
[67] Ym mis Mai 2024, diweddarodd ChatGPT ei enw parth o chatgpt.openai.com i chatgpt.com. Felly, yn wahanol i'r misoedd blaenorol, pan adroddodd iris ar wefan OpenAI a oedd yn cynnwys ChatGPT, gallwn nawr adrodd ar wefan ac ap ChatGPT ar wahân i wefan OpenAI (o fis Mai 2024 ymlaen).
[68] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ChatGPT, Mai 2024, Gorffennaf 2024 ac Awst 2024, oedran 18 oed a hŷn, defnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU.
[69] OpenAI, Prototeip SearchGPT, 25 Gorffennaf 2024.
[70] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ChatGPT, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[71] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.
[72] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 22: Defnydd wedi'i gofnodi o adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf, defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024. Cwestiwn 1: Pryd, os o gwbl, wnaethoch chi ddefnyddio'r offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol canlynol ddiwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2520).*

**Ffigur 23: Cyrhaeddiad misol ChatGPT, yn ôl oedran: Mai - Awst 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ChatGPT, Mai – Awst 2024, oedran:* 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

## Er mai'r rheswm mwyaf poblogaidd dros ddefnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial yw dod o hyd i wybodaeth neu gynnwys, dim ond cyfran fach o ddefnyddwyr sy'n ymddiried ynddo i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy

O ystyried yr holl wasanaethau, dywedodd bron i hanner defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn eu bod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y 12 mis diwethaf 'am hwyl' (48%), a dywedodd 43% eu bod wedi defnyddio un at ddibenion gwaith, a 23% i astudio. Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd a gyflawnwyd gan ddefnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn oedd dod o hyd i wybodaeth neu gynnwys; dywedodd 36% fod hyn yn rheswm. Roedd dynion 16 oed a hŷn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy tebygol na menywod yn yr un grŵp oedran o ddefnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial i ddod o hyd i wybodaeth neu gynnwys (39% o'i gymharu

â 32%), at ddibenion codio (15% o'i gymharu â 4%), i greu delweddau (24% o'i gymharu â 13%) ac i archwilio'r dechnoleg (36% o'i gymharu â 22%).[73]

Dywedodd bron i un o bob pump (18%) o ddefnyddwyr deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol y DU sy'n 16 oed a hŷn eu bod yn hyderus bod yr wybodaeth a ddarperir gan ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ddibynadwy, gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr (61%) yn niwtral o ran eu hyder i ymddiried yn yr wybodaeth a ddarperir.[74] Roedd defnyddwyr 16-24 oed (21%) a 25-34 oed (23%) yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod yr wybodaeth a ddarperir yn ddibynadwy, o'i gymharu ag oedolion hŷn 45-54 oed (11%) a 55 oed a hŷn (12%). Roedd dynion 16-24 oed yn fwy tebygol na menywod yn yr un grŵp oedran o ddweud bod yr wybodaeth yn ddibynadwy (28% o'i gymharu â 14%).[75]

**Ffigur 24: Rhesymau dros ddefnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf, defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024 Cwestiwn 2: Rydych chi wedi dweud eich bod wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n egluro pam eich bod wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y cyfnod hwn? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol). Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ sydd wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y 12 mis diwethaf (1010).*

## Defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn ac sydd heb ddefnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol[76]

Mae menywod sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy tebygol na dynion o beidio byth â defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (57% o'i gymharu â 42%). Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros beidio â defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gan ddynion a

[73] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.
[74] Mae dibynadwyedd adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn oddrychol, ac mae'n bosibl y bydd rhai adnoddau'n cael eu hystyried yn fwy dibynadwy nag eraill. Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar ganfyddiad o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn gyffredinol.
[75] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU. Sail: y rhai sydd wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
[76] Pan ofynnwyd i gyfranogwyr am eu defnydd o amrywiaeth o adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, roeddent yn gallu dewis 'ddim yn gwybod' a dyna pam nad yw'r canrannau ar gyfer defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial yn rhoi cyfanswm o 100%.

menywod, oedd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio'r adnodd (38%) a/neu nad oeddent 'yn teimlo bod angen ei ddefnyddio' (35%). Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y rhywiau: dywedodd tri deg y cant o ddefnyddwyr benywaidd nad oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, o'i gymharu â 23% o ddefnyddwyr gwrywaidd. Dywedodd un deg saith y cant o ddefnyddwyr benywaidd fod ganddynt bryderon am ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, o'i gymharu ag 11% o ddefnyddwyr gwrywaidd, sy'n awgrymu efallai eu bod yn llai hyderus ynghylch defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ac felly'n dewis peidio â gwneud hynny. Roedd menywod hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwybod beth oedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (29% o'i gymharu â 19%). Yn benodol, roedd menywod hŷn yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn poeni am ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (65 oed neu hŷn: 17% o'i gymharu â 10%) neu ddim yn gwybod amdano (35-44 oed: 25% o'i gymharu â 10% a 45-54 oed: 29% o'i gymharu â 15%).[77]

Ymysg defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn, roedd pryderon ynghylch effaith deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar gymdeithas yn y dyfodol. Dywedodd tri o bob pump (59%) o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn eu bod yn poeni; roedd menywod yn fwy tebygol o ddweud hyn (64%) na dynion (55%). Dywedodd pedwar deg chwech y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd ym Mhrydain 8-15 oed eu bod yn poeni am effaith deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar bobl yn y dyfodol.[78]

**Ffigur 25: Rhesymau dros beidio â defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, yn ôl y rhai 16 oed a hŷn nad ydynt wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y DU**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024. Cwestiwn 5: Rydych chi wedi dweud nad ydych chi erioed wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol o'r blaen, neu nad ydych chi'n siŵr. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n rhesymau pam nad ydych chi erioed wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol.) Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ nad ydynt wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol neu ddim yn gwybod a ydynt wedi'i ddefnyddio (1432).*

## Dywedodd dros hanner y plant ar-lein ym Mhrydain 8-15 oed eu bod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Roedd pum deg pedwar y cant o blant ar-lein ym Mhrydain rhwng 8 a 15 oed wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a dywedodd 29% o blant eu bod wedi defnyddio un yn ystod y mis diwethaf. Roedd pobl ifanc 13-15 oed yn fwy tebygol o fod

[77] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.
[78] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 16 oed a hŷn, y DU ac oedran: 8-15, Prydain Fawr.

wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na phlant 8-12 oed (66% o'i gymharu â 46%). Yn yr un modd â defnyddwyr 16 oed a hŷn, ChatGPT oedd yr adnodd deallusrwydd artiffisial mwyaf poblogaidd ymysg y grŵp oedran hwn; roedd 37% o bobl ifanc 8-15 oed ar-lein wedi'i ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cyrhaeddiad pob un o'r 16 o'r adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a arolygwyd gennym yn uwch i blant ym Mhrydain nag i bobl 16 oed a hŷn yn y DU (gweler Ffigur 22 a 26). Fel pobl 16 oed a hŷn, roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod wedi defnyddio ChatGPT (42% o'i gymharu â 32%), er bod y bwlch rhwng y rhywiau yma yn llai na rhwng oedolion. Roedd pobl ifanc 13-15 oed yn fwy tebygol na'r rheini 8-12 oed o fod wedi defnyddio ChatGPT yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (46% o'i gymharu â 32%).[79]

Yn wahanol i'r sefyllfa ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn, Snapchat My AI oedd yn yr ail safle o blith adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ymysg plant ar-lein ym Mhrydain (30%), ac nid yw ei gyrhaeddiad ymhell y tu ôl i ChatGPT (37). Roedd pobl ifanc ar-lein 13-15 oed yn fwy tebygol na phlant 8-12 oed o fod wedi defnyddio Snapchat My AI yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (44% o'i gymharu â 21%).[80] Mae Snapchat eisoes yn llwyfan cyfryngau cymdeithasol poblogaidd ymysg plant, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan 30% o blant 8-11 oed a 59% o blant 12-15 oed.[81] Felly, mae hyn yn debygol o fod wedi lleihau'r amharodrwydd i ddefnyddio'r gwasanaeth My AI, gan fod plant eisoes yn ecosystem Snapchat. Yng nghyhoeddiad Ein Gwlad Ar-lein 2023, fe wnaethom adrodd mai Snapchat My AI oedd yr adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mwyaf cyffredin, a gafodd ei ddefnyddio gan 51% o bobl ifanc 7-17 oed erbyn mis Mehefin 2023,[82] ar ôl ei ryddhau ym mis Ebrill 2023. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynnydd cychwynnol mewn diddordeb yn My AI wedi cael ei gynnal dros y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at lai o ddefnyddwyr sy'n blant, er ei fod yn dal i fod yn un o'r adnoddau deallusrwydd artiffisial mwyaf poblogaidd.[83]

**Ffigur 26: Defnydd o adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl plant 8-15 oed ar-lein ym Mhrydain**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024. Cwestiwn 1: Pryd wnaethoch chi ddefnyddio'r offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol canlynol ddiwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd Prydain, oedran: 8-15 (1051).*

---

[79] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, 8-15 oed, Prydain Fawr.
[80] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, 8-15 oed, Prydain Fawr.
[81] Arolwg Ofcom ar Ymddygiad ac Agweddau Plant a Rhieni Ar-lein, 2023.
[82] Omnibws haf CHILDWISE 2023. Gwasanaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y chwe mis diwethaf: Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng Mehefin-Gorffennaf 2023.
[83] Sylwer: daw'r data o arolwg gyda gwahanol gwestiynau ac ystodau oedran, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol.

## Dywedodd dros hanner y plant 8-15 oed ym Mhrydain sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eu bod yn ei ddefnyddio i helpu gyda gwaith ysgol

Dywedodd chwe deg tri y cant o blant ar-lein ym Mhrydain 8-15 oed eu bod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf 'am hwyl', a dywedodd dros hanner (53%) eu bod wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial i helpu gyda gwaith ysgol. Roedd plant hŷn 13-15 oed yn fwy tebygol na'r rheini 8-12 oed o fod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial i helpu gyda gwaith ysgol (59% o'i gymharu â 48%), ac roedd plant 8-12 oed yn fwy tebygol na'r rheini 13-15 oed o fod wedi'i ddefnyddio ar am hwyl (67% o'i gymharu â 58%). Roedd 'Dod o hyd i wybodaeth neu gynnwys' hefyd yn achos defnydd poblogaidd (31%) ymysg plant ar-lein ym Mhrydain 8-15 oed. 'Creu delweddau' oedd yr ail weithgaredd mwyaf poblogaidd, gyda 30% o blant yn dweud hyn, a dyma'r pumed gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr ar-lein sy'n 16 oed a hŷn. Fel yn y grŵp oedran 16 oed a hŷn, roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i archwilio'r dechnoleg (33% o'i gymharu â 22%) neu i greu testun/geiriau newydd (er enghraifft, ysgrifennu cerdd) (23% o'i gymharu â 16%).[84]

Yn wahanol i ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU sy'n 16 oed a hŷn, roedd gan blant lefelau uwch o ymddiriedaeth; dywedodd traean (34%) o ddefnyddwyr deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol 8-15 oed ym Mhrydain eu bod yn ymddiried yn yr wybodaeth o'r adnoddau hyn i fod yn ddibynadwy. Serch hynny, mynegodd y mwyafrif lefel hyder 'niwtral' (48%). Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o ddweud eu bod yn ymddiried yn yr wybodaeth (40% o'i gymharu â 28%), yn enwedig bechgyn 8-12 oed o'u cymharu â merched yn yr un grŵp oedran (40% o'i gymharu â 24%).[85]

**Ffigur 27: Rhesymau dros ddefnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn y flwyddyn ddiwethaf, defnyddwyr rhyngrwyd 8-15 oed ym Mhrydain Fawr: 2024**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024. Cwestiwn 2: Rydych chi wedi dweud eich bod wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eleni. Pam*

[84] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, 8-15 oed, Prydain Fawr.

[85] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr. Sail: y rhai sydd wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

*wnaethoch chi ddefnyddio’r offer(yn) deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd Prydain, oedran: 8-15 sydd wedi defnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ystod y 12 mis diwethaf (559).*

### Mae plant ifanc nad ydynt yn defnyddio deallusrwydd artiffisial yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn gwybod beth yw deallusrwydd artiffisial, tra bod pobl ifanc yn eu harddegau yn fwyaf tebygol o ddweud nad oes ganddynt ddiddordeb

Dywedodd traean (32%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 8-15 oed nad ydynt wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Ymysg y rhai 8-15 oed nad oeddent wedi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, roedd y plant iau (8-12 oed) yn llai tebygol o wybod beth oedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, o’i gymharu â phlant 13-15 oed (29% o’i gymharu â 16%). Ond roedd plant hŷn (13-15 oed) yn fwy tebygol na’r rheini 8-12 oed o ddweud nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (38% o’i gymharu â 12%), nad oeddent angen ei ddefnyddio ar hyn o bryd (30% o’i gymharu â 19%), ac nad oeddent yn ymddiried ynddo (11% o’i gymharu â 4%). Yn wahanol i’r rheini sy’n 16 oed a hŷn, roedd ymddiriedaeth a phryderon ynghylch deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn llai o ffactor ym mhenderfyniad plant i beidio â defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (dywedodd 6% ‘Dydw i ddim yn ymddiried mewn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol’, roedd 2% yn poeni am ei ddefnyddio). Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y rhywiau: roedd merched ar-lein 8-15 oed yn llai tebygol o wybod beth oedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, o’i gymharu â bechgyn yn yr un grŵp oedran (31% o’i gymharu â 19%). Yn benodol, roedd merched 8-12 oed yn fwy tebygol na bechgyn yn yr un grŵp oedran o fod yn gwybod beth oedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (38% o’i gymharu â 19%). Yn ddiddorol, roedd gan fechgyn 13-15 oed nad oeddent yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol lai o ddiddordeb mewn ei ddefnyddio na merched yn yr un grŵp oedran (47% o’i gymharu â 31%).[86]

## Cyfryngau cymdeithasol

Mae gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn cysylltu defnyddwyr ac yn eu galluogi i adeiladu cymunedau o amgylch diddordebau neu gysylltiadau cyffredin, gan ganiatáu iddynt greu a rhannu amrywiaeth eang o gynnwys. Fel arfer, gall defnyddwyr ganfod, dilyn a chyfathrebu â’i gilydd drwy negeseuon uniongyrchol, postio neu rannu cynnwys, yn ogystal â gwneud sylwadau ac ymateb i gynnwys. Mae rhai gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol hefyd yn wasanaethau rhannu fideos lle gall defnyddwyr lwytho fideos i fyny a’u rhannu â’r cyhoedd, ac mae rhai yn cefnogi ffrydio byw hefyd.

Mae gan gyfryngau cymdeithasol werth ariannol yn bennaf drwy hysbysebu, sy’n aml yn cael ei dargedu ar sail gwybodaeth ddemograffig ac ymddygiad defnyddwyr ar-lein. Yn ôl IAB UK yn 2023, roedd cyfanswm hysbysebion arddangos cymdeithasol yn £7.5bn, dros ddwy flynedd a hanner bum mlynedd a mwy yn ôl, ac yn cynrychioli cynnydd o 16% o un flwyddyn i’r llall yn dilyn sefydlogrwydd yn 2021-2022. Fodd bynnag, wrth i'r farchnad hysbysebu ar-lein aeddfedu, mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn arallgyfeirio gyda ffrydiau refeniw y telir amdanynt. Mae sawl cwmni cyfryngau cymdeithasol wedi cyflwyno opsiwn model tanysgrifio premiwm sy’n cynnig gwell gwasanaethau.

[86] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, Mehefin 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.

## Reddit yw'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol mawr sy'n tyfu gyflymaf yn y DU erbyn hyn, gan gyrraedd mwy na hanner oedolion ar-lein y DU erbyn mis Mehefin 2024

Lansiodd Reddit yn 2005, sef fforwm trafod lle gall defnyddwyr greu postiadau mewn cymunedau sy'n seiliedig ar bynciau, a elwir yn '*subreddits*', a rhyngweithio yn y sylwadau. Yn y deg gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, Reddit oedd gan y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall o ran cyrhaeddiad oedolion. Ymwelodd 48 y cant (22.9m) o oedolion ar-lein y DU â Reddit ym mis Mai 2024, sef cynnydd o 47% (+7.3 miliwn) o un flwyddyn i'r llall (Mai 2023: 33%, 15.6m). Roedd y cynnydd hwn wedi symud Reddit ddau safle i fyny i'r pumed safle o ran y gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, gan basio LinkedIn ac X (gweler Ffigur 28).[87]

Mae'n bosibl bod ffactorau amrywiol wedi cyfrannu at dwf Reddit ymysg y gynulleidfa oedolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2023, dechreuodd Reddit godi tâl i gael mynediad at y Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API). Felly ni allai datblygwyr a oedd wedi creu eu apiau eu hunain, wedi'u llenwi â gwybodaeth Reddit gan ddefnyddio'r Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau, fel gwybodaeth '*subreddits*', postiadau, sylwadau a phroffiliau defnyddwyr, wneud hyn am ddim mwyach.[88] Roedd hyn wedi golygu nad oedd rhai o'r apiau trydydd parti hyn ar gael, a allai orfodi eu defnyddwyr i newid i safle Reddit er mwyn parhau i gael mynediad at Reddit.

Erbyn diwedd 2023, cyrhaeddodd Reddit 39% (18.3m) o oedolion ar-lein y DU, sef cynnydd o 2.7 miliwn ers mis Mai y flwyddyn honno. Cynyddodd ymhellach ym mis Mawrth 2024, gyda 3.2 miliwn yn ychwanegol o oedolion yn y DU yn ymweld â'r safle o'i gymharu â'r mis blaenorol (cyfanswm oedolion y DU: 44%, 20.8m).[89] Mae'n bosibl bod y twf hwn yn rhannol oherwydd y cyhoeddusrwydd ynghylch IPO gwerth £5.0bn gan Reddit; dechreuodd fasnachu ar Gyfnewidfa Stoc Efrog Newydd ar 21 Mawrth 2024.[90] Erbyn mis Mehefin 2024, cyrhaeddodd Reddit dros hanner (52%, 24.6m) o oedolion ar-lein y DU.[91]

Gellir ystyried Quora fel y cystadleuydd agosaf i Reddit o ran ei debygrwydd swyddogaethol fel llwyfan rhannu gwybodaeth lle mae defnyddwyr yn gofyn, yn ateb ac yn trafod ystod eang o gwestiynau. Mae Quora hefyd wedi tyfu'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyrraedd 31% (14.6m) o oedolion ar-lein erbyn mis Mai 2024, sef cynnydd o 24% (+2.9m) o un flwyddyn i'r llall yng nghyrhaeddiad oedolion (Mai 2023: 25%, 11.8m), ac erbyn hyn yn yr 8fed safle, ar ôl disodli Pinterest. [92]

---

[87] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Reddit, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[88] Blog Reddit, Key Facts to Understanding Reddit's Recent API Updates, 15 Mehefin 2023.
[89] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Reddit, Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[90] Reddit, Inc. SEC filing ar 22 Chwefror 2024.
[91] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Reddit, Mehefin 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[92] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Quora, Mai 2024 a Mai 2023, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

Mae cyfansoddiad rhywedd oedolion ar Reddit wedi'i rannu'n weddol gyfartal; roedd cynulleidfa oedolion yn y DU yn cynnwys 52% o ddynion a 48% o fenywod ym mis Mai 2024. Fodd bynnag, mae'r cyfanswm a dreulir ar Reddit yn tueddu i wyro at ddynion: Dynion oedd yn cyfrif am 61% o gyfanswm yr amser a dreulir ar Reddit gan oedolion y DU ym mis Mai 2024, a 39% gan fenywod. Er bod cyfansoddiad rhywedd Quora hefyd wedi'i rannu'n gyfartal (dynion 48% o'i gymharu â menywod 52%), dynion oedd yn cyfrif am 70% o gyfanswm yr amser a dreuliwyd gan oedolion y DU ar Quora (30% o fenywod). Yn y deg gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, Quora oedd gan y gyfran fwyaf o gyfanswm yr amser sy'n cael ei dreulio gan ddynion - gweler Ffigur 31.[93]

[93] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Reddit a (BG) Quora, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 28: Cyrhaeddiad y deg ap/gwefan cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymhlith oedolion ar-lein yn y DU, ac amser a dreulir ar wasanaethau: Mai 2022, 2023 a 2024**

| Safle cyrhaeddiad mis Mai 2024 | Cyfryngau cymdeithasol | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion y DU mewn mis | | | | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU | Cyrhaeddiad oedolion y DU bob dydd ar gyfartaledd mewn mis | | | Yr amser sy'n cael ei dreulio ar gyfartaledd bob dydd gan oedolyn y DU | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | Mai 2023 o'i gymharu â Mai 2024 - newidiadau o un flwyddyn i'r llall | Mai 2024 | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 |
| **1** | **YouTube** | 44.0m | 43.6m | 44.5m | +2% | 94% | 20.1m | 20.4m | 25.4m | * | * | 47 munud |
| **2** | **Facebook / Messenger** | 45.0m | 43.9m | 43.1m | -2% | 91% | 32.1m | 29.5m | 30.5m | * | 28 munud | 39 munud |
| **3** | **Instagram** | 34.2m | 34.7m | 36.1m | +4% | 76% | 15.6m | 16.6m | 19.6m | 10 munud | 12 munud | 17 munud |
| **4** | **TikTok** | 16.6m | 21.2m | 24.0m | +13% | 51% | 5.4m | 6.7m | 7.6m | 27 munud | 26 munud | 27 munud |
| **5** | **Reddit** | 14.9m | 15.6m | 22.9m | +47% | 48% | 3.3m | 3.6m | 4.9m | 5 munud | 5 munud | 4 munud |
| **6** | **X** | 26.8m | 24.0m | 22.1m | -8% | 47% | 10.3m | 9.5m | 8.6m | * | 10 munud | 9 munud |
| **7** | **LinkedIn** | 18.6m | 18.9m | 18.3m | -3% | 39% | 4.7m | 5.3m | 4.3m | 2 munud | 2 munud | 2 munud |
| **8** | **Quora** | 11.2m | 11.8m | 14.6m | +24% | 31% | 1.2m | 1.5m | 1.6m | 1 munud | 1 munud | < 1 munud |
| **9** | **Pinterest** | 14.0m | 12.5m | 13.2m | +6% | 28% | 2.1m | 1.9m | 2.1m | 1 munud | 1 munud | 1 munud |
| **10** | **Snapchat** | 9.8m | 10.3m | 10.1m | +1% | 21% | 5.2m | 5.8m | 6.1m | 22 munud | 29 munud | 31 munud |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: Cyfryngau Cymdeithasol a Fforymau Ar-lein, Mai 2022/2023/2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys. Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis. *O ganlyniad i wella methodoleg Youtube, ni ellir cymharu cyfanswm y data o ran yr amser cyfartalog a dreuliwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd gwelliannau i ddata apiau synthetig i gyd-fynd yn agosach â'r metrig cofnodion gyda data'r panel wedi'i bwysoli wedi arwain at apiau Facebook a data Twitter (X erbyn hyn) yn 2022 i beidio â bod yn debyg i ddata 2023 ymlaen. Mae'r blychau gwyrdd yn nodi cynnydd o un flwyddyn i'r llall, tra bo'r blychau coch yn nodi gostyngiad.*

## Mae'r sgrin deledu yn dod yn fwyfwy pwysig i YouTube, gyda thwf yn cael ei sbarduno'n bennaf gan blant ac oedolion ifanc

Yn ôl Ipsos iris, YouTube yw'r gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion ar-lein y DU sy'n defnyddio ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, yn y cartref neu'r tu allan i'r cartref, gyda mwy na naw o bob deg (94%, 44.5m) yn ymweld â'r safle ym mis Mai 2024, a mwy na hanner (54%, 25.4m) o oedolion ar-lein yn ymweld â YouTube bob dydd ym mis Mai 2024, sef cynnydd o 11 pwynt canran (43%, 20.4m) ers mis Mai 2023. Ar gyfartaledd, roedd oedolion a oedd yn ymweld â YouTube yn treulio 47 munud bob dydd ar ffonau clyfar, tabledi neu gyfrifiaduron, yn y cartref neu'r tu allan i'r cartref ym mis Mai 2024, a 21 o fideos yn cael eu gwylio ar gyfartaledd. Treuliwyd dros hanner yr amser hwn (54%, neu 26 munud y dydd) ar y gwasanaeth ar ffonau clyfar, gyda gweddill yr amser wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron (11 munud (23%) ar bob dyfais).[94]

Canfu data gan Barb fod cyfanswm nifer yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio fideos yn y cartref ar Youtube dros gysylltiad band eang, sy'n cynnwys defnydd ar y set deledu, wedi cynyddu o 35 munud fesul unigolyn 4 oed a hŷn yn hanner cyntaf 2023 i 38 munud yn hanner cyntaf 2024, sef cynnydd o 9%. Dros y cyfnod hwn, roedd yr amser cyfartalog a dreulir yn gwylio YouTube ar set deledu wedi cynyddu 31%, o 11 munud y diwrnod yn hanner cyntaf 2023 i 15 munud y diwrnod yn hanner cyntaf 2024. Mae'n ymddangos bod plant ac oedolion ifanc yn sbarduno'r twf o ran gwylio ar setiau teledu, gyda phlant 4-17 oed yn treulio 25 munud yn hanner cyntaf 2024, sef cynnydd o 18% ers hanner cyntaf 2023, a phobl ifanc 18-24 oed yn treulio 18 munud yn hanner cyntaf 2024, sef cynnydd o 50% ers hanner cyntaf 2023.[95]

**Ffigur 29: Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio bob dydd yn gwylio YouTube gartref ar set deledu, yn ôl oedran: 2022-2024 (munudau)**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu yn unig, unigolion 4 oed a hŷn*

[94] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) YouTube, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis.

[95] Mae data Barb, fel y'i gwelir, yn cofnodi'r defnydd o fideos YouTube ar setiau teledu ac ar ddyfeisiau eraill drwy rwydwaith WiFi y cartref; nid yw unrhyw wylio y tu allan i'r cartref neu wylio drwy rwydweithiau symudol wedi'i gynnwys.

## Defnyddwyr 18-24 oed sy'n ymweld â TikTok a Snapchat yn treulio tua awr y dydd ar bob gwasanaeth

Mae gwahaniaethau demograffig clir o ran faint o amser mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn ei dreulio ar rai gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfer YouTube, Instagram, TikTok a Snapchat, mae'r amser y mae defnyddwyr yn ei dreulio yn gostwng yn ôl oedran – gweler Ffigur 30 isod. Mae Snapchat yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan bobl ifanc: ymysg pobl ifanc 18-24 oed ar-lein y DU, dyma'r gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol sydd yn y chweched safle, gan gyrraedd 69% (3.7m) ym mis Mai 2024, o'i gymharu â'r degfed safle ymysg pob oedolyn – gweler Ffigur 28.[96] Roedd chwe deg pedwar y cant o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar Snapchat gan oedolion yn y DU ym mis Mai 2024 yn cael ei dreulio gan oedolion 18-24 oed, a dreuliodd 55 munud y dydd ar gyfartaledd ar y gwasanaeth ym mis Mai 2024, ac roedd ymwelwyr 65 oed a hŷn yn treulio 4 munud.

Fe wnaeth saith deg pedwar y cant (3.9m) o bobl ifanc 18-24 oed ar-lein ymweld â TikTok ym mis Mai 2024, gan dreulio 64 munud y dydd ar gyfartaledd ar y gwasanaeth, a dim ond 28% (2.5m) o ddefnyddwyr gwasanaeth 65 oed a hŷn oedd wedi ymweld â'r gwasanaeth, gan dreulio 2 funud y diwrnod ar gyfartaledd. Roedd tri deg naw y cant o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar Tiktok gan oedolion yn y DU ym mis Mai 2024 yn cael ei dreulio gan oedolion 18-24 oed. Ymwelodd chwe deg y cant (3.2m) o bobl ifanc 18-24 oed â Snapchat a TikTok.[97]

Defnyddwyr Facebook 18-24 oed oedd yn ymgysylltu leiaf â'r gwasanaeth, gan dreulio 15 munud y dydd ar gyfartaledd ar y llwyfan, sy'n llawer is na'r amser cyfartalog a dreulir gan oedolion yn gyffredinol (39 munud). Mae'n werth nodi mai dim ond 4% o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar Facebook gan oedolion yn y DU ym mis Mai 2024 a gafodd ei dreulio gan bobl 18-24 oed.[98]

**Ffigur 30: Amser yr oedd oedolion yn y DU yn ei dreulio ar gyfartaledd bob dydd yn ymweld â gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol dethol sydd yn y deg gwasanaeth â'r cyrhaeddiad uchaf, yn ôl oedran (mae'r saethau'n dangos cynnydd/gostyngiad yn yr amser sy'n cael ei dreulio wrth i'r oed gynyddu): Mai 2024 (munudau)**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod*

[96] Mae'r pum prif wasanaeth cyfryngau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed yn debyg i'r pum prif wasanaeth ar gyfer pob oedolyn.
[97] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis.
[98] Ibid.

*y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis. Yr amser sy'n cael ei dreulio ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron yn unig.*

## Menywod oedd wedi treulio'r rhan fwyaf o amser ar Pinterest, Snapchat, Instagram, TikTok a Facebook

Menywod oedd yn gyfrifol am bedair rhan o bump (79%) a dwy ran o dair (66%) o gyfanswm yr amser a dreuliwyd gan oedolion yn y DU ar Pinterest a Snapchat yn y drefn honno ym mis Mai 2024. Ar gyfartaledd, treuliodd menywod sy'n defnyddio Snapchat 36 munud y dydd ar y gwasanaeth, tra bod dynion yn treulio 26 munud. Gan ddadansoddi hyn yn ôl oedran, roedd menywod 18-24 oed yn treulio 67 munud ar y gwasanaeth bob dydd, tra bod dynion 18-24 oed yn treulio 42 munud. Ar gyfer TikTok, ar gyfartaledd, treuliodd ymwelwyr benywaidd 29 munud ar y gwasanaeth bob dydd ym mis Mai 2024, heb newid ers mis Mai 2023 (30 munud). Fodd bynnag, roedd yr amser cyfartalog a dreulir gan ddynion wedi cynyddu o 19 munud y dydd ym mis Mai 2023 i 23 munud y dydd ym mis Mai 2024. Roedd menywod 18-24 oed a oedd yn ymweld â TikTok yn treulio 1 awr 17 munud ar y gwasanaeth ar gyfartaledd, ac roedd dynion yn yr un grŵp oedran yn treulio 29 munud yn llai (48 munud). Mae cyfran yr amser sy'n cael ei dreulio ar Quora gan ymwelwyr gwrywaidd hefyd wedi cynyddu o 64% ym mis Mai 2023 i 70% ym mis Mai 2024, ac mae cyfran yr amser sy'n cael ei dreulio gan ymwelwyr benywaidd ar Reddit wedi cynyddu o 35% i 39%.[99]

**Ffigur 31: Cyfran yn ôl rhyw o gyfanswm yr amser sy'n cael ei dreulio ar y deg gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, oedolion y DU: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: Cyfryngau Cymdeithasol a Fforymau Ar-lein, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.*

[99] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis.

## Flwyddyn ar ôl ei ryddhau, gwasanaeth microflogio Meta Threads oedd y 12fed gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, ond roedd ymhell y tu ôl i X

Ym mis Gorffennaf 2024 – yr un mis â'i lansio'r flwyddyn flaenorol – cyrhaeddodd Threads 11% (4.3m) o oedolion ar-lein y DU, ar ôl bod y 12fed gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, chwe safle y tu ôl i X, y gwasanaeth microflogio blaenllaw. Treuliodd yr oedolyn cyffredinol gyfanswm o 1 awr 26 munud yn ymweld â'r gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2024.[100]

Er mai X yw'r gwasanaeth microflogio mwyaf poblogaidd o hyd, mae cyrhaeddiad ymhlith oedolion y DU yn parhau i ostwng yn raddol. Yn 2021, cyn iddo gael ei brynu gan Elon Musk, 27.9 miliwn oedd cyrhaeddiad oedolion misol cyfartalog y DU. Gostyngodd hyn 1.5 miliwn yn 2022, gan arwain at gyfartaledd misol o 26.5 miliwn. Ar ôl i Musk brynu'r gwasanaeth ym mis Hydref 2022, mae cyrhaeddiad y DU wedi parhau i ostwng, gyda chyfartaledd misol o 23.7 miliwn gan oedolion y DU yn 2023, sef gostyngiad o 2.7 miliwn o un flwyddyn i'r llall. Yn naw mis cyntaf[101] 2024, y cyrhaeddiad misol ar gyfartaledd oedd 22.1 miliwn, sy'n ostyngiad pellach o 1.6 miliwn yn nifer yr oedolion sy'n ymweld. Cafodd X ei gyrhaeddiad dyddiol uchaf o ran cynulleidfaoedd oedolion yn y DU yn 2024 ar 5 Gorffennaf (9.8m, 21% o oedolion ar-lein y DU), y diwrnod ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU..[102]

Mae Bluesky yn wasanaeth microflogio sydd wedi'i ddatblygu gan Jack Dorsey, sef y cyn Brif Swyddog Gweithredol ar Twitter, ac mae wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â Twitter – X erbyn hyn. Cafodd Bluesky ei ariannu gan X i ddechrau, ond ers i Musk brynu X, mae Bluesky wedi bod yn annibynnol ar X.[103] Ym mis Mai 2024, ymwelodd 80k (0.2%) o oedolion ar-lein y DU â Bluesky (gwefan neu ap), a chynyddodd y cyrhaeddiad hwn i 127k (0.3%) ym mis Awst. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol o 263% ym mis Medi 2024, wrth i 461k (1.0%) o oedolion y DU ei ddefnyddio. X a Threads oedd y prif wasanaethau microflogio o hyd ym mis Medi 2024, gan gyrraedd 21.2 miliwn (45%) a 6.6 miliwn (14%) o oedolion ar-lein y DU.[104]

---

[100] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, gwefan neu ap Threads, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[101] Data ar gael hyd at fis Medi 2024 adeg ysgrifennu'r adroddiad.
[102] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap a gwefan X, Threads gan gynnwys ap a gwefan Threads.net, Mai 2024 a Gorffennaf 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[103] Techcrunch, What is Bluesky? Everything to know about the app trying to replace Twitter, 24 Gorffennaf 2023
[104] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, Awst 2024 a Medi 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 32: X o'i gymharu â Threads, metrigau allweddol oedolion ar-lein yn y DU: Gorffennaf 2024**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ym mis Gorffennaf 2024:** | **X** | VS | **THREADS** |
| Oedolion ar-lein yn y DU yn ymweld â'r wefan neu'r ap: | **23.5 miliwn (50%)** | | **5.3 miliwn (11%)** |
| Ymysg gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, safle cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU: | **6ed** | | **12ed** |
| Nifer cyfartalog yr oedolion sy'n mynd ar-lein bob dydd yn y DU: | **9.1 miliwn (19%)** | | **2.1 miliwn (4%)** |
| Nifer yr oedolion ar-lein yn y DU yn ymweld â'r ap yn ystod y mis: | **14.3 miliwn (30%)** | | **4.6 miliwn (10%)** |
| Cyfran yr ymwelwyr sy'n ddynion o'i gymharu â menywod yn ystod y mis: | **56% vs 44%** | | **44% vs 56%** |
| Yr amser a dreulir ar gyfartaledd bob dydd gan oedolyn yn y DU: | **9 munud** | | **3 munud** |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Gorffennaf 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis.*

# Negeseuon a galwadau

Mae gwasanaethau negeseuon yn galluogi defnyddwyr i anfon a derbyn negeseuon sydd ond yn gallu cael eu gweld neu eu darllen gan dderbynnydd neu grŵp penodol o bobl. Mae rhai gwasanaethau'n amgryptio negeseuon. Yn ogystal â thestun, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr rannu nodiadau llais, delweddau a fideos, a gwneud a derbyn galwadau fideo. Mae rhai gwasanaethau negeseuon lefel uchel hefyd yn wasanaethau cyfryngau cymdeithasol; mae'r gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol hyn yn cael eu harchwilio yn yr adran Cyfryngau Cymdeithasol.

Wrth i Ipsos iris fesur yr ymweliadau â gwefannau ac apiau, cynhaliodd Ofcom arolwg i ddeall y defnydd o wasanaethau negeseuon, ar safleoedd aml-wasanaeth poblogaidd fel gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnwys negeseuon a swyddogaethau galwadau fel rhan o'u cynnig cyffredinol (fel Facebook Messenger ar Facebook), ac ar wasanaethau galwadau a negeseuon penodol (fel Telegram). Cynhaliwyd yr arolwg ar 2-3 Gorffennaf 2024, a gofynnodd am y defnydd o'r gwasanaethau yn ystod y mis diwethaf (h.y. Mehefin 2024).

## WhatsApp, Facebook Messenger ac Instagram Direct sy'n eiddo i Meta oedd y tri gwasanaeth negeseuon a ffonio mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn

WhatsApp (gwefan neu ap), sy'n eiddo i Meta, oedd y gwasanaeth negeseuon mwyaf poblogaidd o hyd, gan gyrraedd 87% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2024. Roedd chwe deg pedwar y cant o oedolion ar-lein yn y DU yn defnyddio WhatsApp bob dydd ym mis Mai 2024, cynnydd o 6pc o'i

gymharu â mis Mai 2023 (58%).[105] Yn yr un modd, canfu arolwg Ofcom fod 86% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi defnyddio WhatsApp ym mis Mehefin 2024, wedi'i ddilyn gan Facebook Messenger gyda 59% a negeseuon uniongyrchol Instagram[106] gyda 30%.[107]

Er bod cyfansoddiad rhywedd cynulleidfaoedd WhatsApp wedi'i rannu'n weddol gyfartal ym mis Mai 2024 (dynion 47% o'i gymharu â menywod 53%), mae rhai gwasanaethau'n gwyro tuag at gynulleidfa wrywaidd. Dynion oedd yn cyfrif am chwe deg chwech y cant o oedolion a oedd wedi ymweld â Telegram ym mis Mai 2024 (34% o fenywod), ac roedd cynulleidfa oedolion ar Discord wedi'i rhannu yn yr un modd yn ôl rhywedd (66% o ddynion o'i gymharu â 34% o fenywod).[108] Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r ffigur o'r Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau gan Ofcom, sy'n dangos bod dynion yn cyfrif am dros dri o bob pump o chwaraewyr consol a PC – y prif gymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan Discord.[109]

Er nad oedd ein harolwg ym mis Gorffennaf yn cynnwys Microsoft Teams ac Apple Facetime, canfu ein traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau fod 24% o bobl dros 15 oed yn defnyddio Microsoft Teams a 31% yn defnyddio Facetime yn 2023.[110]

**Ffigur 33: Cyrhaeddiad ar-lein oedolion y DU o'r deg gwasanaeth negeseuon / galwadau ar-lein mwyaf poblogaidd a'r amser a dreulir ar gyfartaledd: Mai 2024**

| Safle | Gwasanaeth negeseuon neu alwadau | Cyfanswm cynulleidfa oedolion mewn mis | | | | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024 | Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio gan ddefnyddiwr ym mis Mai 2024 (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | Newid o un flwyddyn i'r llall | | |
| 1 | **WhatsApp** | 40.0m | 40.9m | 41.4m | +0.5m | 87% | 07:41 |
| 2 | **Facebook Messenger*** | 32.8m | 33.4m | 30.4m | -3.0m | 64% | 03:39 |
| 3 | **Google Messages** | 9.7m | 10.7m | 12.7m | +2.0m | 27% | 01:16 |
| 4 | **Zoom** | 8.6m | 7.1m | 6.7m | -0.4m | 14% | 00:45 |
| 5 | **Discord** | 4.4m | 5.9m | 6.2m | +0.3m | 13% | 04:41 |
| 6 | **Ap Phone by Google** | 4.7m | 5.0m | 5.4m | +0.4m | 11% | 02:33 |

[105] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) WhatsApp, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[106] Gan nad yw negeseuon uniongyrchol Instagram yn safle annibynnol, nid yw'n cael ei fesur yn Ipsos iris.
[107] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.
[108] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[109] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023 Ofcom.
[110] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023 Ofcom. Sylwer: Nid oes adroddiad ar y rhain yn Ipsos iris nac ym mhleidlais panel ymchwil Ar-lein Ofcom: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7** | **Telegram** | 2.6m | 3.2m | 3.4m | +0.3m | 7% | 01:14 |
| **8** | **Google Meet** | 118k | 3.2m | 3.0m | -0.3m | 6% | 00:17 |
| **9** | **Skype** | 1.7m | 1.9m | 1.7m | -0.2m | 4% | 01:13 |
| **10** | **Signal** | 943k | 1.1m | 1.2m | +0.1m | 2% | 02:24 |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Gellir cael mynediad at wasanaeth negeseuon Facebook drwy brif lwyfan Facebook ac nid yw'n cael ei gyfrif yma. Mae'n cynnwys defnyddwyr ap Facebook Messenger, neu messenger.com. Nid yw Microsoft Teams wedi'i gynnwys gan nad yw'r defnydd o ap bwrdd gwaith yn cael ei fesur. Mae'r blychau gwyrdd yn nodi cynnydd Mai 2024 o un flwyddyn i'r llall, tra bo'r blychau coch yn nodi gostyngiad.*

WhatsApp oedd y gwasanaeth negeseuon a galwadau mwyaf poblogaidd, ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau nodedig yn ôl grŵp oedran rhwng rhai o'r gwasanaethau poblogaidd eraill. Negeseuon uniongyrchol Instagram oedd yr ail wasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg oedolion ar-lein y DU 16-24 oed (71%), wedi'i ddilyn gan Snapchat messenger (62%). Ac er mai Facebook Messenger yw'r ail wasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr ar-lein 16 oed a hŷn, mae ei gyrhaeddiad yn cael ei sbarduno'n bennaf gan y rheini sy'n 25 oed a hŷn; dyma'r chweched gwasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg pobl ifanc 16-24 oed ar-lein (40%), a'r ail wasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg pob grŵp oedran oedolion arall.[111]

### Ffigur 34: Gwasanaethau negeseuon a galwadau a ddefnyddir gan ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn: Mehefin 2024




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 7: Gan feddwl am y mis diwethaf (h.y. ers dechrau mis Mehefin)... Pa rai, os o gwbl, o'r gwasanaethau cyfathrebu canlynol ydych chi wedi'u defnyddio? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol). Nid yw'r ymatebion ar gyfer Google messages yn cael eu dangos. Nid yw'r ymatebion 'dim un o'r rhain' a 'ddim yn gwybod' yn cael eu dangos ychwaith. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Oedran: 16+ (2100).*

[111] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

## Pedwar deg tri y cant o ddefnyddwyr Snapchat Messenger y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi anfon delwedd neu fideo sy'n diflannu ar y gwasanaeth ym mis Mehefin 2024

Mae rhai gwasanaethau negeseuon yn cynnig y gallu i ddefnyddwyr anfon negeseuon sy'n 'diflannu', y cyfeirir atynt hefyd fel negeseuon byrhoedlog; mae WhatsApp yn cyfeirio at y swyddogaeth hon fel 'gweld unwaith' – mae'r neges yn diflannu'n awtomatig o sgrin y derbynnydd ar ôl iddi gael ei gweld. Anfon delweddau neu fideos sy'n diflannu yw'r drydedd nodwedd fwyaf poblogaidd ar Snapchat, y tu ôl i negeseuon testun ac anfon delweddau neu fideos. Mae pum deg saith y cant o ddefnyddwyr Snapchat 16-24 oed wedi'i ddefnyddio i anfon delwedd neu fideo sy'n diflannu. WhatsApp a Telegram oedd y gwasanaethau eraill yn ein hymchwil presennol sy'n cynnig swyddogaethau gweld unwaith neu ddelweddau/fideos sy'n diflannu: dywedodd 9% a 12% o ddefnyddwyr eu bod wedi defnyddio'r swyddogaethau hyn, yn y drefn honno. Y dull mwyaf poblogaidd o gyfathrebu ar yr holl wasanaethau y gofynnwyd amdanynt yn ein hymchwil oedd anfon negeseuon testun.[112]

**Ffigur 35: Swyddogaethau a ddefnyddir gan y rheini sy'n 16 oed a hŷn a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r gwasanaethau negeseuon a galwadau: Mehefin 2024**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 8: Pa rai o'r gweithgareddau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud ar y gwasanaethau cyfathrebu rydych chi wedi'u defnyddio yn ystod y mis diwethaf? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol ym mhob rhes). Nid yw'r ymatebion ar gyfer Google messages yn cael eu dangos. Nid yw'r ymatebion 'dim un o'r rhain' a 'ddim yn gwybod' yn cael eu dangos ychwaith. Nid yw pob gwasanaeth negeseuon a galwadau yn cynnig swyddogaeth diflannu/gweld unwaith. Gellir cychwyn galwadau Apple Facetime yn iMessage a allai esbonio pam fod yr ymatebwyr wedi dewis iMessage. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ sydd wedi defnyddio gwasanaethau cyfathrebu dethol yn ystod y mis diwethaf (183-1803).*

## Dau ddeg pedwar y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn yn y DU yn dweud eu bod wedi dilyn sianel ddarlledu ar wasanaeth sy'n eiddo i Meta

Mae sianeli darlledu yn nodwedd ddarlledu unffordd yn adran negeseuon rhai gwasanaethau sy'n eiddo i Meta – WhatsApp, Instagram a Facebook Messenger. Gall defnyddwyr ddilyn gwybodaeth

[112] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

gan bobl a sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Gall gweinyddwyr sianeli anfon negeseuon testun, delweddau, fideos, sticeri a pholau piniwn. Ar adeg ein hymchwil, ni allai defnyddwyr sy'n dilyn y sianeli darlledu ond ymateb i'r sianeli darlledu neu bleidleisio mewn polau piniwn.

Dywedodd dau ddeg pedwar y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn yn y DU eu bod wedi dilyn sianel ddarlledu: Roedd 17% yn dilyn sianel ddarlledu ar WhatsApp, 14% ar Instagram a 13% ar Facebook Messenger. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol nag oedolion hŷn o ddilyn sianel ddarlledu; roedd 42% o bobl ifanc 16-24 oed ar-lein yn dilyn o leiaf un sianel ddarlledu ar unrhyw un o'r tri gwasanaeth sy'n eiddo i Meta, a dim ond 19% o'r rheini sy'n 55 oed a hŷn oedd yn gwneud yr un fath. Ymysg y rhai sy'n dilyn sianel ddarlledu, y pwnc mwyaf poblogaidd oedd pêl-droed, gyda 36% yn dweud eu bod yn dilyn sianel o'r fath. Yr ail bwnc chwaraeon mwyaf poblogaidd oedd tenis (9%), ac wedyn criced (8%); mae'n bosibl bod amseriad yr ymchwil wedi dylanwadu ar hyn, a gafodd ei gynnal yn fuan ar ôl Wimbledon a Chwpan Criced y Byd.[113]

**Ffigur 36: Y 5 prif bwnc sy'n cael eu dilyn gan ddefnyddwyr sianeli darlledu yn y DU sy'n 16 oed a hŷn: Gorffennaf 2024**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 10: Fe ddywedoch chi o'r blaen eich bod yn dilyn sianeli darlledu ar o leiaf un gwasanaeth sy'n eiddo i Meta...Pa rai o'r pynciau canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu dilyn gan ddefnyddio sianel/sianeli darlledu? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol). Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16 oed a hŷn sy'n dilyn sianel ddarlledu Meta (512).*

## Cwrdd â chariad

Mae gwasanaethau cwrdd â chariad ar-lein yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr greu cysylltiadau rhamantus neu wneud ffrindiau newydd drwy negeseuon a galwadau. Mae defnyddwyr yn aml yn cael eu paru gan ddefnyddio algorithmau sy'n defnyddio'r wybodaeth mae defnyddwyr yn ei rhoi wrth greu eu proffiliau. Mae defnyddwyr fel arfer yn gallu hidlo yn ôl nodweddion demograffig a lleoliad.

[113] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

Mae llawer o wasanaethau cwrdd â chariad yn gweithredu model busnes rhad ac am ddim, lle mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig am ddim gyda nodweddion cyfyngedig, ond gall defnyddwyr uwchraddio i wasanaethau am dâl. Mae ffrydiau refeniw yn cynnwys tanysgrifiadau a/neu bryniannau mewn apiau.

## Bu gostyngiad yn nefnydd oedolion y DU o bob un o'r tri gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd

Ym mis Mai 2024, roedd un i bob deg (10%, 4.9m) o oedolion ar-lein y DU wedi defnyddio gwasanaeth cwrdd â chariad, sy'n debyg i'r ffigur y llynedd, sef 11% (Mai 2023). Roedd bron i 4% o oedolion ar-lein y DU (3.8%, 1.8m) wedi defnyddio gwasanaeth cwrdd â chariad ar-lein yn ddyddiol ym mis Mai 2024. Mae gwasanaethau cwrdd â chariad Match Group, sy'n cynnwys Tinder, Hinge, Plenty of Fish a Match.com, gyda'i gilydd wedi cyrraedd 6% o oedolion ar-lein y DU (2.9m) ym mis Mai 2024 (o'i gymharu â 3.2 miliwn y flwyddyn flaenorol). Tinder yw'r portffolio Match Group mwyaf poblogaidd o blith y gwasanaethau cwrdd â chariad o hyd, gan fod 1.9 miliwn (4%) o oedolion ar-lein y DU yn ei ddefnyddio, ond mae'r ffigur hwn wedi gostwng 600k (5%) o 2.5 miliwn o ddefnyddwyr yn 2023. Roedd Bumble Inc., sy'n berchen ar Bumble a Badoo, wedi cyrraedd 1.4 miliwn o oedolion ar-lein y DU (3%) ym mis Mai 2024 (300k yn llai o'i gymharu â 1.7 miliwn yn 2023); roedd 2% yn defnyddio Bumble, tra'r oedd 1% yn defnyddio Badoo.[114]

Er mai dim ond gostyngiad bach sydd yn nifer y defnyddwyr ar-lein y DU ers y llynedd, mae rhai dadansoddwyr yn tybio nad oes gan bobl ifanc, yn enwedig 'Cenhedlaeth Z', ddiddordeb mewn apiau cwrdd â chariad.[115] Mae Match Group wedi adrodd gostyngiad mewn tanysgrifwyr Tinder am sawl chwarter yn olynol.[116] Ym mis Ionawr 2024, dywedodd y grŵp y bydd tîm Tinder yn canolbwyntio ar "*lunio profiad o fewn yr ap sy'n cyd-fynd yn well â defnyddwyr iau heddiw",* ar ôl canfod bod defnyddwyr cenhedlaeth 'Cenhedlaeth Z' yn ceisio *"ffyrdd mwy dilys o ddod o hyd i gysylltiadau, ac sy'n rhoi llai o bwysau*".[117] Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y byddai Tinder yn "*gweithio i sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel i ddefnyddwyr, yn enwedig i fenywod"* ac yn profi rhai nodweddion newydd yn unol â hynny. Serch hynny, bach yw'r gostyngiad o ran cynulleidfaoedd a'r ffigurau o ran yr amser a dreulir ar wasanaethau cwrdd â chariad ar-lein, ac mae angen monitro ymhellach i weld a yw'r dirywiad presennol yn dod yn batrwm.

Eleni, mae Sniffies a Scruff o blith y deg gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd, ac maent yn cael eu marchnata fel gwasanaethau cwrdd â chariad a rhwydweithio cymdeithasol LHDTC+ i ddynion. Y llynedd, Scruff oedd y 14eg gwasanaeth mwyaf poblogaidd gyda 0.3% o oedolion y DU yn ei ddefnyddio (122k), ac eleni dyma'r 9fed gwasanaeth mwyaf poblogaidd gyda 0.4% (182k) yn ei ddefnyddio. Roedd maint y sail ar gyfer Sniffies yn rhy isel i gael data y gellir adrodd arnynt ym mis

---

[114] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: Gwasanaethau cwrdd â chariad ar-lein, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[115] Bustle, Dating apps are in their flop era, 8 Ionawr 2024, [cyrchwyd 19 Gorffennaf 2024]; New York Times, It's not you: dating apps are getting worse, 16 Mawrth 2024, [cyrchwyd 19 Gorffennaf 2024]; CNN, Tinder downloads are falling but the dating app era isn't over yet, 14 Chwefror 2024, [cyrchwyd 19 Gorffennaf 2024]; BBC, Tinder parent company cuts jobs as subscriber numbers slump, 31 Gorffennaf 2024, [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2024].
[116] Match Group, Letter to Shareholders, Ch2 2024, 30 Gorffennaf 2024, [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2024]. Fel y nodwyd yn: BBC, Tinder parent company cuts jobs as subscriber numbers slump, 31 Gorffennaf 2024, [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2024].
[117] Match Group, Letter to Shareholders, C4 2023, 30 Ionawr 2024. Fel y nodwyd yn: CNN, Tinder downloads are falling but the dating app era isn't over yet, 14 Chwefror 2024, [cyrchwyd 19 Gorffennaf 2024].

Mai 2023, er bod 112k wedi'i ddefnyddio ym mis Mai 2022 (0.2%). Mae'r amser a dreulir ar y gwasanaeth yn isel, sy'n awgrymu bod defnyddwyr yn cael eu cyfeirio at y safle gan wasanaethau ar-lein eraill ac efallai nad ydynt yn ddefnyddwyr ymroddedig.[118]

Mae llawer o bobl yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth cwrdd â chariad, gyda Tinder yn cael ei ddefnyddio'n eang gan y rheini sydd hefyd yn defnyddio llwyfannau cwrdd â chariad eraill. Roedd dros hanner y defnyddwyr sy'n ymweld â Bumble (57%), Hinge (56%) a Plenty of Fish (54%) hefyd wedi defnyddio Tinder yn ystod mis Mai 2024. Roedd pum deg tri y cant o ddefnyddwyr sy'n ymweld â Bumble a 41% o ddefnyddwyr sy'n ymweld â Twitter hefyd wedi defnyddio Hinge yn ystod y mis, ac roedd y rhan fwyaf (82%) o'r rheini a ymwelodd â Scruff wedi ymweld â Grindr hefyd.[119]

**Ffigur 37: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU a'r amser a dreulir ar y deg gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd: Mai 2024**

| | Gwasanaeth | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2022 | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023 | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024 | Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio ym mis Mai 2024 (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Tinder | 2,155k | 2,488k | 1894k | -594k | 4.0% | 01:03 |
| 2 | Hinge | 1,042k | 1,510k | 1378k | -131k | 2.9% | 02:34 |
| 3 | Bumble | 1,220k | 1,440k | 1072k | -368k | 2.3% | 02:09 |
| 4 | Grindr | 790k | 924k | 913k | -11k | 1.9% | 07:02 |
| 5 | Badoo | 490k | 482k | 521k | +39k | 1.1% | 01:49 |
| 6 | Squirt | 460k | 530k | 438k | -92k | 0.9% | 00:07 |
| 7 | Plenty of Fish | 537k | 625k | 378k | -247k | 0.8% | 01:34 |
| 8 | Sniffies | 112k | - | 310k | - | 0.7% | 00:01 |
| 9 | SCRUFF | 117k | 122k | 182k | +60k | 0.4% | 00:50 |
| 10 | Match | 287k | 209k | 182k | -27k | 0.4% | 01:34 |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Mae llinell doriad yn cynrychioli data nad yw ar gael ar gyfer y cyfnod hwnnw.*

[118] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[119] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

## Er mai Tinder yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd o hyd, roedd yr amser a dreuliwyd arno yn llawer is nag ar lwyfannau eraill

Treuliodd yr ymwelwyr ychydig dros awr ar gyfartaledd (1 awr 3 munud) ar Tinder ym mis Mai 2024, o'i gymharu â dwy awr a hanner ar Hinge (2 awr 34 munud) a dwy awr ar Bumble (2 awr 9 munud). Grindr, sef y pumed gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd, oedd â'r amser hiraf sy'n cael ei dreulio ar wasanaeth cwrdd â chariad o bell ffordd fesul ymwelydd; roedd yr ymwelydd cyffredinol wedi treulio saith awr (7 awr 2 funud) ar y llwyfan ym mis Mai 2024. Mae'r amseroedd hyn yn dal i fod yn debyg i'r llynedd.[120]

## Bron i un o bob pump o bobl 18-24 oed ar-lein y DU yn defnyddio gwasanaethau cwrdd â chariad ym mis Mai 2024

Roedd gwasanaethau cwrdd â chariad ar-lein wedi cyrraedd 18% (943k) o bobl 18-24 oed ym mis Mai 2024, sef y cyrhaeddiad uchaf ymysg unrhyw grŵp oedran oedolion. Pobl 25-34 oed oedd â'r ail gyrhaeddiad uchaf, gyda 17% (1.5m) yn ymweld ag o leiaf un gwasanaeth cwrdd â chariad yn ystod y mis. Fodd bynnag, treuliodd y grŵp oedran 25-34 oed awr yn hirach ar gyfartaledd na phobl ifanc 18-24 oed ar wasanaethau cwrdd â chariad yn ystod y mis (3 awr 7 munud o'i gymharu â 2 awr 6 munud). Er mai dim ond cyfran fach (6%, 468k) o bobl 55-64 oed oedd wedi defnyddio gwasanaeth cwrdd â chariad ar-lein ym mis Mai 2024, y rheini a oedd wedi ymweld ag ef oedd wedi treulio'r amser mwyaf arno: 5 awr 43 munud ar gyfartaledd ar wasanaethau cwrdd â chariad ar-lein yn ystod y mis.[121]

O ran pa wasanaeth cwrdd â chariad oedd gwahanol grwpiau oedran yn fwyaf tebygol o ymweld ag ef, roedd Hinge yn gwyro fwyaf tuag at oedolion iau, gyda 72% o ddefnyddwyr 18-34 oed, wedi'i ddilyn gan Tinder gyda 66%. Roedd defnyddwyr Plenty of Fish, Match a Scruff yn gwyro mwy tuag at oedolion hŷn; roedd mwy na hanner yr ymwelwyr yn 35-54 oed ar Plenty of Fish (59%) ac ar Match (54%).[122]

[120] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[121] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[122] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 38: Y deg gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad oedolion, cyfansoddiad y gynulleidfa yn ôl oedran: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedolion: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.*

## Er bod mwy o ddynion na menywod o hyd ar wasanaethau cwrdd â chariad ar-lein yn gyffredinol, roedd Hinge yn fwy poblogaidd ymysg menywod ym mis Mai 2024

O'r oedolion a oedd yn defnyddio llwyfannau cwrdd â chariad ar-lein ym mis Mai 2024, roedd 65% ohonynt yn ddynion ac roedd 35% yn fenywod, o'i gymharu â 61% o ddynion a 39% o fenywod yn y flwyddyn flaenorol (Mai 2023). Mae mwy o ddynion na menywod o hyd ar y rhan fwyaf o wasanaethau cwrdd â chariad ar-lein. Hinge oedd yr unig wasanaeth yn y deg uchaf lle roedd mwy o fenywod na dynion yn ymweld ag ef; o blith yr oedolion a oedd yn ymweld â Hinge ym mis Mai 2024, menywod oedd 53% o'r rheini, sef cynnydd o 3 pwynt canran o'i gymharu â mis Mai 2023 (50%).[123]

Match a Bumble oedd gan y gyfran uchaf nesaf o ymwelwyr benywaidd ym mis Mai 2024, gyda 41% ar gyfer pob un. Yng Ngwanwyn 2024, roedd Bumble, sy'n adnabyddus am alluogi menywod yn unig i ddechrau sgyrsiau, wedi cyflwyno nodwedd newydd '*Opening Move*' sydd (mewn cysylltiadau heterorywiol) yn galluogi dynion i anfon y neges gyntaf i ymateb i neges '*Opening Move*' sydd wedi'i hysgrifennu ymlaen llaw gan fenyw.[124] Eglurodd Bumble fod y nodwedd newydd yn "*lleihau'r baich o ddechrau sgwrs ond yn dal i alluogi menywod i reoli eu proffiad*".[125] Yn y cyfamser, mae gan wasanaethau cwrdd â chariad ar gyfer pobl LHDTC+ Scruff, Grindr, Snifies a Skirt gyfran uchel o ddefnyddwyr gwrywaidd.[126]

---

[123] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[124] Mewn cysylltiadau anneuaidd a'r un rhywedd, gall y naill berson neu'r llall osod ac ymateb i'r neges '*opening move*'. Ffynhonnell: Bumble, [Opening Moves], [cyrchwyd 12 Gorffennaf 2024].
[125] TechCrunch, [Bumble's Opening Move feature takes the pressure off women to come up with a new message every time], 30 Ebrill 2024,; Forbes, [Men Can Now Initiate Conversations On Bumble—Here's Why It Matters], 3 Mai 2024.
[126] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 39: Y deg gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad oedolion, cyfansoddiad y gynulleidfa yn ôl rhywedd: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.*

## Bron i 2 filiwn o oedolion y DU wedi defnyddio gwasanaeth cwrdd â chariad ar-lein ar Ddydd San Ffolant 2024

Roedd pedwar y cant (1.91m) o oedolion ar-lein yn y DU wedi ymweld â gwasanaeth cwrdd â chariad ar-lein ddydd Mercher 14 Chwefror 2024, gan dreulio 19 munud ar gyfartaledd ar draws y gwasanaethau. Nid oedd nifer yr ymwelwyr ar Ddydd San Ffolant yn sylweddol uwch na'r arfer, fodd bynnag; roedd cynulleidfa oedolion y gwasanaethau cwrdd â chariad ar-lein yn fwy na 2 filiwn y dydd ar y penwythnos ar ôl Dydd San Ffolant (17 Chwefror 2.03m, 18 Chwefror 2.00m). Roedd pedwar y cant o oedolion ar-lein y DU (1.87m) wedi ymweld â gwasanaeth cwrdd â chariad ar-lein yn ddyddiol ym mis Chwefror 2024. Roedd dros hanner (55%) y defnyddwyr yn 18-34 oed, sef 8% (1.0m) o'r grŵp oedran ar-lein hwn. Er mai dynion oedd y rhan fwyaf o'r holl oedolion a oedd yn ymweld ag un o'r gwasanaethau hyn ar y diwrnod hwn (61% yn ddynion a 39% yn fenywod), roedd y gwahaniaeth rhwng y rhywiau ymysg pobl ifanc 18-34 oed yn fwy cyfartal; o blith y defnyddwyr 18-34 oed, roedd 54% yn ddynion ac roedd 46% yn fenywod.[127]

Y pum gwasanaeth a gafodd eu defnyddio amlaf ar y diwrnod hwnnw, yn nhrefn eu cyrhaeddiad, oedd Tinder (711k), Hinge (669k), Bumble (448k), Grindr (389k) a Plenty of Fish (170k). Y gwasanaethau newydd o blith y rhai mwyaf poblogaidd o'i gymharu â mis Mai 2024 oedd Feeld (57k) yn yr 8$^{fed}$ safle a Boo (32k) yn y 10$^{fed}$ safle.[128]

Fodd bynnag, Hinge oedd y gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd ymhlith menywod sy'n oedolion ar Ddydd San Ffolant 2024, sy'n cyd-fynd â data mis Mai 2024. Roedd mwy o fenywod sy'n oedolion wedi ymweld â Hinge ar y diwrnod hwn (320k) o'i gymharu â Tinder (260k) a Bumble

[127] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[128] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

(168k). Yn y cyfamser, ar ôl Tinder (451k), roedd mwy o ddynion sy'n oedolion wedi ymweld â Grindr (384k) na Hinge (349k).[129]

# Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig

Mae gwasanaethau ar gyfer cynnwys[130] pornograffig yn darparu, neu'n galluogi, rhannu cynnwys pornograffig yn bennaf (sydd weithiau'n cael ei ddisgrifio fel 'cynnwys i oedolion'). Gall y cynnwys hwn gael ei gyhoeddi neu ei arddangos ar ffurf testun, fideos a delweddau neu sain, neu ei ddarparu mewn fformat byw neu ryngweithiol. Gall defnyddwyr hefyd chwilio weithiau am gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a chysylltu â'i gilydd. Mae rhai gwasanaethau'n cael eu galw'n 'safleoedd tiwb' ac yn canolbwyntio ar lwytho delweddau neu fideos sydd wedi'u recordio ymlaen llaw i fyny. Mae eraill yn cael eu galw'n 'wefannau camerâu byw' ac maen nhw'n cael eu defnyddio gan grewyr cynnwys i ffrydio cynnwys yn fyw i gwsmeriaid, a gallai alluogi rhyngweithio rhwng perfformwyr a gwylwyr. Efallai y bydd rhai crewyr cynnwys yn defnyddio 'llwyfannau dilynwyr' lle maen nhw'n gwerthu mynediad at gynnwys ar sail tanysgrifiad neu 'farchnadoedd clipiau' lle maen nhw'n gwerthu mynediad at ddarnau o gynnwys ar wahân.[131] Mae cynnwys â thâl yn gyffredin ar wasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig, ond mae llawer o wasanaethau am ddim yn dibynnu ar hysbysebu i gynhyrchu cyfran fawr o'u refeniw. Mae rhai gwasanaethau, sy'n aml yn cael eu rhedeg gan stiwdios sy'n cynhyrchu cynnwys, yn mynnu bod defnyddwyr yn prynu tanysgrifiad misol.

## Roedd dau-ddeg-naw y cant o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig ym mis Mai 2024

Roedd dau-ddeg-naw y cant (13.8m) o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio gwasanaeth cynnwys pornograffig ym mis Mai 2024, sy'n aros yn sefydlog â'r ddwy flynedd flaenorol (Mai 2023: 29%, Mai 2022: 31%).[132] Yn ystod hanner cyntaf 2024, yr amser cyfartalog misol a dreuliwyd ar wasanaethau cynnwys pornograffig gan ymwelwyr sy'n oedolion yn y DU oedd 1 awr 33 munud; gostyngiad o 10% (-11 munud) o'i gymharu â hanner cyntaf 2023 (cyfartaledd misol o 1 awr 44 munud).[133] Gogledd Iwerddon oedd y wlad yn y DU â'r cyrhaeddiad uchaf ymysg oedolion ar-lein, gyda 34% (431k) yn defnyddio gwasanaethau cynnwys pornograffig ym mis Mai 2024, ac yna Cymru (32%, 694k), yr Alban (30%, 1.2m) a Lloegr (29%, 11.5m).[134]

[129] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, 14 Chwefror 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[130] Sylwch y gall data Ipsos iris ar gyfer gwasanaethau cynnwys pornograffig fod yn ffigurau sylfaenol oherwydd gall panelwyr ddewis defnyddio dyfeisiau nad ydynt yn cael eu tracio i ymweld â safleoedd o'r fath.
[131] Free speech coalition, Guidance for service providers publishing pornographic content, cyrchwyd 10 Medi 2024
[132] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: cynnwys anweddus i oedolion, Mai 2022/2023/2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[133] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: cynnwys anweddus i oedolion, cyfartaledd misol: Ionawr - Mehefin 2023 ac Ionawr - Mehefin 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: 1 awr 32 munud ym mis Mai 2024.
[134] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: cynnwys anweddus i oedolion, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr y rhyngrwyd, gwledydd y DU.

## Pornhub yw'r gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd o hyd ymysg oedolion ar-lein yn y DU

Pornhub yw'r gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd o hyd ar draws cenhedloedd, i ddynion a menywod, a phob grŵp oedran oedolion, gyda 18% (8.4m) o oedolion ar-lein yn y DU yn ymweld â'r gwasanaeth ym mis Mai 2024. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ddwy flynedd flaenorol. Treuliodd ymwelwyr sy'n oedolion 50 munud ar gyfartaledd ar Pornhub yn ystod y mis (Mai 2023: 52 munud). Pobl rhwng 25 a 34 oed oedd yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o gynulleidfa Pornhub (31%, 2.6m), a'r cyrhaeddiad yn y grŵp oedran ar-lein hwn oedd yr uchaf (30%) o blith unrhyw grŵp oedran. Ffonau clyfar oedd y ddyfais a oedd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio gan oedolion yn y DU i ymweld â Pornhub, gydag 84% o'r amser a dreuliwyd ar Pornhub ym mis Mai 2024 yn cael ei briodoli i ffonau clyfar, canran uwch nag unrhyw un o'r deg gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd eraill.[135] Yn ôl Pornhub, y DU oedd y bumed wlad uchaf o ran traffig dyddiol i'w wefan yn 2023, sydd wedi disgyn tri lle a chael ei oddiweddyd gan Ynysoedd Philippines, Ffrainc a Mecsico (yr Unol Daleithiau sy'n dal ar y brig).[136]

**Ffigur 40: Cyfran o gyfanswm yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein gan oedolion y DU ar y deg gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd, yn ôl dyfais: Mai 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: cynnwys anweddus i oedolion, Mai 2024, oedran: 18+, y DU. Sylwer: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

Chaturbate oedd yr ail wasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd ar-lein, a gyrhaeddodd 10% (4.8m) o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024, gyda chynnydd graddol o 22% (865k) yn ei gynulleidfa o oedolion ers mis Mai 2022 (8%, 3.9m). Roedd Chaturbate, sy'n cael ei farchnata'n helaeth, wedi ychwanegu 550k at gyfanswm ei gynulleidfa o oedolion yn y DU ym mis Mai 2024 o'i gymharu â mis Ebrill 2024, ac roedd wedi cynyddu ei gyrhaeddiad i 11% (5.3m) erbyn mis Awst 2024 (+515k).[137] Mae Chaturbate yn defnyddio model lle mae deiliaid cyfrifon yn cael eu hannog a'u gwobrwyo'n ariannol am ailgyfeirio traffig ato o wasanaethau eraill. Mae cynulleidfa fisol Eporner

---

[135] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Pornhub, Mai 2023/2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[136] Pornhub Insights, Year in Review 2023, 9 Rhagfyr 2023.
[137] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Ebrill 2024 - Awst 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

(Mai 2024: cyrhaeddiad o 3%, 1.3m) wedi cynyddu 59% ers mis Mai 2023 (cyrhaeddiad o 2%, 810k) ac mae bron wedi treblu ers mis Mai 2022 (cyrhaeddiad o 1%, 440k).[138]

Y gostyngiadau mwyaf o ran cyrhaeddiad ymysg y deg prif wasanaeth cynnwys pornograffig oedd safle Xvideos sy'n eiddo i WGCZ (Mai 2024: 7%, 3.5m), a gollodd 13% (523k) o'i gynulleidfa ers mis Mai 2022, ac Xnxx (Mai 2024: cyrhaeddiad o 5%, 2.2m) a gollodd 14% (366k) – gweler Ffigur 41 isod.[139]

Roedd gan Stripchat (4 munud), Livejasmin (3 munud) a Fap house (2 funud) funudau cyfartalog isel fesul ymwelydd ym mis Mai 2024 o'i gymharu â'r amser a dreuliwyd ar y gwasanaethau cynnwys pornograffig eraill yn y deg uchaf.[140] Gallai hyn fod oherwydd nifer uchel o gliciau damweiniol neu ofynnol ar faner amlwg neu hysbysebion cyn y fideos ar wasanaethau cynnwys pornograffig eraill, sy'n arwain at dreulio ychydig iawn o amser ar y gwasanaethau hyn ar gyfartaledd.

**Ffigur 41: Y deg gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024, yn ôl yr amser a dreulir ar gyfartaledd gan ymwelwyr (miliynau): 2022-2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: cynnwys anweddus i oedolion, Mai 2022/2023/2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

## Mae dynion dros ddwywaith yn fwy tebygol na menywod o ymweld â gwasanaeth cynnwys pornograffig

Roedd dynion yn dal i fod yn llawer mwy tebygol o ymweld â gwasanaeth cynnwys pornograffig, ac yn cyfrif am 72% o gynulleidfa gwasanaethau cynnwys pornograffig oedolion y DU ym mis Mai 2024 (menywod 28%), gan gyd-fynd â'r flwyddyn flaenorol (Mai 2023: dynion 73%, menywod 27%). Roedd hyn yn gyrhaeddiad o 43% (10.0m) o ddynion ar-lein yn y DU, o'i gymharu â 16% (3.8m) o fenywod ar-lein yn y DU. Treuliodd ymwelwyr gwrywaidd 1 awr 44 munud ar gyfartaledd yn ymweld â

[138] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[139] ibid.
[140] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

gwasanaethau cynnwys pornograffig ym mis Mai 2024, gydag ymwelwyr benywaidd yn treulio awr ar gyfartaledd.[141]

Cynulleidfa Pornhub oedd â'r gyfran uchaf o ymwelwyr benywaidd o blith unrhyw un o'r deg prif wasanaeth (29%), sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y categori o 28%. OnlyFans oedd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddominyddu fwyaf gan ddynion; dim ond 8% o'i ymwelwyr sy'n fenywod. Os edrychwn yn ehangach ar y prif 50 safle, dim ond dau wasanaeth arall sy'n ymddangos yno, sef gwasanaeth ffuglen erotig Literotica (Mai 2024: cyrhaeddiad o 1%, 542k) gyda chyfran fenywaidd o 45%, ac Xcams (Mai 2024: cyrhaeddiad o 1%, 381k) gyda 52%, sydd â chyfran uwch o ymwelwyr benywaidd na chyfartaledd y categori. Roedd Bellessa, sydd yn y 107fed safle (cyrhaeddiad o 0.2%, 113k) – gwasanaeth fideo, ffuglen a manwerthu pornograffig sydd wedi'i anelu'n benodol at fenywod – wedi dal gafael ar y gyfran uchaf o ddefnyddwyr benywaidd o blith unrhyw wasanaeth gyda 66% ym mis Mai 2024, yn unol â 65% ym mis Mai 2023.[142]

**Ffigur 42: Cyfansoddiad rhywedd a chyrhaeddiad y deg gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd: Mai 2024 (miliynau)**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

# Newyddion

Mae modd i wasanaethau newyddion ar-lein gael eu darparu gan ddarparwyr newyddion traddodiadol sy'n cael eu darlledu neu eu hargraffu, tra bo rhai'n frodorion ar-lein (e.e. Huffington Post, Tortoise Media). Mae cyfryngwyr ar-lein hefyd, megis cyd-gasglwyr newyddion (e.e. Apple News), cyfryngau cymdeithasol a pheiriannau chwilio, sy'n dod â straeon newyddion o sawl ffynhonnell at ei gilydd. Canfu ymchwil Ofcom fod chwech o bob deg oedolyn yn y DU (59%) yn dweud eu bod yn defnyddio rhyw fath o gyfryngwr ar-lein i gael gafael ar newyddion. Meta (40%) a Google (32%) yw'r cyfryngwyr a ddefnyddir amlaf, sy'n cyrraedd tri chwarter yr holl oedolion. Erbyn

[141] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: cynnwys anweddus i oedolion, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[142] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

hyn, pedwar o’r deg ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd yw’r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook, YouTube, Instagram ac X).[143]

Mae gwasanaethau newyddion ar-lein yn cynhyrchu eu refeniw yn bennaf drwy hysbysebu, er bod tanysgrifiadau wedi tyfu’n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd refeniw hysbysebion digidol ar gyfer brandiau newyddion yn y DU yn £592m yn 2023, sydd wedi gostwng o £634m yn 2022, yn ôl AA/WARC.[144] Y BBC yw’r unig sefydliad newyddion yn y DU nad yw’n defnyddio’r naill fodel busnes na’r llall, gan ei fod yn cael ei gefnogi’n bennaf gan ffi’r drwydded.

## Roedd saith o bob deg oedolyn ar-lein yn y DU wedi ymweld ag o leiaf un gwasanaeth newyddion y dydd ym mis Mai 2024

Ym mis Mai 2024, canfu Ipsos iris[145] fod 97% o oedolion ar-lein yn y DU (45.8m) wedi ymweld â gwasanaeth newyddion, gan dreulio 11 munud y dydd ar gyfartaledd ar y gwasanaethau hyn yn ystod y mis, sydd yr un fath â’r flwyddyn flaenorol (Mai 2023: 97%, 12 munud). Roedd cyrhaeddiad dyddiol cyfartalog y gwasanaethau hyn hefyd yn uchel, gyda bron i saith o bob deg oedolyn ar-lein yn y DU (69%, 32.7m) ar gyfartaledd yn ymweld ag o leiaf un gwasanaeth newyddion bob dydd ym mis Mai 2024.[146]

Roedd gan y BBC y cyrhaeddiad uchaf (75%, 35.8m) a’r gynulleidfa ddyddiol gyfartalog uchaf (33%, 15.7m) ym mis Mai 2024. Roedd cyrhaeddiad oedolion yn y DU wedi codi dau bwynt canran o un flwyddyn i’r llall (Mai 2023: 73%, 34.9m) ond roedd wedi gostwng ychydig o’i gymharu â mis Mai 2022 (77%, 36.6m). The Sun oedd yr ail wasanaeth uchaf ymysg oedolion (49%, 23.1m) ym mis Mai 2024, ond fe welodd ostyngiad graddol mewn cyrhaeddiad, gan golli 3.0 miliwn o oedolion ers mis Mai 2022 (55%, 26.1m).

Ap cydgasglu newyddion Apple News, ynghyd ag ap Apple Weather, oedd yr wythfed gwasanaeth mwyaf poblogaidd yn gyffredinol (40%, 19.0m); ond os edrychir ar ap Apple News ar ei ben ei hun, gwelir bod 25% (11.9m) o oedolion ar-lein wedi’i ddefnyddio ym mis Mai 2024, sy'n ostyngiad bach o un flwyddyn i’r llall (Mai 2023: 27%, 12.9m). Y cyhoeddwr mwyaf poblogaidd ar ap Apple News oedd The Mirror, gyda 9.28% (4.4m) o oedolion ar-lein yn ymweld ag ef, ac yna The Guardian (9.27%, 4.4m) a The Times a The Sunday Times (9.27%, 4.4m).[147]

---

[143] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU 2024.
[144] Adroddiad Gwariant yr Advertising Association / WARC 2023.
[145] Pan fydd cyhoeddwyr newyddion wedi rhoi methodoleg tagio Ipsos iris ar waith, bydd ymweliadau â’u herthyglau, drwy Google AMP a Facebook Instant Articles yn nodi’r cynnwys sy’n cael ei weld drwy’r llwyfannau hyn ac yn priodoli cyrhaeddiad ac amser a dreulir i’r cyhoeddwr perthnasol. Cafodd cynnwys Apple News ei gategoreiddio ym mis Hydref 2023, efallai y bydd cynnydd graddol mewn cyrhaeddiad ar gyfer rhai gwasanaethau wrth gymharu data o un flwyddyn i’r llall.
[146] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Mae’r categori newyddion yn cynnwys ystod eang o wasanaethau, sy’n ymdrin â phynciau fel y celfyddydau a diwylliant, busnes ac arian, addysg, adloniant, ffordd o fyw, gwleidyddiaeth, technoleg ymysg eraill.
[147] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

## Ymysg gwledydd y DU, dim ond Cymru a Gogledd Iwerddon sydd â theitl lleol sy'n cyrraedd dros hanner y boblogaeth

Roedd y BBC, The Sun a Mail Online ymysg y pedwar prif wasanaeth newyddion ar gyfer holl wledydd y DU, er bod teitlau cenedlaethol yn dal gafael ar lefelau cyrhaeddiad uchel yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.[148]

Wales Online oedd yr ail wasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg oedolion yng Nghymru ym mis Mai 2024 (cyrhaeddiad o 55%, 1.19m), ac mae ei gyrhaeddiad yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall (Mai 2023: cyrhaeddiad o 52%, 1.16m). Ymddangosodd Apple News gan gynnwys Apple Weather (32%, 695k) a The Telegraph (30%, 647k) ymysg y deg uchaf yng Nghymru ym mis Mai 2023, ac roedd nifer yr ymwelwyr â'r ddau wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, ond roedd y cynnydd mwy ar Yahoo! (42%, 910k) a Metro (33%, 709k) wedi'u gwthio allan o'r deg uchaf ym mis Mai 2024. Dim ond 46% o oedolion ar-lein yng Nghymru a oedd yn defnyddio dyfeisiau Apple ym mis Mai 2024, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 55% - gallai hyn egluro safle cymharol isel Apple News (gan gynnwys Apple Weather) yn sgil ei statws fel ap iOS yn unig.[149]

Teitl lleol Belfast Telegraph oedd â'r trydydd cyrhaeddiad uchaf ymysg oedolion yng Ngogledd Iwerddon (51%, 635k). Mewn mannau eraill yng Ngogledd Iwerddon, cynyddodd nifer yr ymwelwyr â Metro yn sylweddol, i fyny o 362k (29%) ym mis Mai 2023 i 468k (37%) ym mis Mai 2024, sy'n golygu mai hwn oedd y degfed gwasanaeth mwyaf poblogaidd sydd wedi cymryd lle Apple News (Mai 2024: 34%, 423k) ymysg y deg uchaf. Dros gyfnod ychydig yn hirach, mae'n ymddangos bod safle Metro ym mis Mai 2023 yn allanolyn, gan fod lefelau ymwelwyr ym mis Mai 2022 yn sylweddol uwch (39%, 512k). Gwelodd The Guardian ostyngiad tebyg yn nifer yr ymwelwyr yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mai 2023 o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn ac ar ôl hynny. Yn yr un modd â Chymru, roedd 40% o oedolion ar-lein yng Ngogledd Iwerddon yn defnyddio dyfeisiau Apple ym mis Mai 2024, sy'n 14 pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU, ond o'r rheini a oedd yn defnyddio dyfais Apple, roedd 90% ohonynt yn defnyddio ap Apple News neu Apple Weather.[150]

Yn yr Alban, gwelodd y Daily Record (39% cyrhaeddiad, 1.5m) a The Scotsman (25%, 985k) ostyngiad bach yn nifer yr ymwelwyr o'i gymharu â mis Mai 2023 (43%, 1.7m a 29%, 1.2m yn y drefn honno), gyda chynulleidfaoedd mwy ar gyfer gwasanaethau eraill, gan gynnwys Sky News (1.4m i 1.5m) a Metro (995k i 1.2m) yn gwthio The Scotsman allan o'r deg uchaf ym mis Mai 2024 (i'r 14eg safle).[151]

Cafodd Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf 2024 effaith gyfyngedig ar ddefnydd o newyddion ar-lein rhwng mis Mai a mis Gorffennaf. Roedd y newid mwyaf ymysg pobl ifanc 18-24 oed: Dywedodd 58% fod ganddynt ddiddordeb mewn newyddion a materion cyfoes yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu â 39% ar adegau eraill. Fodd bynnag, ar draws pob oedolyn, roedd y diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes (48%) wedi aros yn sefydlog â chyfnodau y tu allan i etholiadau (50%). Safleoedd neu apiau cyfryngau cymdeithasol (26%) oedd y ffynhonnell fwyaf

[148] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[149] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[150] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[151] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

amlwg o newyddion a gwybodaeth ar-lein am yr Etholiad Cyffredinol.[152] Ar 5 Gorffennaf, y diwrnod ar ôl yr etholiad, ymwelodd 23.0 miliwn (49%) o oedolion ar-lein yn y DU â'r BBC, sef y cyrhaeddiad oedolion undydd mwyaf yn ystod y mis (cyrhaeddiad cyfartalog y dydd yn ystod y mis: 37%, 17.5m).[153]

[152] Ofcom, Arolwg newyddion a ffurfio barn Etholiad Cyffredinol y DU 2024, Mehefin a Gorffennaf 2024, oedran: 18+, y DU.
[153] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Y BBC, Gorffennaf 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 43: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ymysg y deg prif wasanaeth newyddion ar-lein, yn ôl gwlad yn y DU (miliynau): Mai bob blwyddyn 2022-2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18, defnyddwyr y rhyngrwyd. Sylwer: Mae'r deg uchaf yn seiliedig ar safle categori newyddion 2024. Mae newyddion yn cynnwys y tywydd. Mae Apple News yn cynnwys apiau Apple News ac Apple Weather. Cafodd cynnwys Apple News ei gategoreiddio ym mis Hydref 2023, efallai y bydd cynnydd graddol mewn cyrhaeddiad ar gyfer rhai gwasanaethau wrth gymharu data o un flwyddyn i'r llall.*

## Ar gyfartaledd, roedd dynion yn y DU yn trulio 39% yn hirach na menywod ar y deg prif wasanaeth newyddion

Yn gyffredinol mae cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran cyrhaeddiad cynulleidfaoedd newyddion ar-lein, gyda 51% o'r rheini sy'n ymweld â gwasanaeth newyddion yn fenywaidd a 49% yn wrywaidd ym mis Mai 2024. Mae hyn yn dal i fod yn wir i raddau helaeth ar gyfer y deg prif wasanaeth, gyda dim ond gwahaniaeth bach iawn rhwng y gwasanaethau unigol. Apple News (gan gynnwys ap Apple Weather) sydd â'r gwahaniaeth mwyaf gyda 55% o'r gynulleidfa'n fenywaidd a 45% yn wrywaidd ym mis Mai 2024[154] - mae'n debygol fod hynny'n gysylltiedig â'r ffaith bod mwy o fenywod yn berchen ar ddyfeisiau Apple.[155]

Fodd bynnag, mae'r amser cyfartalog a dreulir yn ymweld â gwasanaethau newyddion yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhyw, gyda dynion (4 awr 49 munud) yn treulio 39% yn fwy o amser na menywod (3 awr 28 munud) ar gyfartaledd ar y deg prif wasanaeth newyddion ym mis Mai 2024. Ar draws y deg uchaf, roedd yr amser a dreuliwyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl gwasanaeth newyddion. Roedd dynion sy'n ymweld â'r BBC yn treulio dwywaith gymaint o amser (3 awr 7 munud) â benywod (1 awr 39 munud) ar y gwasanaeth newyddion ym mis Mai 2024, ac roedd Sky News yn debyg, gyda dynion yn treulio 80% yn fwy o amser na menywod (dynion: 41 munud, menywod: 22 munud). I'r gwrthwyneb, roedd menywod a ymwelodd â Mail Online wedi treulio 55% yn hirach ar y gwasanaeth na dynion ar gyfartaledd yn ystod y mis (menywod: 1 awr 19 munud, dynion: 51 munud).[156]

**Ffigur 44: Yr amser sy'n cael ei dreulio ar gyfartaledd gan oedolion yn ymweld â'r deg gwasanaeth newyddion ar-lein mwyaf poblogaidd, yn ôl rhywedd: Mai 2024 (oriau:munudau)**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU, categori: newyddion. Mae Apple News yn cynnwys apiau Apple News ac Apple Weather.*

---

[154] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

[155] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom. CM9. Gan feddwl am eich prif ffôn symudol, a yw'n defnyddio system weithredu Apple ynteu Android? Sail: Lle mae ganddynt ffôn clyfar.

[156] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

# Iechyd a llesiant

## Ymwelodd dros hanner yr oedolion ar-lein yn y DU â'r GIG ar-lein ym mis Mai 2024

Roedd chwe deg naw y cant (32.5m) o oedolion ar-lein yn y DU wedi ymweld ag un o'r deg gwefan neu ap iechyd a llesiant mwyaf poblogaidd ym mis Mai 2024, i fyny o 66% ar gyfer yr un safleoedd y flwyddyn flaenorol. Gwefan nhs.uk oedd safle neu ap mwyaf poblogaidd y GIG, a gyrhaeddodd 47% (22.5m) o oedolion ar-lein yn y DU, ac yna ap y GIG, gyda 21% (10.0m) o oedolion ar-lein yn y DU yn ei ddefnyddio ym mis Mai 2024. Defnyddiodd pum deg wyth y cant (23.0m) o oedolion yn Lloegr safleoedd neu apiau'r GIG ym mis Mai 2024, 53% (1.1m) yng Nghymru, 39% (1.5m) yn yr Alban a 35% (437k) yng Ngogledd Iwerddon.

Y GIG oedd y darparwr gwasanaeth iechyd a llesiant ar-lein mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda 56% o oedolion ar-lein yn y DU (26.5m) yn ymweld â gwefan NHS.uk neu apiau'r GIG ym mis Mai 2024, sy'n llawer iawn uwch (42pc) na'r ail wasanaeth mwyaf poblogaidd, sef Healthline, darparwr gwybodaeth iechyd yn yr Unol Daleithiau (14%).[157] Roedd defnydd o wasanaethau ar-lein y GIG wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr 2021 wrth i amrywiolyn Omicron Covid-19 ledaenu'n gyflym ac wrth i Bàs COVID y GIG ddod yn orfodol mewn lleoliadau lletygarwch ac ati yn Lloegr,[158] ac fe gyrhaeddodd 81% (38.4m) o oedolion ar-lein yn y DU bryd hynny. Wrth i frechlynnau Covid-19 gael eu darparu ac wrth i gyfyngiadau gael eu llacio gostyngodd y defnydd o'r safleoedd a'r apiau hyn yn 2022 a sefydlogodd yn 2023 (cyfartaledd misol: 25.6m).[159]

Canfu arolwg Traciwr Technoleg Ofcom fod 69% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn yn mynd ar-lein i archebu a/ neu gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd; grŵp oedran 35-44 oedd y mwyaf tebygol o wneud hyn (78%), a'r rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE oedd y lleiaf tebygol (53%). Mae pum deg pump y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn yn defnyddio gwasanaethau ar-lein ar gyfer monitro iechyd personol neu ffitrwydd/ffordd o fyw, ac mae'r rhai yn y grŵp economaidd-gymdeithasol AB yn fwy tebygol o wneud hyn na'r rhai yn y grŵp DE (70% o'i gymharu â 38%).[160] Canfu Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau Ofcom fod 76% o oedolion yn defnyddio apiau neu wefannau ar gyfer llesiant. Roedd hyn yn cynnwys eu defnyddio i ymlacio (40%), edrych am symptomau iechyd (32%) neu i 'wella eich hwyliau neu deimlo'n hapus' (30%).[161]

[157] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[158] Gov.uk, Prime Minister confirms move to Plan B in England, 8 Rhagfyr 2021.
[159] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[160] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom.
[161] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023, Ofcom.

**Ffigur 45: Defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU sydd wedi defnyddio apiau neu wefannau i archebu neu gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd: 2024**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2024, CE9. Ar gyfer pob gweithgaredd a restrir isod, nodwch a ydych yn gwneud pob gweithgaredd ar ffôn symudol a/neu ddyfais arall, neu ddim o gwbl. Gweithgaredd: Defnyddio apiau neu wefannau i archebu a/neu gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd (e.e. ymgynghoriad ag ysbyty neu feddyg teulu.) Sail: Lle defnyddir y rhyngrwyd gartref neu yn rhywle arall 16+ oed (3798).*

## Ar ôl y pandemig, mae nifer o wasanaethau iechyd a lles yn gweld gostyngiad ym maint cynulleidfaoedd

Roedd safleoedd sy'n gweithredu'n bennaf fel ffynhonnell gwybodaeth iechyd yn flaenllaw ymysg y deg safle iechyd a lles mwyaf poblogaidd, gyda'r GIG (56%), Healthline (14%), Sefydliadau Iechyd Cenedlaethol (10%), WebMD (10%), Medical News Today (8%), Mayo Clinic (8%) ac MSN Health & Fitness (6%) i gyd yn cael lle amlwg. Mae nifer o'r gwasanaethau iechyd a lles mwyaf wedi gweld gostyngiad ym maint cynulleidfaoedd dros y tair blynedd diwethaf. Healthline sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf - mae wedi colli 23% o'i gynulleidfa yn y DU (2.7m) dros dair blynedd. Mae WebMD wedi colli 15% (770k), ac mae Medical News Today wedi colli 19% (869k). Gallai hyn fod oherwydd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n chwilio am yr wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19. [162]

Roedd gwasanaethau monitro ffitrwydd ac ymarfer corff[163] hefyd ymhlith y deg uchaf, gyda Fitbit Google yn cyrraedd 8% o oedolion yn y DU, Strava yn cyrraedd 7%, a Samsung Health yn cyrraedd 6% ym mis Mai 2024. Mae profiadau Fitbit a Strava yn amrywio: Mae Fitbit wedi colli bron i filiwn o ymwelwyr (980k, -20%) o'i gynulleidfa ers mis Mai 2022, tra bo Strava wedi ennill 11% (340k).[164] Prynodd Google Fitbit yn 2019 ac mae wedi ymgorffori nodweddion Fitbit yn ei Google Pixel Watch, fel nodweddion premiwm Fitbit sydd ar gael am ddim; efallai fod cynllun Google i beidio â rhyddhau fersiynau newydd o rai mathau o Fitbit yn cyfrannu at y gostyngiad yng nghyrhaeddiad gwefan Fitbit.[165]

---

[162] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[163] Nid yw ap Apple Health yn cael ei fesur gan Ipsos iris.
[164] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[165] Techradar, RIP Fitbit smartwatches – an end we could see coming a mile away, 18 Awst 2024.

## Menywod oedd pum deg saith y cant o'r oedolion a ymwelodd â gwefannau'r GIG ym mis Mai 2024

Roedd gwahaniaeth nodedig rhwng y rhywiau o ran ymwelwyr â gwefannau iechyd a lles, gyda menywod 10% yn fwy tebygol na dynion o ymweld ag un neu fwy o wefannau o fewn y categori (menywod: 88%, dynion: 80%).[166] Ym mis Mai 2024, menywod oedd 57% o'r oedolion a ymwelodd â gwefannau'r GIG tra bo 43% yn ddynion. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arbennig o amlwg ymysg ymwelwyr â gwefannau fel Healthline, WebMD, Fitbit, Medical News Today a Mayo Clinic: roedd pob un o'r rhain yn denu tua dwywaith cymaint o fenywod â dynion. Dim ond dau wasanaeth yn y deg uchaf oedd yn denu mwy o ddynion na menywod: Mae cynulleidfa MSN Health & Fitness dros 49% yn fwy tebygol o fod yn ddynion (1.7m) na menywod (1.2m), a chynulleidfa Strava 39% yn fwy tebygol (dynion: 2.0m, menywod: 1.5m).[167]

Roedd cyfansoddiad y deg prif wasanaeth hefyd yn amrywio rhwng y rhywiau: yn neg uchaf y dynion roedd dau draciwr ymarfer corff ychwanegol, sef Garmin (6%) a'r traciwr cam ar ffurf gêm Sweatcoin (5.4%), yn ymddangos fel y seithfed a'r degfed ap yr ymwelwyd â nhw fwyaf (yn y drefn honno). Nid oedd Mayo Clinic (5.4%), Fitbit (4.9%) a Medical News Today (4.6%) yn ymddangos ymysg deg uchaf y dynion. Mae MyFitnessPal (7.3%) yn ymddangos yn neg uchaf y menywod, ond dydy Samsung Health (6.5%) a Strava (6.1%) ddim yn eu plith. Mae'r traciwr mislif ac ofyliad, Flo (7.1%), hefyd yn ymddangos ar y rhestr, fel y mae Patient Access (7.3%) sy'n galluogi defnyddwyr i drefnu apwyntiadau meddyg teulu, archebu presgripsiynau amlroddadwy a chael mynediad at wasanaethau eraill y GIG. Nid oedd MSN Health & Fitness (4.8%) yn ymddangos ymysg deg uchaf y menywod. [168]

---

[166] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: Iechyd, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

[167] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

[168] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 46: Cyrhaeddiad y prif wasanaethau iechyd a lles ymhlith oedolion ar-lein yn y DU**

| Safle | Oedolion | | | | | Dynion | | | | | Menywod | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth | Cyfanswm cynulleidfa y DU mewn mis | | | Cyrhaeddiad ar-lein % Mai 2024 | Gwasanaeth | Cyfanswm cynulleidfa y DU mewn mis | | | Cyrhaeddiad ar-lein % Mai 2024 | Gwasanaeth | Cyfanswm cynulleidfa y DU mewn mis | | | Cyrhaeddiad ar-lein % Mai 2024 |
| | | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | | | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | | | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | |
| 1 | Y GIG | 28.8m | 24.8m | 26.5m | 56% | Y GIG | 12.6m | 10.5m | 11.3m | 48% | Y GIG | 16.2m | 14.3m | 15.2m | 63% |
| 2 | Healthline | 9.5m | 7.4m | 6.8m | 14% | Healthline | 3.2m | 2.4m | 2.3m | 10% | Healthline | 6.4m | 5.0m | 4.6m | 19% |
| 3 | Sefydliadau Iechyd Cenedlaethol | 3.9m | 4.3m | 4.7m | 10% | Strava | 1.9m | 1.8m | 2.0m | 9% | WebMD | 3.6m | 2.6m | 3.1m | 13% |
| 4 | WebMD | 5.3m | 3.9m | 4.5m | 10% | Sefydliadau Iechyd Cenedlaethol | 1.5m | 1.6m | 1.7m | 7% | Sefydliadau Iechyd Cenedlaethol | 2.4m | 2.8m | 3.0m | 13% |
| 5 | Fitbit | 4.9m | 4.5m | 3.9m | 8% | MSN Health & Fitness | 781k | 1.1m | 1.7m | 7% | Fitbit | 3.4m | 3.2m | 2.8m | 12% |
| 6 | Medical News Today | 4.7m | 3.8m | 3.8m | 8% | Samsung Health | 1.6m | 1.6m | 1.5m | 6% | Medical News Today | 3.3m | 2.6m | 2.7m | 11% |
| 7 | Mayo Clinic | 4.0m | 3.5m | 3.7m | 8% | Garmin | 1.1m | 1.2m | 1.5m | 6% | Mayo Clinic | 2.7m | 2.5m | 2.5m | 10% |
| 8 | Strava | 3.2m | 3.3m | 3.5m | 7% | BBC News – Health | 1.7m | 1.5m | 1.4m | 6% | Patient Access | 1.8m | 1.8m | 1.8m | 7% |
| 9 | Samsung Health | 3.3m | 3.0m | 3.0m | 6% | WebMD | 1.6m | 1.3m | 1.4m | 6% | MyFitnessPal | 2.1m | 2.1m | 1.7m | 7% |
| 10 | MSN Health & Fitness | 1.4m | 2.3m | 2.8m | 6% | Sweatcoin | 1.2m | 1.4m | 1.3m | 5% | Flo | 992k | 1.3m | 1.7m | 7% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Mae'r GIG yn cynnwys apiau a gwefannau NHS UK, gig.cymru ac nhs.scot. Sylwer: Nid yw ap Apple Health yn cael ei fesur gan Ipsos iris. Sylwer: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

# Gemau

Mae gemau yn cynnwys amrywiaeth eang o brofiadau. Gall y profiadau hyn amrywio yn dibynnu ar y ddyfais a ddefnyddir, o gonsolau, ffonau symudol a chyfrifiaduron i bensetiau. Mae'r profiad hefyd yn amrywio yn dibynnu ar y math o gêm sy'n cael ei chwarae; er enghraifft, mae angen mynediad i'r rhyngrwyd i lawrlwytho rhai gemau ond gellir eu chwarae all-lein, tra bo modd chwarae gemau eraill ar-lein neu all-lein.

Gall gemau ar-lein gynnig swyddogaethau amrywiol, a gall y rhain amrywio yn ôl gwasanaeth a gellir eu defnyddio ar y cyd; er enghraifft, galluogi rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mewn amgylcheddau rhithwir sy’n cael eu hefelychu’n rhannol neu’n llawn. Gall defnyddwyr ryngweithio drwy greu neu drin avatars, gwrthrychau, a'r amgylcheddau eu hunain, a/neu drwy ddefnyddio sgwrsio llais a thestun. Mae rhai gwasanaethau’n defnyddio systemau paru i gyfateb defnyddwyr â’i gilydd ar sail paramedrau fel nodweddion rhwydwaith, caledwedd, dewisiadau defnyddwyr, argaeledd a sgiliau. Bydd yr adran hon yn edrych ar y nifer sy’n defnyddio dyfeisiau y gellir eu defnyddio ar gyfer gemau ar-lein, tanysgrifiadau gemau, a gemau consol/cyfrifiadur yn ogystal â gemau symudol sy’n boblogaidd yn 2024.

## Mae plant dan oed ysgol a phlant oed ysgol gynradd yn chwarae mwy a mwy o gemau ar-lein

Roedd ymchwil Ymwybyddiaeth o’r Cyfryngau Ofcom yn 2023 wedi darganfod bod nifer yr oedolion sy'n chwarae gemau wedi parhau i ostwng, gyda 52% o bobl 16 oed a hŷn yn y DU yn dweud eu bod yn chwarae gemau ar ddyfeisiau,[169] naill ai ar-lein neu all-lein,[170] sef gostyngiad o 4 pwynt canran (pc) o un flwyddyn i’r llall (2022: 56%). Mae hyn yn dilyn gostyngiad tebyg yn y flwyddyn flaenorol, i lawr o 60% yn 2021.[171] Gall ffactor allweddol sy’n sbarduno’r gostyngiad hwn ymysg pobl 16 oed a hŷn gynnwys addasiad parhaus o anterth chwarae gemau a welwyd yn ystod cyfnod Covid-19 ac yn fuan ar ôl hynny. Fodd bynnag, nid yw’r un peth yn wir am blant - mae chwarae gemau’n dal yn boblogaidd iawn; mae 90% o blant rhwng 3 a 15 oed yn chwarae gemau ar ddyfeisiau, naill ai ar-lein neu all-lein. Gwelwyd cynnydd nodedig yn nifer y plant rhwng 3 a 4 oed a rhwng 5 a 7 oed sy’n chwarae gemau ar-lein - roedd wedi cynyddu 5pc a 7pc i 23% a 41% yn y drefn honno yn 2023.[172] Canfu Ofcom yn Y Cyfryngau ym Mywyd Plant fod plant rhwng 8 a 17 oed sy’n chwarae gemau fel petaent yn rhoi mwy o bwys arnynt fel ffordd o gysylltu a chymdeithasu â ffrindiau yn hytrach na dim ond mwynhau chwarae’r gêm.[173]

[169] Mae dyfeisiau’n cynnwys ffôn clyfar, consolau, dyfeisiau tabled, cyfrifiadur/gliniadur, penset VR, ap ar y teledu neu dechnoleg mae modd ei gwisgo.
[170] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o’r Cyfryngau 2023 Ofcom.
[171] Roedd gan arolwg Craidd Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o’r Cyfryngau 2021 fethodoleg wahanol oherwydd pandemig Covid-19. Yn 2023 a 2022, cyfunodd yr arolwg Craidd arolygon wyneb yn wyneb ag arolygon ar-lein, ond yn 2021 arolygon post oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd. Felly, dangosol yn unig yw unrhyw wahaniaethau rhwng 2021 a 2023.
[172] Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o’r Cyfryngau 2023 Ofcom.
[173] Adroddiad Y Cyfryngau ym Mywyd Plant 2024 Ofcom.

**Ffigur 47: Unigolion yn y DU sy'n chwarae gemau ar-lein**




*Ffynhonnell: 3-15 oed: Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau 2021/2022/2023 Ofcom: Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein. Sail: Pob plentyn 3-15 oed (2021: 5,774; 2022: 5,889; 2023: 2949). 16+ oed: Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2021/2022/2023 Ofcom: Arolwg craidd. G3A. Ydych chi'n chwarae gemau ar-lein? (un cod). Sail: Pob oedolyn (2021: 3660; 2022: 3651; 2023: 3643).*

## Treuliodd chwaraewyr gemau rhwng 16 a 64 oed yn y DU bron i 7 awr yr wythnos ar gyfartaledd yn chwarae gemau

Canfu ymchwil Ampere Analysis yn Ch2 2024 fod yr amser y dywedodd chwaraewyr rhwng 16 a 64 oed yn y DU eu bod yn treulio'n chwarae gemau, naill ai ar-lein neu all-lein, wedi aros yn weddol sefydlog: o gyfartaledd o 6 awr 52 munud yr wythnos yn Ch2 2023 i 6 awr 57 munud yn Ch2 2024. O'r holl grwpiau oedran yr adroddwyd amdanynt, chwaraewyr gemau rhwng 25 a 34 oed oedd yn treulio'r rhan fwyaf o amser yn chwarae gemau: 7 awr 29 munud yr wythnos, cynnydd o 38 munud (+9%) o un flwyddyn i'r llall (Ch2 2023: 6 awr 51 munud). Dim ond grŵp oedran 16-24 a ddangosodd ostyngiad o un flwyddyn i'r llall yn yr amser a dreulir yn chwarae gemau bob wythnos, ond roedd hwn yn ostyngiad mawr – i lawr 18% o 7 awr 47 munud i 6 awr 22 munud.[174]

Mae chwaraewyr gwrywaidd rhwng 16 a 64 oed yn treulio mwy o amser yn chwarae gemau bob wythnos na chwaraewyr benywaidd ar gyfartaledd (8 awr 4 munud o'i gymharu â 5 awr 51 munud), ac mae hyn yn arbennig o amlwg ymysg chwaraewyr rhwng 25 a 34 oed: mae dynion yn treulio 3 awr 44 munud yr wythnos yn fwy na menywod ar gyfartaledd. Fodd bynnag, er bod yr amser y mae chwaraewyr gwrywaidd rhwng 16 a 64 oed yn ei dreulio ar gyfartaledd wedi aros yn sefydlog, gan gynyddu dim ond 2 funud (+0.4%) o 8 awr 2 funud yn Ch2 2023 i 8 awr 4 munud yn Ch2 2024, mae'r amser y mae chwaraewyr benywaidd yn ei dreulio wedi cynyddu 18 munud (+5%) (Ch2 2023: 5 awr 33 munud). Mae'r cynnydd hwn ymysg menywod yn cael ei sbarduno gan oedolion hŷn; mae oedolion iau yn treulio llai o amser yn chwarae gemau nag yn 2023.[175]

---

[174] Ampere Games – Consumer Ch2 2022/Ch2 2023/Ch2 2024, chwaraewyr: 16-64 oed, y DU.
[175] Ampere Games – Consumer Ch2 2022/Ch2 2023/Ch2 2024, chwaraewyr: 16-64 oed, y DU.

**Ffigur 48: Nifer yr oriau wythnosol cyfartalog a dreulir gan chwaraewyr gemau rhwng 16 a 64 oed yn y DU, yn ôl oedran a rhyw: Ch2 2024**




*Ffynhonnell: Ampere Games – Consumer, Ch2 2024, y DU, chwaraewyr: 16-64 oed, y DU.*

## PlayStation 5 yw'r consol gemau mwyaf poblogaidd yn y DU, fymryn ar y blaen i Xbox

Yn gyffredinol, mae 38% o bobl 16 oed a hŷn yn byw mewn cartref gydag o leiaf un consol gemau, a dywedodd 22% eu bod yn defnyddio consol yn bersonol, i fyny o 20% yn 2023. Symudodd PlayStation 5 fymryn ar y blaen i Xbox Series X neu S fel y consol sy'n fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio. Mae tri deg y cant o gartrefi sydd ag o leiaf un consol gemau yn berchen ar PlayStation 5, i fyny o 23% yn 2023, tra bo gan 29% Xbox Series X neu S, sy'n ostyngiad dangosol o 4pc.[176] Mae tri deg pedwar y cant o bobl 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein yn chwarae gemau, neu wedi lawrlwytho gemau, ar eu ffonau.[177] Yn 2023, roedd pedwar y cant o oedolion yn y DU yn chwarae gemau ar benset VR (3%: 2023), ac mae pobl rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o wneud hyn na phobl 65 oed a hŷn (9% o'i gymharu ag 1%).[178] Mae modd defnyddio pob un o'r dyfeisiau hyn i chwarae gemau ar-lein.

Canfu ymchwil Ampere Analysis mai ychydig iawn o chwaraewyr sy'n chwarae gemau ar un math o ddyfais yn unig, ac mae cyfran y chwaraewyr sy'n defnyddio un math o ddyfais yn unig yn gostwng. Roedd dau ddeg tri y cant o chwaraewyr ffonau clyfar yn chwarae ar ffôn clyfar yn unig, i lawr o 26% yn Ch2 2023; roedd 19% o chwaraewyr consolau yn chwarae ar gonsolau gemau yn unig, i lawr o 25% yn Ch2 2023; a 8% o chwaraewyr gemau cyfrifiadurol yn chwarae ar gyfrifiaduron personol yn unig, naill ai ar-lein neu all-lein.[179]

[176] Nid yw'r gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr sydd ag o leiaf un consol yn y cartref sy'n berchen ar Xbox Series X a/neu S yn 2024 yn sylweddol o'i gymharu â'r data a gasglwyd yn 2023.
[177] Traciwr Technoleg Ofcom 2023 a 2024. CD3. Pa gonsolau gemau ydych chi neu aelodau o'ch cartref yn eu defnyddio ar hyn o bryd? CE10. yn ystod y tri mis diwethaf, ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau tanysgrifio hyn i chwarae gemau?
[178] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023 Ofcom.
[179] Ampere Games – Consumer Ch2 2023 a Ch2 2024, chwaraewyr: 16-64 oed, y DU.

## Mae 36% o chwaraewyr gemau yn tanysgrifio i wasanaeth tanysgrifio i gemau yn 2024

Mae gwasanaethau tanysgrifio i gemau yn cynnig amrywiaeth o swyddogaethau i ddefnyddwyr, fel mynediad uniongyrchol at gatalogau gemau, mynediad am gost ychwanegol is a/neu swyddogaethau aml-chwaraewr ar-lein. Efallai y bydd rhai gwasanaethau tanysgrifio hefyd yn darparu mynediad at ffrydio/gemau trwy'r cwmwl. Mae dros draean (36%) o chwaraewyr (a ddiffinnir fel y rhai sy'n mynd ar-lein i chwarae neu i lawrlwytho gemau neu sydd ag ap gemau ar eu ffôn clyfar) yn tanysgrifio i wasanaeth tanysgrifio i gemau yn 2024. Chwaraewyr gemau ifanc sy'n fwyaf tebygol o danysgrifio i wasanaeth, gyda 45% o bobl rhwng 16 a 24 oed yn dweud eu bod yn defnyddio gwasanaeth tanysgrifio i gemau, gyda dim ond 12% o bobl 55 oed a hŷn yn dweud yr un peth. Mae chwaraewyr gemau gwrywaidd 16 oed a hŷn yn fwy tebygol o danysgrifio i wasanaethau gemau ar-lein, gyda 41% o'i gymharu â 30% o fenywod.[180]

PlayStation Plus yw'r gwasanaeth tanysgrifio gemau mwyaf poblogaidd - mae'n cael ei ddefnyddio gan 17% o chwaraewyr gemau 16 oed a hŷn yn y DU. Fe'i dilynir yn agos gan danysgrifiadau Xbox a ddefnyddir gan 14%. Yn gyffredinol, mae gan 32% o chwaraewyr gemau 16 oed a hŷn danysgrifiad i gemau aml-chwaraewr consol, gyda gwrywod (38%) yn fwy tebygol o danysgrifio na benywod (26%). Mae gwrywod yn fwy tebygol na benywod i danysgrifio i PlayStation plus (20% o'i gymharu â 13%) ac Xbox (18% o'i gymharu â 10%). Mae'r nifer sy'n defnyddio Nintendo Switch ar-lein fwy neu lai'n gyfartal yn ôl rhyw, gyda 9% o wrywod ac 8% o fenywod yn dweud eu bod yn tanysgrifio.[181]

Mae Ampere yn rhagweld y bydd y DU yn gwario £5,676m ar gynnwys a gwasanaethau gemau yn 2024, cynnydd o 0.6% ers 2023 (£5,644m) ar ôl codi o £5,560m (1.5%) yn 2022. Disgwylir i'r gwariant ar wasanaethau ffonau symudol yn benodol gynyddu o £1,772m yn 2023 i £1,888m yn 2024, cynnydd o 6.6%. Mae'r gwariant ar gonsolau wedi bod yn gostwng, ac mae Ampere yn rhagweld y bydd yn gostwng 4.4% o £2,954m yn 2023 i £2,824m yn 2024.[182]

---

[180] Traciwr Technoleg Ofcom 2024. CE10. yn ystod y tri mis diwethaf, ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau tanysgrifio hyn i chwarae gemau?
[181] Traciwr Technoleg Ofcom 2023 a 2024. CE10. yn ystod y tri mis diwethaf, ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau tanysgrifio hyn i chwarae gemau?
[182] Ampere Games – Markets.

**Ffigur 49: Gwasanaethau tanysgrifio i gemau sy'n cael eu defnyddio gan chwaraewyr gemau 16 oed a hŷn yn y DU: 2024**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2024. CE10. yn ystod y tri mis diwethaf, ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau tanysgrifio hyn i chwarae gemau? Sylwer: Mae Xbox Games Pass yn cynnwys y fersiynau ultimate/consol/cyfrifiadurol. 'Gwasanaeth ffrydio gemau e.e. Google Stadia, GeForce Now' 1% ddim yn cael ei ddangos ar y siart. Sail: pobl 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein i chwarae neu i lawrlwytho gemau neu sydd ag ap gemau ar eu ffôn clyfar (1913).*

## EA Sports FC 24 oedd y teitl mwyaf poblogaidd ar draws llwyfannau PlayStation, Xbox a Steam

EA Sports FC 24[183] oedd y gêm â'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr ar draws Xbox, PlayStation a Steam[184] yn y DU ym mis Mai 2024, gyda 2.93 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol. Treuliodd chwaraewyr EA Sports FC 24 23 awr ar gyfartaledd yn chwarae'r gêm yn ystod y mis. Yn ddiddorol, cafodd y gêm ei gynnig i danysgrifwyr PlayStation Plus Essential ym mis Mai a mis Mehefin 2024 i gyd-fynd â Phencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA - arweiniodd hynny at gynnydd o 17% yn nifer y chwaraewyr misol rhwng mis Ebrill a Mai 2024. FIFA 23, iteriad blaenorol EA Sports FC, oedd y gêm fwyaf poblogaidd ym mis Mai 2023 gyda 2.99 miliwn o ddefnyddwyr.[185]

Fortnite yw'r ail gêm fwyaf poblogaidd, gyda'i chyrhaeddiad yn gostwng fymryn o 2.78 miliwn ym mis Mai 2023 i 2.65 miliwn ym mis Mai 2024. Treuliodd chwaraewyr Fortnite[186] 17 awr ar gyfartaledd yn chwarae'r gêm ym mis Mai 2024 ar draws Xbox a PlayStation.[187] Gellir chwarae Fortnite ar ddyfeisiau eraill hefyd: Canfu Ipsos iris fod 241k o oedolion yn y DU wedi ymweld â gwefan Fortnite ym mis Mai 2024.[188] Llwyddodd Fortnite, Call of Duty HQ a Grand Theft Auto V/Online i ddal gafael ar eu safleoedd o un flwyddyn i'r llall (gweler Ffigur 50 isod), ond disgynnodd Rocket League o'r pumed safle i'r seithfed safle. Mae Roblox a Fallout 4 yn newydd-ddyfodiaid ymysg y deg uchaf, gyda Roblox yn debygol o fod wedi ymuno â' nhw wedi iddo gael ei lansio ar

[183] Mae EA Sports FC 24 hefyd ar gael i'w chwarae ar lwyfannau eraill.
[184] Mae Windows, macOS a Linux yn cynnal Steam.
[185] Ampere Games - Analytics, Mai 2023, Mai 2024 a Mehefin 2024.
[186] Nid yw Fortnite ar gael drwy Steam.
[187] Ampere Games - Analytics, Mai 2024
[188] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

PlayStation ym mis Hydref 2023. Mae'n debygol bod Fallout 4 wedi ymuno â'r deg uchaf o ganlyniad i ryddhau'r gyfres deledu *Fallout* ar Amazon Prime ym mis Ebrill 2024.

Mae pump o'r deg prif deitl yn gemau sydd am ddim i'w chwarae, ac mae gan naw ohonynt swyddogaethau aml-chwaraewr. Mae pob un o'r teitlau ar gael ar gonsolau, ac eithrio Counter-Strike 2, sydd ar gael ar gyfrifiaduron personol yn unig drwy Steam.[189]

**Ffigur 50: Y deg prif gêm ar draws Xbox, PlayStation a Steam, yn seiliedig ar ddefnyddwyr gweithredol yn y DU: Mai 2024**

| Safle | Teitl | Modd chwarae am ddim neu aml-chwaraewr ar gael? | Brand y ddyfais | Defnyddwyr gweithredol ym mis Mai 2023 | Defnyddwyr gweithredol ym mis Mai 2024 | Gwahaniaeth o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **EA Sports FC 24 (FIFA 23 – data Mai 2023)** | Aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation, Steam | 2.99m | 2.93m | - |
| **2** | **Fortnite** | Chwarae am ddim, aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation | 2.78m | 2.65m | +0.13m |
| **3** | **Call of Duty HQ** | Chwarae am ddim, aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation, Steam | 1.80m | 1.76m | +0.04m |
| **4** | **Grand Theft Auto V/Online** | Aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation, Steam | 1.77m | 1.36m | -0.41m |
| **5** | **Minecraft** | Aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation | 1.33m | 1.27m | -0.06m |
| **6** | **Roblox** | Chwarae am ddim, aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation | 0.48m (Xbox yn unig) | 1.22m | +0.74m |
| **7** | **Rocket League** | Chwarae am ddim, aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation | 1.46m | 1.11m | -0.35m |
| **8** | **Tom Clancy's Rainbow Six Siege** | Aml-chwaraewr | Xbox, PlayStation, Steam | 0.71m | 0.83m | +0.12m |
| **9** | **Fallout 4** | | Xbox, PlayStation, Steam | 0.12m | 0.67m | +0.55m |
| **10** | **Counter-Strike 2** | Chwarae am ddim, aml-chwaraewr | Steam | 0.83m | 0.61m | -0.22m |

*Ffynhonnell: Ampere Games - Analytics, Mai 2024. Defnyddwyr gweithredol yn ôl cyfrif, felly mae yn ôl defnyddiwr/cyfrif. Mae angen i'r defnyddiwr fod wedi cysylltu â'r rhyngrwyd i gael ei fesur, ond nid oes angen iddo fod yn chwarae gêm ar-lein i gael ei dracio. Mae'r data hwn yn mesur defnyddwyr gweithredol ar gemau yn unig, a gallai fod yn wahanol i ddata arall y farchnad, fel maint gwerthiannau. Mae'r blychau gwyrdd yn nodi cynnydd o un flwyddyn i'r llall, tra bo'r blychau coch yn nodi gostyngiad.*

[189] Ampere Games - Analytics, Mai 2024

## Candy Crush Saga yw’r gêm ffôn symudol sydd â’r gynulleidfa oedolion fwyaf, ond mae Roblox a Monopoly GO! yn ennill defnyddwyr

Mae tri deg chwech y cant o ddefnyddwyr ffonau clyfar yn y DU sy’n 16 oed a hŷn yn defnyddio o leiaf un ap gemau ar eu ffôn clyfar, i lawr 3pc o 39% yn 2023.[190] Candy Crush Saga yw’r ap gemau mwyaf poblogaidd o hyd ar draws ffonau clyfar a dyfeisiau tabled, gyda 2.2 miliwn o oedolion yn ei ddefnyddio ym mis Mai 2024, sy’n ostyngiad o 305k o oedolion o un flwyddyn i'r llall (Mai 2023: 2.5m). Roedd dau ddeg chwech y cant o gynulleidfa oedolion Candy Crush Saga rhwng 55 a 64 oed – dyma’i garfan oedran fwyaf, tra bo pobl rhwng 18 a 24 oed yn gyfrifol am ei garfan oedran leiaf (5%). Parhaodd Roblox i ennill defnyddwyr ac fe ddaeth yr ail ap gemau mwyaf poblogaidd ymysg oedolion yn y DU ym mis Mai 2024. Gyda’i gilydd, llwyddodd gwefan ac ap Roblox i gyrraedd 5% (2.4m) o oedolion ar-lein yn y DU ar draws cyfrifiaduron, ffonau clyfar a dyfeisiau tabled. Mae Monopoly GO! wedi parhau i dyfu ers iddo gael ei lansio yn 2023, ac mae bron wedi dyblu ei gynulleidfa yn y flwyddyn ddiwethaf, gan godi i’r pumed safle. Mae Crossword Puzzle Redstone yn newydd-ddyfodiad ymysg y deg uchaf - mae wedi denu 900k o oedolion ym mis Mai 2024, gan gyrraedd ychydig o dan 2% o oedolion ar-lein. Gan gymryd y deg ap gemau mwyaf poblogaidd ym mis Mai 2024 gyda’i gilydd, roedd eu cyrhaeddiad cynulleidfa oedolion ar y cyd yn gogwyddo tuag at fenywod, a oedd yn cyfrif am 60% o’r gynulleidfa oedolion (dynion: 40%). Roedd pob un o’r deg ap gemau mwyaf poblogaidd yn gogwyddo tuag at fenywod.[191]

[190] Traciwr Technoleg Ofcom 2023 a 2024. CM15. Ydych chi’n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ap ar eich ffôn clyfar?
[191] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 51: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU a’r amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio gan bob ymwelydd ar y deg ap gemau mwyaf poblogaidd ar ddyfeisiau symudol: Mai 2024**

| Safle yn ôl cyrhaeddiad Mai 2024 | Ap chwarae gemau | Cynulleidfa oedolion mewn mis | | | | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2024 | Amser cyfartalog sy’n cael ei dreulio fesul diwrnod yn ôl defnyddiwr yn ystod y mis (munudau:eiliadau) | | | Cyfansoddiad rhywedd oedolion ym mis Mai 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mai 2022 | Mai 2023 | Mai 2024 | Newid o un flwyddyn i’r llall | | Mai 2023 | Mai 2024 | Newid o un flwyddyn i’r llall | Dynion | Menywod |
| 1 | Candy Crush Saga | 2.13m | 2.54m | 2.23m | -305k | 4.7% | 23:46 | 15:37 | -08:10 | 30% | 70% |
| 2 | Roblox | 1.26m | 1.63m | 1.90m | +276k | 4.0% | 14:53 | 20:53 | +06:00 | 42% | 58% |
| 3 | Royal Match | 0.70m | 1.98m | 1.88m | -101k | 4.0% | 10:27 | 11:52 | +01:26 | 35% | 65% |
| 4 | Pokémon GO | 1.62m | 1.87m | 1.72m | -149k | 3.6% | 27:35 | 22:53 | -04:42 | 43% | 57% |
| 5 | Monopoly GO! | - | 0.90m | 1.71m | +813k | 3.6% | 11:51 | 25:06 | + 13:15 | 41% | 59% |
| 6 | Solitaire - Grand Harvest | 1.47m | 1.52m | 1.33m | -186k | 2.8% | 17:08 | 11:17 | -05:51 | 23% | 77% |
| 7 | Dominoes - Classic Edition | - | 1.44m | 1.23m | -209k | 2.6% | 00:19 | 00:11 | -00:08 | 44% | 56% |
| 8 | Wordscapes | 0.88m | 1.11m | 1.22m | +112k | 2.6% | 13:47 | 15:09 | +01:22 | 29% | 71% |
| 9 | Coin Master | 1.03m | 1.45m | 1.10m | -352k | 2.3% | 11:33 | 23:22 | +11:49 | 47% | 53% |
| 10 | Crossword Puzzle Redstone | - | - | 0.90m | - | 1.9% | - | 04:07 | - | 33% | 67% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Mae llinellau toriad yn cynrychioli lle nad oes data ar gael ar gyfer y cyfnod amser. Mae’r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod y mis wedi’i rannu â nifer y diwrnodau yn y mis. Mae’r blychau gwyrdd yn nodi cynnydd o un flwyddyn i’r llall, tra bo’r blychau coch yn nodi gostyngiad.*

# Manwerthu

Mae gwasanaethau manwerthu ar-lein yn caniatáu i ddefnyddwyr brynu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol o wefan neu ap. Mae defnyddwyr fel arfer yn gallu pori, chwilio a thalu am gynnyrch drwy'r gwasanaeth. Mae rhai gwasanaethau manwerthu hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr adolygu cynnyrch a phostio negeseuon. Mae marchnadoedd ar-lein fel eBay ac Etsy yn caniatáu i ddefnyddwyr brynu a gwerthu nwyddau neu wasanaethau. Maent yn aml yn caniatáu i ddefnyddwyr neu ddarparwyr greu tudalennau sy'n hysbysebu eu cynnyrch. Gall defnyddwyr yn aml chwilio am gynnwys ac anfon negeseuon uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill. Mae gwasanaethau manwerthu yn cynhyrchu refeniw drwy amrywiaeth o ffrydiau refeniw gan gynnwys gwerthu, croesawu gwerthwyr trydydd parti, tanysgrifiadau a hysbysebu.

## Ar ddiwrnod arferol ymwelodd 35% o'r oedolion ar-lein yn y DU ag Amazon, prif fanwerthwr ar-lein y DU

Ymwelodd wyth deg wyth y cant (41.5m) o oedolion ar-lein y DU ag Amazon ym mis Mai 2024, sy'n cyd-fynd â'r un cyfnod yn y ddwy flynedd flaenorol (Mai 2022: 88%, Mai 2023: 87%). Ar ddiwrnod arferol, roedd 16.4 miliwn (35%) o oedolion ar-lein y DU yn ymweld ag Amazon bob dydd ym mis Mai 2024. Ar 16-17 Gorffennaf 2024 cynhaliodd Amazon ei ddigwyddiad Diwrnod Prime blynyddol, sy'n cynnig bargeinion personol i aelodau Prime. Gwelodd Amazon gynnydd mewn cyrhaeddiad oedolion ar y ddau ddiwrnod dan sylw gyda 48% (22.8m) a 45% (21.5m) o oedolion ar-lein yn y DU yn ymweld ag Amazon ar 16 a 17 Gorffennaf yn y drefn honno; o'i gymharu, y cyrhaeddiad cyfartalog ymhlith oedolion ar-lein bob dydd ym mis Gorffennaf (ac eithrio Diwrnodau Prime) oedd 37% (17.5m).[192] Yn 2023, cyfanswm refeniw gwerthiant Amazon yn y DU ar gyfer ei weithgareddau yn y DU oedd £26.37bn (2022: £24.96bn) sef cynnydd o 5.65% o un flwyddyn i'r llall.[193]

[192] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[193] Amazon SEC Form 10K filing, 31 Rhagfyr 2023. Sylwer: troswyd yr arian cyfred o USD i GBP gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid Banc Lloegr ar gyfer 30 Rhagfyr 2022 a 29 Rhagfyr 2023.

**Ffigur 52: Cynulleidfa oedolion ar-lein y DU a'r amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio gan bob ymwelydd ar y deg gwasanaeth manwerthu mwyaf poblogaidd ym mis Mai 2024: Mai bob blwyddyn 2022- 2024 (miliynau)**

| | Mai 2024 | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth manwerthu | Amser cyfartalog a dreuliwyd fesul ymwelydd (oriau:munudau) | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU % |
| Amazon | 02:16 | 88% |
| eBay | 01:27 | 64% |
| Apple | 00:20 | 43% |
| Temu | 01:25 | 42% |
| Tesco | 00:26 | 39% |
| Argos | 00:11 | 37% |
| ASDA | 00:23 | 32% |
| Marks & Spencer | 00:19 | 28% |
| Boots | 00:09 | 28% |
| Lidl | 00:24 | 27% |




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Nid oes data ar gyfer Temu yn 2022 gan iddo lansio ym mis Ebrill 2023.*

## Cwmnïau Tsieineaidd Temu, AliExpress a Shein yw'r gwasanaethau manwerthu ar-lein sy'n tyfu gyflymaf yn y DU

Fel yr adroddwyd yn ein hadroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2023, gwelodd cwmni e-fasnach Tsieineaidd Temu dwf cyflym yn y misoedd cyntaf ar ôl ei lansio ym mis Ebrill 2023. Roedd Temu wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2023 gyda 45% (21.2m) o gyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU, ac mae wedi aros yn gymharol sefydlog ers hynny (ar wahân i ostyngiad i 16.3m ym mis Chwefror 2024, o bosibl yn gysylltiedig ag achos amlwg o alw cynnyrch yn ôl ar sail diogelwch).[194] Erbyn mis Mai 2024, roedd Temu wedi cyrraedd 42% (20.1m) o oedolion ar-lein yn y DU (Mai 2023: 29%, 13.8m). Ymddangosodd dau gwmni Tsieineaidd arall a oedd yn gymharol newydd i'r sector ymysg y 20 prif wasanaeth manwerthu: y gwerthwr ffasiwn cyflym Shein oedd y 14eg manwerthwr ar-lein mwyaf poblogaidd a oedd wedi cyrraedd 22% (10.5m) o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024, cynnydd o 63% (+4.0m) ers mis Mai 2022 (13%, 6.4m). AliExpress oedd y 17eg gwasanaeth manwerthu ar-lein mwyaf poblogaidd, a oedd wedi cyrraedd 18% (8.4m) o oedolion ar-lein yn y DU, cynnydd o 47% (+2.7m) ym mis Mai 2023 (5.8m), a 79% (+3.7m) ym mis Mai 2022 (4.7m).[195] Mae'n bosibl bod defnyddwyr y DU yn cael eu denu gan y prisiau cystadleuol a gynigir gan y manwerthwyr Tsieineaidd hyn wrth i gartrefi geisio ymdopi â'r argyfwng costau byw.

[194] BBC, TikTok and Temu pull cheap heaters after testing revealed fire risk, 9 Chwefror 2024.
[195] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022, Mai 2023 a Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 53: Cyrhaeddiad AliExpress, Temu a Shein ymhlith oedolion ar-lein yn y DU, yn ôl mis: Mai 2022 – Awst 2024**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Ar-lein Ipsos iris, (BG) AliExpress, (BG) Temu a (BG) Shein, misol: Mai 2022 – Awst 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.*

## eBay yw'r farchnad ar-lein fwyaf poblogaidd, ac yna Facebook Marketplace

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd wedi bod yn y defnydd o farchnadoedd ar-lein lle mae defnyddwyr yn prynu, yn gwerthu neu'n cyfnewid nwyddau gan ddefnyddwyr eraill y llwyfan ac yn gallu rhyngweithio â'r defnyddwyr hyn. Canfu ymchwil Ofcom fod 75% o boblogaeth ar-lein y DU sy'n 16 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi defnyddio marchnad ar-lein[196] yn Ch2 2024, gyda 57% yn defnyddio eBay.[197] Fel y gwelir yn Ffigur 52 uchod, eBay oedd yr ail wasanaeth manwerthu mwyaf poblogaidd ymysg oedolion y DU ym mis Mai 2024.[198] Facebook Marketplace[199] oedd yr ail farchnad ar-lein a ddefnyddir fwyaf yn ein harolwg (40%).[200]

Lansiwyd Vinted yn 2014 a thyfodd yn sylweddol yn ystod y pandemig, wedi'i sbarduno o bosibl gan ddefnyddwyr yn clirio'u cartrefi. Ym mis Mai 2022 roedd 10% (4.8m) o oedolion ar-lein yn y DU wedi ymweld â Vinted, ac erbyn mis Mai 2023 roedd hyn wedi dyblu i 20% (9.4m), cyn codi i 24% (11.4m) erbyn mis Mai 2024. O'i gymharu, mae cyrhaeddiad eBay wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf. Ym mis Mai 2024, roedd cyfansoddiad rhywedd oedolion eBay wedi'i rannu'n gyfartal (dynion: 49% o'i gymharu â 51% o fenywod), ond roedd Vinted yn gogwyddo'n drwm tuag at fenywod (78% o'i gymharu â 22% o ddynion) yn yr un modd â Depop ac Etsy (66% o fenywod o'i gymharu â 34% o ddynion gan y ddau). Roedd chwarter (25%) cynulleidfa oedolion Vinted rhwng 25 a 34 oed, sef ei garfan oedran fwyaf, a ddilynwyd yn agos gan bobl rhwng 35 a 44 oed gyda 23% (18-

[196] Yn seiliedig ar ymateb o ran defnyddio wyth marchnad ar-lein: Ebay, Facebook Marketplace, Etsy, Vinted, Depop, Vestaire Collective, Shpock a Poshmark

[197] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

[198] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Ar-lein Ipsos iris, (BG) eBay, Mai 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

[199] Nid yw Ipsos iris yn adrodd ynghylch Facebook Marketplace gan ei fod wedi'i gynnwys o fewn llwyfan Facebook yn gyffredinol.

[200] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

24 oed: 14%). Roedd cynulleidfa oedolion Depop yn cynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed yn bennaf (44%) ac yna pobl rhwng 25 a 34 oed (27%).[201]

Er mai'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar farchnadoedd ar-lein yn Ch2 2024 oedd pori'r gwasanaeth (66%), dywedodd traean o'r bobl ar-lein yn y DU sy'n 16 oed a hŷn eu bod wedi cysylltu â phrynwr neu werthwr.[202]

**Ffigur 54: Y pum prif farchnad ar-lein yn y DU a'r gweithgareddau a gyflawnir, defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn: Ch2 2024**

| | | Y gweithgareddau a gyflawnir ar farchnadoedd fel cyfran o holl ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Marchnad ar-lein | Pobl ar-lein yn y DU sy'n 16 oed a hŷn a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r gwasanaeth yn Ch2 2024 | Rwyf wedi pori'r gwasanaeth | Rwyf wedi postio eitemau sydd ar werth | Rwyf wedi prynu eitemau | Rwyf wedi rhyngweithio/ sgwrsio â phrynwr/gwerthwr |
| **Ebay** | 57% | 45% | 14% | 35% | 15% |
| **Facebook Marketplace** | 40% | 34% | 14% | 11% | 13% |
| **Etsy** | 36% | 29% | 2% | 18% | 7% |
| **Vinted** | 31% | 24% | 15% | 17% | 14% |
| **Depop** | 10% | 7% | 3% | 3% | 3% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 11: Gan feddwl am y tri mis diwethaf (h.y. ers dechrau mis Ebrill)... Pa rai o'r gweithgareddau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi cymryd rhan ynddynt ar y marchnadoedd ar-lein a restrir yn ystod y cyfnod hwn? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol). Nid yw'r ymatebion ar gyfer Vestiaire Collective, Poshmark a Shpock yn cael eu dangos. Nid yw'r ymatebion ar gyfer 'Rhywbeth arall' yn cael eu dangos. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2100).*

## Storio yn y cwmwl

Mae gwasanaethau storio yn y cwmwl yn galluogi defnyddwyr i storio cynnwys digidol, fel dogfennau, lluniau a delweddau a fideos eraill ar-lein. Mae'r cynnwys yn cael ei rannu ac ar gael drwy'r rhyngrwyd. Gall defnyddwyr rannu mynediad at y cynnwys digidol gyda phobl eraill drwy ddolenni gwe (fel URLs neu hyperddolenni unigryw) sy'n arwain yn syth at y cynnwys, neu drwy wahodd defnyddwyr eraill i fynd at y cynnwys. Mae rhai gwasanaethau yn caniatáu i ddefnyddwyr

[201] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Ar-lein Ipsos iris, (BG) eBay, Vinted, Etsy a Depop, Mai 2022/2023/2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.
[202] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

olygu cynnwys digidol mewn amser real ochr yn ochr â defnyddwyr eraill. Mae rhai gwasanaethau'n defnyddio modelau tanysgrifio i gynhyrchu refeniw, tra bo eraill yn defnyddio hysbysebion ar-lein.

## Dywedodd pum deg saith y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 16+ oed yn y DU eu bod wedi defnyddio gwasanaeth storio yn y cwmwl yn ystod yr wythnos diwethaf

Canfu arolwg Ofcom a gynhaliwyd ar 2-3 Gorffennaf 2024 fod 57% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi defnyddio gwasanaeth storio yn y cwmwl yn ystod yr wythnos diwethaf. Roedd pobl iau yn fwy tebygol nag oedolion hŷn o fod wedi gwneud hyn (16-24: 81% o'i gymharu â rhai 55+: 36%). Yn gyffredinol, dywedodd 77% eu bod wedi defnyddio gwasanaeth storio yn y cwmwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Google Drive oedd y gwasanaeth mwyaf poblogaidd a fu'n cael ei ddefnyddio gan hanner defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn yn y flwyddyn ddiwethaf (gweler Ffigur 56). Roedd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n defnyddio Google Drive yn gwneud hynny am resymau personol (78%), gyda 27% yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith a 14% yn ei ddefnyddio at ddibenion astudio; roedd 43% o bobl rhwng 16 a 24 oed sy'n defnyddio Google Drive yn ei ddefnyddio am resymau sy'n ymwneud ag astudio. Roedd Microsoft OneDrive yr un mor debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith neu astudio, gyda 51% yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio ar gyfer gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a 51% wedi'i ddefnyddio at ddibenion astudio. Roedd y rhan fwyaf (92%) o ddefnyddwyr Apple iCloud wedi defnyddio'r gwasanaeth am resymau personol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bo 8% yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio ar gyfer gwaith a 5% ar gyfer astudio.[203]

**Ffigur 55: Defnyddwyr rhyngrwyd 16+ oed yn y DU sydd wedi defnyddio gwasanaeth storio yn y cwmwl yn y flwyddyn ddiwethaf (Gorffennaf 2023 - Mehefin 2024)**

| Oedran: | 16+ | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddwyr rhyngrwyd y DU sydd wedi defnyddio gwasanaeth storio yn y cwmwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf** | 77% | 95% | 90% | 84% | 79% | 61% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 1: Pa un o'r datganiadau canlynol, os o gwbl, sy'n disgrifio orau pryd y gwnaethoch chi ddefnyddio pob un o'r gwasanaethau storio yn y cwmwl a restrir ddiwethaf? Y rhai a ddewisodd yn yr wythnos ddiwethaf/yn y mis diwethaf/yn y flwyddyn ddiwethaf. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2100).*

[203] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

**Ffigur 56: Defnyddwyr rhyngrwyd 16+ oed yn y DU sydd wedi defnyddio gwasanaethau storio yn y cwmwl yn y flwyddyn ddiwethaf: Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 1: Pa un o'r datganiadau canlynol, os o gwbl, sy'n disgrifio orau pryd y gwnaethoch chi ddefnyddio pob un o'r gwasanaethau storio yn y cwmwl a restrir ddiwethaf? Y rhai a ddewisodd yn yr wythnos ddiwethaf/yn y mis diwethaf/yn y flwyddyn ddiwethaf. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2100).*

## Mae tri o bob deg sy'n defnyddio Google Drive wedi rhannu cynnwys neu ddolenni gwe o Google Drive gydag eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Storio ffeiliau oedd y rheswm mwyaf poblogaidd dros ddefnyddio gwasanaethau storio yn y cwmwl ar draws yr holl wasanaethau a arolygwyd gennym, ac eithrio WeTransfer, y gwasanaeth trosglwyddo ffeiliau ar-lein, sydd, fel y gellid disgwyl, yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i rannu cynnwys neu ddolenni gwe gyda phobl eraill (64%). Cydweithio ar ffeiliau a rennir oedd yr ail swyddogaeth fwyaf poblogaidd a nodwyd gan ddefnyddwyr Microsoft OneDrive (37%), a dyma'r gyfran uchaf o ddefnyddwyr i nodi'r swyddogaeth hon ar draws yr holl wasanaethau storio yn y cwmwl a arolygwyd. [204]

[204] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

**Ffigur 57: Nodweddion a swyddogaethau gwasanaethau storio yn y cwmwl a ddefnyddir gan ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y DU sy'n 16 oed a hŷn (Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024)**

| | | Ymysg y rhai sydd wedi defnyddio gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Defnyddwyr rhyngrwyd 16+ oed yn y DU sydd wedi defnyddio gwasanaeth | Storio ffeiliau yn y cwmwl (e.e. dogfennau, lluniau a fideos) | Rhannu cynnwys a/neu ddolenni gwe â phobl eraill | Ymateb neu wneud sylwadau ar gynnwys sy'n cael ei rannu gan bobl eraill | Cydweithio ar ffeiliau a rennir (e.e. golygu dogfennau) |
| **Google Drive** | 50% | 77% | 30% | 11% | 30% |
| **Microsoft OneDrive** | 47% | 75% | 32% | 15% | 37% |
| **Apple iCloud** | 38% | 88% | 11% | 7% | 8% |
| **Dropbox** | 20% | 57% | 40% | 9% | 16% |
| **Amazon Photos** | 15% | 73% | 14% | 11% | 8% |
| **WeTransfer** | 12% | 18% | 64% | 10% | 16% |
| **Mega** | 6% | 42% | 36% | 21% | 18% |
| **BT Cloud** | 6% | 45% | 30% | 26% | 16% |
| **Box** | 5% | 40% | 38% | 29% | 33% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiwn 3: Pa nodweddion a swyddogaethau ydych chi fel arfer yn eu defnyddio? Nid yw'r ymatebion ar gyfer 'rhyw nodwedd neu swyddogaeth arall' yn cael eu dangos. Nid yw'r ymatebion 'ddim yn gwybod' yn cael eu dangos ychwaith. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 16+ oed yn y DU sydd wedi defnyddio gwasanaethau storio yn y cwmwl yn y 12 mis diwethaf (96-1028).*

## Apple iCloud+ yw'r gwasanaeth storio yn y cwmwl â thâl mwyaf poblogaidd y mae cartrefi yn y DU yn tanysgrifio iddo

Dywedodd chwarter (26%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU sy'n 16 oed a hŷn fod ganddynt fynediad gartref at danysgrifiad â thâl Apple iCloud. Y tanysgrifiad mwyaf poblogaidd a gynigir gan Apple iCloud yw Apple iCloud+ gyda haen storio 50GB â thâl - mae'n cael ei enwi gan 15% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn; fe'i dilynir gan yr haen 5GB sydd ar gael yn rhad ac am ddim (9%), yr haen 200GB (8%) a'r haen 2TB (3%).[205] Haen storio 15GB yn y cwmwl am ddim oedd tanysgrifiad mwyaf poblogaidd Google sy'n cael ei enwi gan 22%; fe'i dilynir gan yr haen 100GB sylfaenol (9%) a thanysgrifiad Google a ddarperir gan sefydliadau gwaith neu addysg (4%). Mynediad

[205] Roedd haenau eraill wedi'u cynnwys yn yr arolwg hefyd, gyda phob un o'r rhain wedi'i enwi gan lai na 0.5%. Gweler Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

at Microsoft OneDrive oedd y mwyaf tebygol o gael ei ddarparu gan sefydliadau gwaith neu addysg (14%), wedyn y fersiwn 5GB am ddim (12%) ac yna haenau Microsoft 365 'Basic' (100GB) neu 'Personal' (1TB) - enwyd y ddau gan 5% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn.[206]

### Ffigur 58: Defnyddwyr rhyngrwyd 16+ oed yn y DU sy'n dweud bod ganddynt fynediad gartref at wasanaeth tanysgrifio ar gyfer storio yn y cwmwl

| | Apple iCloud(+) | Google OneDrive | Microsoft OneDrive |
|---|---|---|---|
| **Unrhyw danysgrifiad (am ddim neu â thâl)** | 36% | 40% | 39% |
| **Unrhyw danysgrifiad â thâl** | 26% | 14% | 13% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024. Cwestiynau 4-6: Pa rai o'r tanysgrifiadau [gwasanaeth storio yn y cwmwl] canlynol, os o gwbl, sy'n caniatáu mynediad at le storio a nodweddion ychwanegol, ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref yn gallu cael mynediad atynt ar hyn o bryd? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2100).*

[206] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein, Gorffennaf 2024, oedran: 16+, y DU.

# 5. Y profiad ar-lein

## Cyflwyniad

Mae’r bennod hon yn edrych ar brofiadau oedolion a phlant o fod ar-lein ac mae’n canolbwyntio ar brofiadau cadarnhaol a buddiol pobl, ac ar y cynnwys neu’r ymddygiad niweidiol maen nhw’n dod ar eu traws. Lle bo’n bosibl, mae’r bennod yn edrych ar brofiadau oedolion a phlant ar-lein ar wahân.[207]

**Nodyn ar fethodoleg yr ymchwil a therminoleg ynghylch ‘niwed posibl’**

Er bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn cynnig llawer o fanteision i oedolion a phlant, mae gan yr amgylchedd ar-lein y potensial hefyd i wneud defnyddwyr y rhyngrwyd yn agored i niwed. Nid yw pob digwyddiad o gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein yn arwain at achosi niwed seicolegol (neu ariannol) mewn gwirionedd, felly cyfeirir atynt fel ‘niwed posibl’ yn y bennod hon.

Mae’r data sy’n ymwneud â math a chyffredinrwydd niwed posibl yn cyfeirio at ymatebion gan ddefnyddwyr y rhyngrwyd o ddod ar draws ‘niwed posibl’ yn y pedair wythnos cyn cwblhau arolwg Traciwr Profiadau Ar-lein (OET) Ofcom. Mae rhagor o ddata OET sy’n ymwneud â lleoliad ac effaith ac ymateb i niwed posibl yn ymwneud â’r ‘niwed posibl mwyaf diweddar’, sy’n dangos y cynnwys niweidiol posibl mwyaf diweddar y daeth ymatebwyr ar ei draws yn ystod y pedair wythnos cyn cwblhau’r arolwg. I gasglu’r data hwn, mae ymatebwyr yr arolwg yn cael rhestr o niwed posibl, ac mae eu hymatebion yn seiliedig ar eu gallu i gofio a barnu’r cynnwys a’r ymddygiad maen nhw’n credu sy’n cyd-fynd â’r rheini sydd wedi’u rhestru yn yr holiadur.

Un o’r pethau sydd wedi’i gynnwys yn y rhestr o niwed yn yr holiadur OET yw cynnwys sy’n niweidiol o bosibl i blant, sy’n dod o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, ac sydd hefyd yn ymestyn i fathau eraill o gynnwys ac ymddygiad, er mwyn cael amrywiaeth ehangach o brofiadau ar-lein.[208] Mae’r data hefyd yn seiliedig ar gategoreiddio defnyddwyr eu hunain o’r math o lwyfan, felly efallai na fydd cyfeiriad at y math o lwyfan yn y bennod hon yn cyd-fynd â’r categorïau o fath o lwyfan y cyfeirir atynt yn y penodau cynharach neu yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae’r gwahaniaethau sy'n cael eu hystyried ymysg is-grwpiau, o’i gymharu â’r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin neu’r holl ddefnyddwyr, yn cyfeirio at ddefnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU. Oni nodir yn wahanol, mae’r data wedi cael ei brofi’n sylweddol yn ystod y bwlch hyder o 95% neu 99%.

Yn ogystal â data a gesglir o’r OET, rydym yn cynnwys data o Draciwr Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) Ofcom sy’n edrych ar ymwybyddiaeth o ‘reolau’ llwyfannau a disgwyliadau defnyddwyr am y cynnwys a’r ymddygiad maen nhw’n dod ar eu traws ar-lein.[209]

[207] Oni nodir yn wahanol, mae’r ffigurau a nodir drwy gydol y bennod hon yn dod o’n data OET. Cyfeirir at y data fel a ganlyn: Mehefin 2023 (cyhoeddwyd Hydref 2023); Ionawr 2024 (cyhoeddwyd Ebrill 2024) a Mehefin 2024 (cyhoeddwyd Hydref 2024). Mae dyddiadau cyhoeddi yn amrywio, felly yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y dyddiad y gwnaed y gwaith maes ar gyfer pob ton.
[208] Mae rhestr lawn o’r niwed posibl sy’n cael ei ddefnyddio i annog cyfranogwyr ar gael yn yr holiadur.
[209] Sylwch, pan fyddwn yn cyfeirio at niwed posibl ar gyfer data traciwr VSP, mae hyn yn cael ei ddiffinio yn ein harolwg fel fideos sydd, ym marn defnyddwyr, yn ‘dreisgar, camdriniol neu amhriodol.’

## Manteision ac anfanteision y rhyngrwyd

### Ym mis Mehefin 2024, roedd dwy ran o dair o oedolion yn credu bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau, ond mae'r gyfran honno'n gostwng

Canfu OET Ofcom, pan ofynnwyd iddynt ystyried effaith bod ar-lein, fod y mwyafrif (67%) o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn cytuno bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau iddyn nhw'n bersonol, gyda dim ond 7% yn anghytuno. Er bod y mwyafrif yn cydnabod y manteision, roedd y gyfran honno wedi gostwng ers dwy don flaenorol y traciwr, o 71% ym mis Mehefin 2023 a 68% ym mis Ionawr 2024. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae defnyddwyr wedi dod yn fwyfwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n 'niwtral' ar y pwnc (Mehefin 2023: 23% o'i gymharu â Mehefin 2024: 26%).

Mae rhai grwpiau demograffig o oedolion yn *llai* tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod y manteision yn drech na'r risgiau; fel y gwelir yn y data o fis Mehefin 2024 mae hyn yn cynnwys menywod (65%), pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed (59%), pobl 65 oed a hŷn (64%), C2DE (62%) a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol (62%). Dim ond hanner yr oedolion sy'n ystyried eu hunain yn Fwslimiaid oedd yn teimlo bod y manteision yn drech na'r risgiau – dyma'r gyfran isaf o blith unrhyw grŵp demograffig lle mae data ar gael. Roedd oedolion ifanc (11%) a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (10%) hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gredu bod y risgiau'n drech na'r manteision.

**Ffigur 59: Agweddau oedolion at fanteision a risgiau personol mynd ar-lein: *'Mae manteision mynd ar-lein yn drech na'r risgiau'* o'i gymharu â '*I mi'n bersonol, mae'r risgiau o fynd ar-lein yn drech na'r manteision*': Mehefin 2024**

| Grwpiau demograffig | | Mae'r manteision yn drech na'r risgiau | Niwtral | Mae'r risgiau'n drech na'r manteision |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | Oedolion 18 oed a hŷn | 67% | 26% | 7% |
| **Rhyw** | Menywod | 65% | 28% | 7% |
| | Dynion | 70% | 23% | 7% |
| **Oedran** | 18-24 | 59% | 29% | 11% |
| | 25-34 | 70% | 22% | 8% |
| | 35-44 | 72% | 23% | 5% |
| | 45-54 | 69% | 26% | 5% |
| | 55-64 | 67% | 28% | 5% |
| | 65+ | 64% | 29% | 7% |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol (SEG)** | ABC1 | 71% | 22% | 6% |
| | C2DE | 62% | 31% | 7% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 70% | 24% | 5% |
| | Lleiafrifoedd ethnig | 62% | 29% | 10% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Heterorywiol | 67% | 26% | 7% |
| | Hoyw neu lesbiad | 78% | 19% | 4% |
| | Deurywiol | 75% | 20% | 5% |

| Grwpiau demograffig | | Mae'r manteision yn drech na'r risgiau | Niwtral | Mae'r risgiau'n drech na'r manteision |
|---|---|---|---|---|
| **Unrhyw gyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Oes | 66% | 27% | 7% |
| | Nag oes | 70% | 24% | 6% |

*Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm o 95% hyder* *Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm o 95% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C1. 'I fi yn bersonol, mae manteision mynd ar-lein yn drech na'r risgiau' o'i gymharu â 'I mi'n bersonol, mae'r risgiau o fynd ar-lein yn drech na'r manteision.' Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (7280).*

## Roedd y rhan fwyaf o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein, ond er hynny roedd gan lawer ohonynt strategaethau ar waith i reoli faint o amser maen nhw'n ei dreulio ar-lein

Ym mis Mehefin 2024, canfu arolwg OET Ofcom fod 67% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein, gyda'r gyfran hon yn aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall (Mehefin 2023: 67%). Er bod y mwyafrif yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein, canfu ein harolwg Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau fod gan fwy na dwy ran o dair (68%) o oedolion strategaethau ar waith i reoli eu lles a'u hamser ar-lein: Mae 27% o oedolion yn neilltuo amser iddyn nhw eu hunain pan nad ydyn nhw ar-lein, mae 26% o oedolion yn analluogi hysbysiadau ar ddyfeisiau neu'n defnyddio gosodiadau 'peidio â tharfu', ac mae 21% o oedolion yn dewis peidio â mynd â dyfeisiau fel ffonau a dyfeisiau tabled i'r gwely gyda nhw.[210]

Er bod cyfran fach o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo nad oedd ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein (14%), roedd oedolion ifanc yn fwy tebygol o anghytuno nag oedolion hŷn (18-24 oed: 21% o'i gymharu â rhai 55+: 7%). Gall pryderon oedolion ifanc fod yn gysylltiedig â'u defnydd o gyfryngau cymdeithasol:  Canfu Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau Ofcom fod 48% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn teimlo eu bod yn treulio gormod o amser ar gyfryngau cymdeithasol o'i gymharu â dim ond 8% o bobl 65 oed a hŷn (16 oed a hŷn: 28%).[211]

## Roedd bron i hanner y plant rhwng 8 a 15 oed yn poeni am faint o amser roedden nhw'n ei dreulio ar-lein

Ym mis Mawrth 2024 canfu arolwg Ofcom o faint o amser mae pobl yn ei dreulio o flaen sgrin fod 43% o blant rhwng 8 a 15 oed ym Mhrydain Fawr yn dweud eu bod wedi gwneud eu gorau i dreulio llai o amser ar-lein ar o leiaf un math o ap neu wasanaeth, ac mae hynny'n adlewyrchiad uniongyrchol o'r 44% o blant rhwng 8 a 15 oed a oedd wedi dweud eu bod yn poeni am faint o amser roedden nhw'n ei dreulio ar o leiaf un math o wasanaeth ar-lein.[212]

[210] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023, Ofcom.
[211] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023, Ofcom.
[212] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Amser plant o flaen sgrin, Mawrth 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.

Roedd pryderon plant am yr amser sy'n cael ei dreulio o flaen sgrin yn cynyddu gydag oedran, gyda 35% o blant 8-9 oed, 46% o blant 10-12 oed, a 51% o blant 13-15 oed yn dweud eu bod yn poeni am faint o amser roeddent yn ei dreulio ar o leiaf un math o wasanaeth. Y gwasanaethau ar-lein yr oedd defnyddwyr 8-15 oed yn arbennig o bryderus amdanynt oedd llwyfannau rhannu fideos (VSPs, 23%), gemau ar-lein (23%), a chyfryngau cymdeithasol (20%).[213]

Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod yn poeni am dreulio gormod o amser ar-lein, crybwyllodd y rhan fwyaf o blant effeithiau iechyd meddwl (49%) a chorfforol (46%) treulio amser ar-lein, ac yna pryderon am waith cartref (38%), a'u perthynas ag aelodau o'r teulu (29%).[214]

Roedd bechgyn ym Mhrydain Fawr yn fwy tebygol na merched o boeni am dreulio gormod o amser yn chwarae gemau (25% o'i gymharu â 20%); ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi ceisio lleihau'r amser a dreulir yn chwarae gemau (23% o'i gymharu â 16%). O'r plant a ddywedodd eu bod wedi ceisio lleihau'r amser roeddent yn ei dreulio ar o leiaf un math o wasanaeth, dywedodd 15% nad oeddent erioed wedi bod yn llwyddiannus. Y rheswm a ddewiswyd fwyaf dros pam ei bod hi'n anodd lleihau'r amser a dreulir ar-lein oedd eu bod yn '*teimlo fel petaent yn colli allan'* (53%), ac yna eisiau '*cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu'* (35%), ac '*angen dod o hyd i wybodaeth am rywbeth'* (23%). Dywedodd bron i hanner (46%) y plant eu bod wedi derbyn hysbysiad i fewngofnodi eto.[215]

## Ystyriwyd bod mynd ar-lein yn darparu ystod eang o gyfleoedd personol i ddefnyddwyr y rhyngrwyd, a'i fod yn rhoi llais i rai oedd o bosibl yn teimlo nad oedd ganddyn nhw un all-lein

Dangosodd ymchwil Ofcom sut mae mynd ar-lein yn gallu rhoi cyfleoedd i oedolion ar gyfer cysylltiad, addysg, adloniant a chreadigrwydd. Mae saith o bob deg oedolyn (72%) yn cytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein wedi eu helpu i ddysgu sgil newydd, ac mae 77% yn cytuno ei fod wedi'u helpu i ehangu eu dealltwriaeth neu eu barn am y byd.[216]

I blant, mae mynediad at y byd ar-lein yn cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chysylltu â'u ffrindiau. Er enghraifft, roedd 81% o blant rhwng 3 a 17 oed yn defnyddio apiau ar gyfer anfon negeseuon a gwneud galwadau llais/fideo, sy'n dangos perthynas gref â rhyngweithio ag eraill ar-lein. Ar gyfer plant 12-17 oed, roedd y manteision eraill a nodwyd yn cynnwys helpu gyda gwaith ysgol/gwaith cartref (80%), dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am unrhyw broblemau a allai fod ganddynt (59%) a dysgu sgil newydd (52%).[217]

Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2024 dywedodd 40% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 13 oed a hŷn eu bod yn gallu '*rhannu eu barn a chael llais*' yn haws neu'n fwy effeithiol ar-lein nag all-lein - mae hynny wedi codi o 37% ym mis Mehefin 2023. Y grwpiau demograffig sy'n fwyaf tebygol o gytuno â hyn yw plant 13-17 oed (50%), oedolion 18-24 oed (54%) a 25-34 oed (47%), lleiafrifoedd ethnig (54%), Mwslimiaid (53%) a'r rheini sydd â chyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt (44%). Roedd dynion (44%) yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na menywod (36%).

Ar ben hynny, roedd mwy o ddefnyddwyr yn cytuno eu bod yn '*teimlo'n fwy rhydd i fod eu hunain ar-lein'* gyda 32% ym mis Mehefin 2024 o'i gymharu â 28% ym mis Mehefin 2023; a dywedodd mwy

---

[213] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Amser plant o flaen sgrin, Mawrth 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.
[214] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Amser plant o flaen sgrin, Mawrth 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.
[215] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Amser plant o flaen sgrin, Mawrth 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.
[216] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2023, Ofcom.
[217] Ofcom, Plant a Rhieni: adroddiad ar agweddau a defnyddio'r cyfryngau, 2024.

o ddefnyddwyr (34%) fod mynd ar-lein yn cael '*effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl yn gyffredinol*' o'i gymharu â mis Mehefin 2023 (32%).

## Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn teimlo bod y manteision yn drech na'r risgiau iddyn nhw'n bersonol, dim ond 40% oedd yn cytuno bod y rhyngrwyd yn dda i gymdeithas

Er bod dwy ran o dair (67%) o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn dweud bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau iddyn nhw'n bersonol, dim ond dwy ran o bump (40%) oedd yn cytuno â'r datganiad bod y rhyngrwyd yn '*dda i gymdeithas*'. Dywedodd lleiafrif (15%) fod y rhyngrwyd yn '*niweidiol i gymdeithas*' a dywedodd 45% eu bod yn teimlo'n niwtral ar y pwnc.

Roedd defnyddwyr gwrywaidd yn fwy tebygol na rhai benywaidd o ddweud bod y rhyngrwyd yn dda i gymdeithas, y lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na phobl wyn, a'r rheini sydd â chyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt yn fwy tebygol na'r rheini heb gyflwr o'r fath.

**Ffigur 60: Agweddau oedolion ar-lein at elfennau cadarnhaol a negyddol y rhyngrwyd ar gyfer cymdeithas: *'Mae'r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas'* o'i gymharu â *'Mae'r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas'* yn ôl demograffig: Mehefin 2024**

| Grwpiau demograffig | | Mae'r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas | Niwtral | Mae'r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | Oedolion 18+ oed | 40% | 45% | 15% |
| **Rhyw** | Menywod | 34% | 50% | 16% |
| | Dynion | 47% | 39% | 14% |
| **Oedran** | 18-24 | 39% | 43% | 19% |
| | 25-34 | 43% | 42% | 14% |
| | 35-44 | 40% | 45% | 16% |
| | 45-54 | 40% | 45% | 15% |
| | 55-64 | 37% | 47% | 16% |
| | 65+ | 39% | 46% | 15% |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol (SEG)** | ABC1 | 42% | 44% | 14% |
| | C2DE | 36% | 46% | 18% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 39% | 45% | 16% |
| | Lleiafrifoedd ethnig | 42% | 43% | 15% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Heterorywiol | 40% | 45% | 15% |
| | Hoyw neu lesbiad | 49% | 38% | 12% |
| | Deurywiol | 43% | 43% | 14% |
| **Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Oes | 36% | 47% | 18% |
| | Nag oes | 43% | 43% | 14% |

*Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm o 95% hyder*    *Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm o 95% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C1. 'Mae'r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas o'i gymharu â Mae'r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas.' Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (7280).*

## Mae lefelau uchel o bryder am niwed ar-lein, gyda lefelau pryder yn uwch ymysg menywod na dynion

Ym mis Mehefin 2024, roedd 97% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn poeni am o leiaf un math o niwed ar-lein a nodwyd, sy'n gyson â mis Mehefin 2023 (97%) a mis Ionawr 2023 (96%). Roedd pobl ifanc yn eu harddegau 13-17 oed (90%) yn llai tebygol o boeni am niwed posibl ar-lein o'i gymharu â'r rheini sy'n 18 oed a hŷn (97%), er nad oedd pobl ifanc yn eu harddegau wedi cael gweld codau ar gyfer rhai o'r mathau mwyaf difrifol o niwed posibl ar-lein.[218] Roedd menywod yn tueddu i boeni mwy na dynion (98% o'i gymharu â 97%), ac roedd merched yn eu harddegau yn tueddu i boeni mwy na bechgyn yn eu harddegau (94% o'i gymharu ag 86%).

[218] Ni ddangosir y codau ymateb canlynol i blant sy'n ymateb i'r OET: Cynnwys sy'n dangos cam-drin plant yn rhywiol […]; Hyrwyddo anffurfio organau cenhedlu benywod; Cynnwys sy'n hysbysebu puteindra […]; Cynnwys sy'n hwyluso masnachu pobl.

Ym mis Mehefin 2024, roedd oedolion sy'n defnyddio’r rhyngrwyd yn poeni fwyaf am gynnwys sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mehefin 2024 roedd pryderon am y niwed posibl hwn yn dal yn weddol gyson, ond ym mis Mehefin 2024 roedd menywod yn llawer mwy pryderus na dynion am rai mathau o niwed posibl ar-lein, yn enwedig eithafiaeth (87% o’i gymharu â 77%), masnachu pobl (86% o’i gymharu â 76%), cynnwys hunanladdiad (86% o’i gymharu â 77%), cynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod (85% o’i gymharu â 74%) a chynnwys cas neu sarhaus (83% o’i gymharu â 67%). Nid oedd unrhyw niwed penodol ar-lein lle'r oedd y lefelau pryder yn uwch ymysg dynion na benywod.

Roedd hunanladdiad yn dal yn bryder mawr ymysg defnyddwyr 13-17 oed, gyda 70% yn pryderu amdano ym mis Mehefin 2024, i fyny o 64% ym mis Ionawr. Roedd pryderon am fygythiadau i rannu, neu rannu lluniau personol (64%), ac eithafiaeth (63%) hefyd wedi cynyddu ymysg pobl ifanc 13-17 oed o’i gymharu â mis Ionawr 2024 (53% ar gyfer y ddau). Ym mis Mehefin 2024, roedd merched 13-17 oed yn llawer mwy tebygol o boeni am nifer o fathau posibl o niwed ar-lein na bechgyn o’r un oed, fel cynnwys rhywiol neu bornograffig (67% o’i gymharu â 48%), cynnwys sy’n dangos casineb at fenywod (60% o’i gymharu â 51%), cynnwys sy’n dangos trais neu anaf (64% o’i gymharu â 52%), cynnwys sy’n hyrwyddo hunan-niwed (75% o’i gymharu â 59%), a chynnwys sy’n hyrwyddo deiet/ymarfer corff gormodol neu afiach (51% o’i gymharu â 37%). Roedd bechgyn o’r un oed yn llai tebygol o boeni am y rhan fwyaf o’r mathau o niwed a restrwyd, ac yn llawer llai tebygol o boeni am y rhai a restrwyd uchod.

**Ffigur 61: Y pum niwed posibl sydd â’r lefelau uchaf o bryder ymysg oedolion a phlant 13-17 oed ar-lein, yn seiliedig ar y ganran a oedd wedi nodi lefel pryder o 4 neu 5 ar raddfa 5 pwynt.**

| Pryderon oedolion, 5 uchaf | Meh 2023 | Ion 2024 | Meh 2024 | Pryderon plant (13-17), 5 uchaf | Meh 2023 | Ion 2024 | Meh 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnwys sy’n dangos cam-drin rhywiol neu gamfanteisio’n rhywiol ar blant | 89% | 87% | 88% | Cynnwys sy’n hyrwyddo hunanladdiad | 66% | 64% | 70% |
| Cynnwys sy’n annog eithafiaeth | 82% | 80% | 81% | Cynnwys sy’n dangos creulondeb i anifeiliaid | 67% | 64% | 68% |
| Cynnwys sy’n hwyluso masnachu pobl | 81% | 80% | 81% | Cynnwys sy'n hyrwyddo hunan-niwed | 61% | 61% | 67% |
| Cynnwys sy’n hyrwyddo hunanladdiad | 80% | 79% | 81% | Bwlio cyson ar-lein | 60% | 62% | 65% |
| Cynnwys sy’n dangos creulondeb i anifeiliaid | 80% | 77% | 79% | Cynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol | 60% | 56% | 61% |

*Dynodir ton ar don uwch gyda 99% hyder* *Dynodir ton ar don is gyda 99% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023 C7. Isod ceir rhestr o bethau y gallai rhywun ddod ar eu traws ar y rhyngrwyd. Dywedwch wrthyf ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu ‘ychydig yn bryderus’ a 5 yn golygu ‘pryderus iawn’, crëwyd net sy’n cyfuno 4 a 5 i ddangos pryder mawr. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed a hŷn yn y DU (Mehefin 2023: 13205, Ionawr 2024: 7068, Mehefin 2024: 7280) a 13-17 oed (Mehefin 2023: 976, Ionawr 2024: 543, Mehefin 2024: 557).*

# Cysylltiad defnyddwyr y rhyngrwyd â niwed posibl ar-lein

## Roedd mwy o ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedi honni'n ddigymell eu bod wedi gweld rhywbeth ar-lein yn ddiweddar sy'n peri gofid, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Ym mis Mehefin 2024, dywedodd tri o bob deg (30%) defnyddiwr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU eu bod wedi gweld rhywbeth (a oedd heb ei bennu ar y cam hwn yn yr arolwg) yn ystod y pedair wythnos diwethaf a oedd wedi gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn ypset neu'n negyddol, a oedd yn gynnydd o 3pc ers mis Mehefin 2023 (27%). Wrth archwilio gwahaniaethau o fewn grwpiau o ddefnyddwyr, gwelsom fod defnyddwyr 18-24 oed (45%) yn fwy tebygol o ddweud hyn na'r rhan fwyaf o grwpiau oedran eraill; ac roedd unigolion o leiafrifoedd ethnig (38%) 10pc yn fwy tebygol na defnyddwyr rhyngrwyd gwyn (28%). Yn yr un modd, roedd y rheini sy'n ystyried eu hunain yn LHD+[219] (48%) 20pc yn fwy tebygol na phobl heterorywiol o ddweud hyn (28%).

Po fwyaf o amser y dywedodd defnyddwyr 13 oed a hŷn eu bod yn ei dreulio ar-lein bob wythnos (y tu allan i'r gwaith neu'r ysgol), y mwyaf tebygol oeddent o ddweud eu bod wedi gweld rhywbeth ar-lein sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn ypset neu'n negyddol. Roedd defnyddwyr mawr (sy'n dweud eu bod yn treulio mwy na 23 awr ar-lein bob wythnos) yn llawer mwy tebygol (35%) na defnyddwyr canolig (6-22 awr, 29%) a defnyddwyr isel (llai na 6 awr, 24%) o fod wedi dod ar draws rhywbeth ar-lein sy'n gwneud iddynt deimlo'n ypset neu'n negyddol yn ystod y pedair wythnos diwethaf.

**Ffigur 62: Cyfran y defnyddwyr yn y DU a oedd wedi dod ar draws rhywbeth sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn ypset neu'n negyddol ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf, yn ôl demograffig**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C6a Gan feddwl yn ôl dros y 4 wythnos diwethaf, ydych chi wedi dod ar draws unrhyw beth ar y rhyngrwyd sydd wedi gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus, yn ypset neu'n negyddol mewn unrhyw ffordd? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU (Mehefin 2023: 14181, Ionawr 2024: 7611, Mehefin 2024:7837).*

[219] Sylwer: Mae'r grŵp hwn yn NET o godau cyfeiriadedd rhywiol, gan gynnwys lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ac nid yw'n cynnwys hunaniaeth rhywedd.

Er bod cynnydd wedi bod o un flwyddyn i'r llall ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran sy'n dweud eu bod wedi gweld rhywbeth sy'n gwneud iddynt deimlo'n ypset neu'n negyddol ar-lein, yn gyffredinol mae llai o blant 13-17 oed yn adrodd am hyn (20% ym mis Mehefin 2023; 23% ym mis Mehefin 2024) nag oedolion (27% ym mis Mehefin 2023; 31% ym mis Mehefin 2024). Yn benodol, bechgyn 13-17 oed oedd y grŵp lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ypset neu'n negyddol, sef 20% ym mis Mehefin 2024, er bod cyfran y bechgyn a oedd yn dweud hyn wedi codi 5pc o un flwyddyn i'r llall (Mehefin 2023: 15%). O gymharu â hyn, dywedodd 26% o ferched ym mis Mehefin 2024 eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ypset neu'n negyddol, ac mae hynny wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall (Mehefin 2023: 25%). Roedd defnyddwyr yn eu harddegau gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ac yn effeithio arnynt, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl, yn hynod debygol o ddweud eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ypset neu'n negyddol, sef 32% (dim cyflwr cyfyngedig sy'n effeithio arnynt: 19%).

## Roedd cyfran y defnyddwyr (68%) a oedd wedi gweld o leiaf un niwed neu fwy o restr o 47 niwed posibl yn dal yr un fath â'r arolygon blaenorol

Gan symud o achosion honedig o ddod ar draws niwed posibl amhenodol sy'n gwneud iddynt deimlo'n 'anghyfforddus, yn ypset neu'n negyddol' i achosion honedig o ddod ar draws unrhyw niwed posibl ar-lein o blith rhestr o 47 niwed, ym mis Mehefin 2024 dywedodd 68% o ddefnyddwyr 13 oed a hŷn eu bod wedi dod ar draws o leiaf un niwed posibl yn ystod y pedair wythnos diwethaf, sef yr un gyfran a welwyd ym mis Mehefin 2023 ac ym mis Ionawr 2024. Roedd defnyddwyr 13 oed a hŷn yn yr Alban yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein (71%) o'i gymharu â 68% yng Nghymru, 68% yn Lloegr a 66% yng Ngogledd Iwerddon.

Er nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng oedolion a phlant yn gyffredinol (69% o'i gymharu â 68%), wrth i oedran oedolion gynyddu mae'r tebygolrwydd o ddod ar draws niwed posibl ar-lein yn gostwng (18-24: 80%, 25-34: 78%, 65 oed a hŷn: 55%), a allai fod yn rhannol oherwydd bod oedolion iau yn treulio mwy o amser ar-lein o'i gymharu ag oedolion hŷn (fel y trafodwyd yn y bennod Y Dirwedd Ar-lein).

**Ffigur 63: Cyfran o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU a oedd wedi dod ar draws enghraifft o blith rhestr o niweidiau posibl ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf, yn ôl demograffig: Mehefin 2024**



*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddelweddau, fideos, sain neu destun, naill ai sylwadau, postiadau neu negeseuon rydych chi wedi'u gweld a/neu'r rheini sy'n cael eu rhannu'n uniongyrchol â chi. Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU (Mehefin 2023: 14181, Ionawr 2024: 7611, Mehefin 2024:7837).*

## Yn erbyn cefndir o ddigwyddiadau geowleidyddol, mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn fwy tebygol o ddod ar draws cynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol ar-lein

Roedd oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn dweud eu bod yn gweld mwyfwy o gynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol, felly dyma'r pumed niwed a welwyd fwyaf (26%) ym mis Mehefin 2024, a oedd yn fwy na throlio (22%). Roedd mymryn o gynnydd o un flwyddyn i'r llall mewn cynnwys y mae oedolion yn dod ar ei draws sy'n dangos neu'n annog trais +2pc (i 11%) erbyn mis Mehefin 2024 a chynnwys sy'n annog eithafiaeth +4pc (9%). Mae nifer yr achosion lle mae oedolion wedi dod ar draws y niweidiau posibl mwyaf cyffredin eraill naill ai wedi aros yn sefydlog neu wedi gostwng ers mis Mehefin 2023. Roedd nifer yr achosion o beidio â dod ar draws unrhyw niwed posibl ar-lein wedi gostwng mwy na 2pc o un flwyddyn i'r llall.[220]

[220] Sylwer: cynhaliwyd y gwaith maes cyn i derfysgoedd yr haf 2024 gael eu cynnal ledled y DU. Roedd digwyddiadau eraill fel y rhyfeloedd rhwng Rwsia ac Wcráin, ac Israel a Gaza, yn parhau yn ystod y gwaith maes ar gyfer arolygon mis Ionawr 2024 a mis Mehefin 2024.

**Ffigur 64: Cyfran yr oedolion ar-lein yn y DU a oedd wedi dod ar draws y deg niwed posibl ar-lein mwyaf cyffredin, wedi'u trefnu yn ôl data Mehefin 2024**

| Niwed posibl | Mehefin 2023 | Ionawr 2024 | Mehefin 2024 |
|---|---|---|---|
| Camwybodaeth | 39% | 37% | 39% |
| Iaith dramgwyddus neu 'anweddus' yn gyffredinol | 36% | 34% | 35% |
| Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo | 36% | 34% | 34% |
| Ceisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu'n ddilynwyr | 30% | 27% | 28% |
| Cynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol | 23% | 24% | 26% |
| Trolio | 23% | 21% | 22% |
| Cynnwys sy'n dangos casineb at fenywod | 22% | 22% | 22% |
| Lluniau/fideos ffug neu dwyllodrus | 18% | 16% | 18% |
| Cynnwys sy'n creu stigma ynghylch mathau penodol o gyrff | - | 16% | 18% |
| Cynnwys y talwyd amdano neu a noddwyd nad oedd wedi'i nodi felly | 17% | 16% | 18% |

*Dynodir ton ar don uwch gyda 99% hyder* *Dynodir ton ar don is gyda 99% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed a hŷn yn y DU (Mehefin 2023: 13205, Ionawr 2024: 7068, Mehefin 2024:7280). Rhoddodd yr OET restr o 47 niwed i'r rhai a gymerodd ran. Mae'r tabl hwn yn dangos y 10 uchaf.*

Wrth gymharu enghreifftiau o ddod ar draws y deg niwed posibl mwyaf cyffredin yn ôl rhywedd, gwelsom fod dynion yn fwy tebygol na menywod o ddod ar draws camwybodaeth, sgamiau neu dwyll, cynnwys cas, ffug neu dwyllodrus neu gynnwys y talwyd amdano/a noddwyd, tra bod menywod yn fwy tebygol na dynion o roi gwybod am geisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu'n ddilynwyr, cynnwys sy'n dangos casineb at fenywod a chynnwys sy'n gysylltiedig â delwedd y corff.

**Ffigur 65: Cyfran yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd a oedd wedi dod ar draws y deg niwed posibl ar-lein mwyaf cyffredin, yn ôl rhywedd: Mehefin 2024**

| Niwed posibl | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| Camwybodaeth | 41% | 37% |
| Iaith dramgwyddus neu 'anweddus' yn gyffredinol | 35% | 34% |
| Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo | 36% | 31% |
| Ceisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu'n ddilynwyr | 26% | 30% |
| Cynnwys cas | 27% | 24% |
| Trolio | 21% | 22% |
| Cynnwys sy'n dangos casineb at fenywod | 19% | 23% |
| Lluniau/fideos ffug neu dwyllodrus | 20% | 16% |
| Cynnwys sy'n creu stigma ynghylch mathau penodol o gyrff | 13% | 21% |
| Cynnwys y talwyd amdano neu a noddwyd nad oedd wedi'i nodi felly | 19% | 15% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Mae'n hysbysu'n uwch na dynion/menywod gyda 95% hyder* | | *Mae'n hysbysu'n is na dynion/menywod gyda 95% hyder* |

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (dynion: 3442, menywod: 3717). Rhoddodd yr OET restr o 47 niwed i'r rhai a gymerodd ran. Mae'r tabl hwn yn dangos y 10 uchaf yn ôl amledd.*

## Roedd gan ddau ddeg dau y cant o bobl ifanc 8–17 oed sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol oedran defnyddiwr sy'n oedolyn, a oedd yn cynyddu eu cysylltiad posibl â niwed

Mae ymchwil 'Oedran Defnyddwyr' Ofcom a gynhaliwyd ym mis Awst 2024 wedi darganfod bod gan 22% o blant 8–17 oed (ac 20% o blant 8-15 oed) sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o'r llwyfannau a restrir yn ein hastudiaeth, oedran proffil defnyddiwr o 18 oed neu hŷn, sy'n golygu bod mwy o berygl iddynt weld cynnwys i oedolion; roedd hyn yn dal i gyd-fynd â data a gasglwyd ym mis Chwefror 2024 a mis Medi 2023 (8-17: 21% a 22%, 8-15 oed: 20% ar gyfer y ddau). Roedd yr ymchwil hefyd wedi amcangyfrif bod gan draean (36%) o blant 8-15 oed, sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o'r llwyfannau a restrir, oedran defnyddiwr/proffil o 16 oed o leiaf, ac mae hyn eto'n gyson â'r un ymchwil a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 a mis Medi 2023 (35% a 34% yn y drefn honno).[221]

Roedd bechgyn 8-17 oed yn fwy tebygol na merched yn yr un grŵp oedran o fod ag oedran defnyddiwr o 18 oed neu hŷn (25% o'i gymharu â 19%). Ymysg plant 8-15 oed, roedd bechgyn a merched yr un mor debygol o fod ag oedran defnyddiwr o 16 oed neu hŷn (37% a 36%).[222]

Gallai plant sydd ag oedran defnyddiwr/proffil o 16 oed a hŷn neu 18 oed a hŷn fod yn agored i nodweddion neu swyddogaethau ar eu proffil cyfryngau cymdeithasol y mae polisïau'r llwyfan yn eu cyfyngu i ddefnyddwyr 18 oed a hŷn, fel negeseuon uniongyrchol gan ddieithriaid neu'r gallu i weld cynnwys i oedolion, a allai olygu eu bod yn agored i niwed ar-lein. Er bod cyfran y plant sydd ag oedran defnyddiwr o 16 oed a hŷn neu 18 oed a hŷn wedi aros yn gyson rhwng mis Medi 2023, mis Chwefror 2024 a mis Awst 2024, o'i gymharu â mis Medi 2023, roedd plant 8-17 oed yn fwy tebygol o ddweud ym mis Awst 2024 eu bod wedi cael cais i ddilysu eu dyddiad geni ar eu proffil ar nifer o wasanaethau ar-lein (gan gynnwys Facebook: 10% o'i gymharu â 25%, Instagram: 9% o'i gymharu â 18%, Snapchat: 8% o'i gymharu â 14%, TikTok: 13% o'i gymharu â 19%, X/Twitter: 10% o'i gymharu â 20% a YouTube: 10% o'i gymharu â 14%).[223]

## Ar y cyfan roedd pobl ifanc yn eu harddegau yn llai tebygol nag oedolion o ddweud eu bod wedi gweld neu wedi profi'r rhan fwyaf o'r mathau o niwed posibl a restrir ar-lein

Ym mis Mehefin 2024, roedd 'iaith dramgwyddus neu 'anweddus' yn gyffredinol' yn parhau i fod y niwed posibl mwyaf tebygol i blant 13-17 oed ddweud eu bod wedi dod ar ei draws (35%), er bod hyn wedi gostwng 12pc o'r flwyddyn flaenorol (47%). Roedd defnyddwyr 13-17 oed yn llai tebygol nag oedolion o ddweud eu bod wedi dod ar draws y rhan fwyaf o'r mathau o niweidiau posibl a restrwyd, ac eithrio 'aflonyddu bwriadol' wrth chwarae gemau, e.e. 'creu trafferth' (9%); cynnwys

[221] Ofcom, Oedran Defnyddwyr Plant, Medi 2023 a Chwefror 2024, Awst 2024.
[222] Ofcom, Oedran Defnyddwyr Plant, Medi 2023 a Chwefror 2024, Awst 2024.
[223] Ofcom, Oedran Defnyddwyr Plant, Medi 2023 a Chwefror 2024, Awst 2024.

sy’n hyrwyddo hunan-niwed (7%), a chynnwys sy’n hyrwyddo hunanladdiad (6%), o’i gymharu ag oedolion (5%, 4% a 3% yn y drefn honno).

Hefyd roedd nifer o fathau o niwed wedi cael eu dangos i’r bobl ifanc yn eu harddegau yn unig yn ystod yr ymchwil: cynnwys sy’n dangos styntiau neu heriau peryglus ar-lein (24%); cynnwys sy’n annog gamblo (22%); cynnwys sy’n hysbysebu alcohol neu sigaréts (17%); cynnwys rhywiol neu bornograffig (14%) a chynnwys sy’n hyrwyddo a/neu’n annog plant i fwyta neu lyncu sylweddau niweidiol fel cannydd neu lanedydd (6%). Roedd cynnwys cas y tu allan i’r deg niwed mwyaf cyffredin (unfed safle ar ddeg) ymysg pobl ifanc yn eu harddegau, gyda 17% ohonynt wedi gweld neu wedi dod ar ei draws ym mis Mehefin 2024, sydd wedi gostwng o 21% yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y niweidiau posibl a oedd yn dangos y newidiadau mwyaf ers y flwyddyn flaenorol, ar ôl ‘iaith dramgwyddus neu ‘anweddus’ yn gyffredinol’, yn cynnwys: cynnwys sy’n dangos styntiau neu heriau peryglus (24%, i lawr o 30% ym mis Mehefin 2023); cynnwys sy’n hysbysebu alcohol neu sigaréts (i lawr 5pc i 17%); cynnwys rhywiol/pornograffig (i lawr 4pc i 14%) a chynnwys sy’n ymwneud ag anhwylderau bwyta (i lawr 4pc i 11%). Nid oedd unrhyw niwed ar-lein wedi cynyddu mwy na 2pc o un flwyddyn i’r llall.

**Ffigur 66: Cyfran y plant 13-17 oed sy'n defnyddio’r rhyngrwyd yn y DU a oedd wedi dod ar draws y deg niwed posibl mwyaf cyffredin ar-lein, wedi’u trefnu yn ôl data Mehefin 2024**

| Niwed posibl (Plant 13-17 oed) | Mehefin 2023 | Ionawr 2024 | Mehefin 2024 |
|---|---|---|---|
| Iaith dramgwyddus neu ‘anweddus’ yn gyffredinol | 47% | 40% | 35% |
| Camwybodaeth | 34% | 31% | 33% |
| Ceisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu’n ddilynwyr | 30% | 31% | 27% |
| Cynnwys yn dangos styntiau peryglus | 30% | 23% | 24% |
| Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo | 25% | 19% | 24% |
| Cynnwys sy’n annog gamblo | 25% | 26% | 22% |
| Trolio | 23% | 22% | 21% |
| Cynnwys sy'n dangos casineb at fenywod | 22% | 23% | 18% |
| Lluniau/fideos ffug neu dwyllodrus | 16% | 17% | 18% |
| Cynnwys sy’n creu stigma ynghylch mathau penodol o gyrff | -- | 20% | 18% |

*Dynodir ton ar don uwch gyda 99% hyder* *Dynodir ton ar don is gyda 99% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C8 Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13-17 oed y DU (557). Rhoddodd yr OET restr o 44 niwed i’r plant a gymerodd ran; mae’r tabl hwn yn dangos y deg uchaf.*

## Roedd achosion o ddod i gysylltiad â niwed posibl ar-lein sy'n ymwneud â delwedd y corff yn arbennig o amlwg ymysg merched yn eu harddegau

Wrth gymharu bechgyn a merched ar gyfer pob un o'r niweidiau, gwelsom fod bechgyn 13-17 oed yn fwy tebygol na merched o ddod i gysylltiad â chynnwys sy'n dangos styntiau peryglus (29% o'i gymharu â 19%). I'r gwrthwyneb, roedd merched 13-17 oed yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod wedi dod i gysylltiad â cheisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu'n ddilynwyr (33% o'i gymharu â 21%), cynnwys sy'n dangos casineb at fenywod (23% o'i gymharu â 14%), cynnwys sy'n creu stigma ynghylch mathau penodol o gyrff (25% o'i gymharu â 11%), cynnwys sy'n hyrwyddo bwyta/ymarfer corff gormodol neu afiach (19% o'i gymharu â 9%), codi cywilydd ar grwpiau (19% o'i gymharu â 10%) a chynnwys sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta (17% o'i gymharu â 5% o fechgyn 13-17 oed).

**Ffigur 67: Cyfran y plant 13-17 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd a oedd wedi dod ar draws y deg niwed posibl mwyaf cyffredin ar-lein, yn ôl rhywedd: Mehefin 2024**

| Niwed Posibl (plant 13-17 oed) | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| Iaith dramgwyddus neu 'anweddus' yn gyffredinol | 34% | 37% |
| Camwybodaeth | 31% | 35% |
| Ceisiadau digroeso i fod yn ffrindiau neu'n ddilynwyr | 21% | 33% |
| Cynnwys yn dangos styntiau peryglus | 29% | 19% |
| Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo | 24% | 23% |
| Cynnwys sy'n annog gamblo | 25% | 19% |
| Trolio | 18% | 23% |
| Cynnwys sy'n dangos casineb at fenywod | 14% | 23% |
| Lluniau/fideos ffug neu dwyllodrus | 17% | 19% |
| Cynnwys sy'n creu stigma ynghylch mathau penodol o gyrff | 11% | 25% |

*Mae'n hysbysu'n uwch na bechgyn/merched gyda 95% hyder* — *Mae'n hysbysu'n is na bechgyn/merched gyda 95% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13-17 oed y DU (Bechgyn: 290, Merched: 261). Rhoddodd yr OET restr o 44 niwed i'r rhai a gymerodd ran; mae'r tabl hwn yn dangos y deg uchaf.*

## Mae cynnwys niweidiol posibl ar-lein yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod a merched, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, oedolion LHD+ a phobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl

Ym mis Mehefin 2024, roedd 24% o ddefnyddwyr 13 oed a hŷn wedi cael 'eu poeni neu wedi'u tramgwyddo'n ofnadwy' gan eu profiad diweddaraf o unrhyw niwed posibl ar-lein, sy'n parhau â'r duedd o gynnydd bach a welwyd yn y ddwy don olrhain flaenorol (23% ym mis Ionawr 2024, 22% ym mis Mehefin 2023). Roedd pobl rhwng 13 a 17 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod yn cael eu poeni neu wedi'u tramgwyddo'n ofnadwy na phobl 18 oed a hŷn (17% o'i gymharu â 25%). Yn benodol, roedd merched 13-17 oed a menywod yn fwy tebygol o gael eu poeni'n ofnadwy (24% a 29%) na

bechgyn 13-17 oed a dynion (11% a 19% yn y drefn honno). Roedd pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (30%), pobl Iddewig (49%), pobl â chyflyrau sy'n cyfyngu ac yn effeithio arnynt (27%) a phobl LHD+ (29%) hefyd yn fwy tebygol na chyfanswm y grŵp defnyddwyr (13 oed a hŷn) o ddweud eu bod wedi'u tramgwyddo'n ofnadwy. Roedd cynnydd sylweddol o 9pc yn yr effaith a adroddwyd gan unigolion o leiafrifoedd ethnig rhwng mis Mehefin 2023 (19%) a mis Ionawr 2024 (28%), gyda'r cynnydd yn parhau i fis Mehefin 2024 (+ 2pc, 30%). Ar gyfer ymatebwyr Mwslimaidd ac Iddewig, gwelwyd y lefelau effaith uchaf ym mis Ionawr 2024 o ran dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol posibl, gyda 33% a 58% o bob grŵp yn dweud bod eu profiad diweddaraf wedi'u tramgwyddo'n ofnadwy.

Wrth edrych ar fathau penodol o niwed yn ôl lefel yr achosion o'i gymharu â'r lefel effaith uchel honedig ar oedolion, roedd creulondeb at anifeiliaid yn cael effaith uchel iawn (78%) gyda nifer cymharol isel o achosion, sef 10%. Roedd cynnwys eithafol yn cael effaith fawr hefyd (66%), ynghyd â chynnwys cas (61%) ond gyda lefel is o achosion. Roedd niwed gyda lefel effaith gymharol is ond gyda lefel uwch o achosion yn cynnwys camwybodaeth (effaith o 26% gyda 39% o achosion) a sgamiau a thwyll (21% a 34%).

**Ffigur 68: Effaith seicolegol uchel (sgôr o 3 ar raddfa 3 phwynt) o'i gymharu ag amlder y mathau o niwed posibl ar-lein ar gyfer defnyddwyr sy'n oedolion, Mehefin 2024**




*Ffynhonnell: 18+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C14b Hoffem i chi feddwl eto am y tro diwethaf y gwnaethoch chi weld neu brofi [niwed posibl]. Ar raddfa o 1 i 3, lle mae '1' yn golygu 'Doedd o ddim yn fy mhoeni o gwbl/Wnaeth o ddim fy nhramgwyddo' a '3' yn golygu 'Fe wnaeth o fy mhoeni'n fawr iawn/Roedd yn sarhaus iawn', pan wnaethoch chi weld neu brofi [niwed posibl] ddiwethaf, a fyddech chi'n dweud bod y cynnwys neu'r profiad yn…(echelin x) o'i gymharu â C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? (echelin y). Sail: Oedolion 18+ C14b (4613) a C8 (7280).*

## Roedd tueddiad i rai mathau o niwed gael eu dylanwadu gan newyddion a materion byd-eang; ac eraill gan dechnoleg ddatblygol

Gofynnwyd i ddefnyddwyr 13 oed a hŷn a oedd wedi dod i gysylltiad ag iaith casineb, bwlio, ymddygiad camdriniol neu fygythiadau ynghylch pa grwpiau neu nodweddion pobl mewn cymdeithas roedd hyn yn ei dargedu. Amrywiodd y canfyddiadau o un don i'r llall, ac mae hynny'n fwyaf tebygol o fod mewn ymateb i'r agenda newyddion a materion cyfoes. Ym mis Mehefin 2023, roedd defnyddwyr yn dweud amlaf (ar 41%) bod cynnwys cas yn cael ei gyfeirio at bobl drawsryweddol; bryd hynny, roedd llywodraeth y DU newydd rwystro Deddf Diwygio Cydnabod Rhywedd yr Alban, ac roedd eitemau newyddion yn aml yn trafod hunaniaethau a phrofiadau pobl drawsryweddol.[224] Roedd y cynnwys cas mwyaf cyffredin nesaf yn cael ei gyfeirio at gyfeiriadedd rhywiol (29%), ethnigrwydd (25%), menywod a merched (25%) a cheiswyr lloches (23%).

Ym mis Ionawr 2024, o bosibl mewn ymateb i'r gwrthdaro yn Gaza a ddechreuodd ym mis Hydref 2023,[225] cododd cynnwys cas tuag at bobl oherwydd eu hethnigrwydd neu grefydd yn sylweddol ymysg oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd i 36% a 33%, o 25% a 16%, yn y drefn honno ym mis Mehefin 2023, ac yn gyfatebol, gostyngodd casineb tuag at bobl drawsryweddol a chasineb yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol i 26% a 17% yn y drefn honno.

Ym mis Mehefin 2024, newidiodd cyfran y casineb tuag at wahanol grwpiau, gyda chasineb tuag at bobl oherwydd eu hethnigrwydd a chrefydd yn parhau i fod yn uchel (33% a 30%) ymysg oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Gwelwyd mymryn o gynnydd mewn casineb tuag at leiafrifoedd rhywedd a rhywioldeb o fis Ionawr 2024 ymlaen (30% ac 20%). Gallai'r cynnydd mewn casineb ar sail rhywedd a hunaniaeth rywiol fod yn gysylltiedig â'r gwaith maes a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024 i gyd-daro ag Etholiad Cyffredinol y DU 2024, lle trafodwyd hunaniaeth o ran rhywedd mewn trafodaethau cyhoeddus ac erthyglau newyddion.[226]

Roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhywiau o ran dod i gysylltiad â chynnwys cas. Roedd menywod yn fwy tebygol, gyda 26%, o ddweud eu bod wedi gweld cynnwys cas yn erbyn menywod a merched, o'i gymharu â 13% o ddynion; mewn cyferbyniad, roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi gweld cynnwys cas yn erbyn y rhan fwyaf o grwpiau eraill. Gallai profiad personol fod yn un ffactor y tu ôl i hyn: roedd menywod a merched yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod wedi dod ar draws iaith neu gynnwys ar-lein sy'n dangos casineb at fenywod, tra bod y ffigur yn is ymysg dynion a bechgyn (23% o'i gymharu â 18%).

[224] Institute for Government, 'The use of Section 35 of the Scotland Act to block the Gender Recognition Reform (Scotland) Bill' 9 Hydref 2023; The Guardian, 'Rishi Sunak accused of mocking trans people in joke to Tory MPs', 19 June 2023.
BBC News, Brianna Ghey: Boy and girl in court charged with murder, 15 Chwefror 2023.
[225] BBC News, 'Israel Gaza war: History of the conflict explained', 5 Ebrill 2024.
[226] BBC News, 'What are the parties saying about women's rights and gender identity', 29 Mehefin 2024.

**Ffigur 69: Defnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn sy'n rhoi gwybod am darged y cynnwys cas, sarhaus neu wahaniaethol yr oeddent wedi dod ar ei draws**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C13 At ba grŵp neu nodwedd, os o gwbl, y cyfeiriwyd y bwlio, yr ymddygiad camdriniol, y bygythiadau neu'r iaith casineb roeddech chi wedi'i brofi? Gallai hyn gynnwys bwlio, ymddygiad camdriniol, bygythiadau neu iaith casineb oedd wedi'i hanelu atoch chi'n bersonol. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU (Mehefin 2023: 1162, Ionawr 2024: 6*37, Mehefin 2024: 728).

Camwybodaeth oedd y niwed posibl mwyaf cyffredin ym mis Mehefin 2024 wrth ystyried ymatebion oedolion a phlant 13 oed a hŷn gyda'i gilydd (39%). Yn ogystal â hynny, gofynnwyd cwestiynau dilynol i ddefnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn a oedd wedi dweud eu bod wedi gweld camwybodaeth yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Gydag Etholiad Cyffredinol y DU wedi'i gyhoeddi ar 22 Mai 2024, roedd cynnydd bach ond arwyddocaol rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2024 yn nifer defnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn a ddywedodd eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth wleidyddol neu etholiadol (25%, i fyny o 22%).

Ym mis Ionawr 2024, bu cynnydd sylweddol yn yr adroddiadau o gamwybodaeth am 'wrthdaro e.e. rhyfel' i 21% o 6% chwe mis yn flaenorol, ac mae'n debyg fod hyn yn sgil y rhyfel yn Gaza a ddechreuodd ym mis Hydref 2023. Gostyngodd y gyfran hon yn yr arolwg diweddaraf ym mis Mehefin 2024 i 16% o'r ymatebwyr, ond mae hyn yn dal yn uwch na'r nifer a nodwyd ym mis Mehefin 2023.

Y ffynhonnell fwyaf amlwg o gamwybodaeth a welodd defnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn ym mis Mehefin 2024 oedd 'Rhywun nad ydw i'n ei adnabod ar-lein e.e. dieithryn ar y cyfryngau cymdeithasol', sef 44%. Dilynwyd hyn gan 15% a oedd yn dweud eu bod wedi gweld camwybodaeth gan 'ffigur cyhoeddus neu rywun enwog neu ddylanwadwr', 12% yn dweud 'sefydliad cyfryngau', a 10% yn dweud 'sefydliad newyddion neu newyddiadurwr.'

**Ffigur 70: Mathau o gamwybodaeth a welwyd gan ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 13 oed a hŷn**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2024. C32a1 Pa un o'r opsiynau isod sy'n disgrifio orau'r gamwybodaeth a welsoch chi. Ystyr gwahaniaethu yn yr arolwg oedd: Gwahaniaethu ar sail rhyw, oedran, rhywioldeb, ethnigrwydd neu 'nodweddion gwarchodedig' eraill. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn y DU (Mehefin 2023: 5567, Ionawr 2024: 2800, Mehefin 2024: 3051)*

## Roedd dros ddau o bob pump (43%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU sy'n 16 oed a hŷn yn credu eu bod wedi gweld ffugiad dwfn yn ystod hanner cyntaf 2024

Mae'r term 'ffugiad dwfn' fel arfer yn cyfeirio at fideo, delwedd neu ddarn o gynnwys sain a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial sydd wedi'i ddylunio i ddynwared person neu olygfa go iawn, a gellir ei ddefnyddio i ledaenu gwybodaeth ffug. Comisiynodd Ofcom arolwg i ddeall profiadau defnyddwyr rhyngrwyd y DU o ffugiadau dwfn; fe'i cynhaliwyd ym mis Mehefin 2024 ymysg pobl ar-lein y DU sy'n 16 oed a hŷn a phlant Prydeinig ar-lein sy'n 8-15 oed.

Roedd dros ddau o bob pump (43%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU sy'n 16 oed a hŷn yn credu eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn yn ystod hanner cyntaf 2024. Canfu'r arolwg hefyd, wrth i oedran gynyddu ymysg y rheini sy'n 16 oed a hŷn, fod y tebygolrwydd o roi gwybod am ffugiad dwfn yn gostwng. Roedd defnyddwyr gwrywaidd 16 oed a hŷn yn fwy tebygol na menywod o fod wedi dod ar draws o leiaf un darn o gynnwys roeddent yn credu ei fod yn ffugiad dwfn yn ystod hanner cyntaf 2024 (51% o'i gymharu â 35%). Ar y cyfan, ychydig o ddefnyddwyr (9%) oedd yn teimlo'n hyderus y gellid adnabod cynnwys ffugiad dwfn.[227]

Canfu arolwg Ofcom a gynhaliwyd yn ystod cyfnod Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024 fod dros chwarter (27%) o oedolion yn credu eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol a allai fod yn ffugiad dwfn o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Gan adlewyrchu'r hyder isel o ran adnabod ffugiadau dwfn, dywedodd 46% o ymatebwyr yn yr arolwg nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi gweld un yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Roedd pobl iau 18-24 oed (39%) yn fwy hyderus eu bod yn gallu adnabod ffugiadau dwfn nag oedolion ym mhob grŵp oedran arall (21% ar gyfartaledd) ac roedd dynion yn fwy hyderus na menywod (28% o'i gymharu â 14%). Dywedodd mwyafrif (57%) yr oedolion o'n harolwg ar yr

[227] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.

Etholiad Cyffredinol eu bod naill ai'n eithaf pryderus neu'n bryderus iawn am effaith ffugiadau dwfn yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol.[228]

Dywedodd defnyddwyr 16 oed a hŷn a oedd wedi dod ar draws ffugiad dwfn mai'r tair prif ffynhonnell ar gyfer y cynnwys hwn yw'r cyfryngau cymdeithasol (74%), VSPs (47%) neu negeseuon e-bost (11%). Roedd pobl iau (16-24: 59%) yn fwy tebygol o ddod ar draws ffugiad dwfn ar VSP nag oedolion hŷn, (55+: 38%). Er bod defnyddwyr gwrywaidd a benywaidd yr un mor debygol o ddod ar draws ffugiad dwfn ar y cyfryngau cymdeithasol (73% a 76% yn y drefn honno), roedd gwrywod yn fwy tebygol o ddod ar draws ffugiad dwfn ar VSP (53% o'i gymharu â 39% o fenywod).[229]

**Ffigur 71: Cyfran o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU sy'n 16 oed a hŷn sydd wedi dod ar draws o leiaf un enghraifft o ffugiad dwfn yn eu barn nhw yn y chwe mis diwethaf**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024. Cwestiwn 2: Gan feddwl am y 6 mis diwethaf (h.y. ers mis Rhagfyr 2023)...Sawl gwaith, os o gwbl, ydych chi wedi dod ar draws cynnwys ffugiad dwfn yn eich barn chi? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU, oedran: 16+ (2520).*

## Roedd pobl iau yn fwy tebygol o ddod ar draws ffugiadau dwfn doniol, rhywiol neu addysgol, tra bod oedolion hŷn yn fwy tebygol o ddod ar draws ffugiadau dwfn gwleidyddol neu hysbysebion twyllodrus

Mae cynnwys ffugiadau dwfn yn amrywio yn ôl ffurf a thema. O ran ffurf y cynnwys, y math o gynnwys ffugiad dwfn yr oedd defnyddwyr 16 oed a hŷn wedi dod ar ei draws oedd llun (68%), fideo (60%) a thestun (29%). O ran themâu'r cynnwys, dywedodd bron i hanner (49%) y defnyddwyr 16 oed a hŷn a oedd wedi dod ar draws ffugiad dwfn ei fod yn ymwneud â gwleidydd neu ddigwyddiad gwleidyddol, ac yna ffugiad dwfn doniol neu ddychanol (47%) a hysbyseb twyllodrus neu sgam (45%). Roedd rhai gwahaniaethau ymysg oedrannau a rhywedd o ran themâu cynnwys, gydag oedolion hŷn yn fwy tebygol o ddod ar draws hysbyseb dwyllodrus neu sgam (16-24: 33% o'i gymharu â rhai 55+: 54%), ac roedd pobl iau yn fwy tebygol o ddod ar draws ffugiadau dwfn doniol neu ddychanol (16-24: 52% o'i gymharu â rhai 55+: 40%), ffugiadau dwfn addysgol (16+: 14%; 16-24: 25% o'i gymharu â rhai 55+: 6%) a ffugiadau dwfn rhywiol (16+: 14%; 16-24: 20% o'i gymharu â rhai 55+: 6%). Roedd defnyddwyr gwrywaidd 16 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld

[228] Ofcom, [Arolwg newyddion a ffurfio barn Etholiad Cyffredinol y DU 2024](), Mehefin a Gorffennaf 2024, oedran: 18+, y DU.
[229] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.

cynnwys ffugiad dwfn a oedd yn rhywiol ei natur (19% o'i gymharu ag 8%), yn ymwneud â gwleidydd neu ddigwyddiad gwleidyddol (53% o'i gymharu â 44%), neu o natur ddoniol neu ddychanol (50% o'i gymharu â 42%), o'i gymharu â defnyddwyr benywaidd.[230]

### Roedd hanner y plant rhwng 8 a 15 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ym Mhrydain Fawr hefyd yn credu eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn yn ystod hanner cyntaf 2024

Roedd plant hŷn 13-15 oed yn fwy tebygol na phlant 8-12 oed o fod wedi dod ar draws o leiaf un ffugiad dwfn (57% o'i gymharu â 46%) ac roedd bechgyn 8-15 oed ychydig yn fwy tebygol na merched o'r un oedran o ddod ar draws ffugiad dwfn (52% o'i gymharu â 48%). Roedd plant yn honni eu bod yn fwy hyderus wrth adnabod ffugiad dwfn na defnyddwyr 16 oed a hŷn (20% o'i gymharu â 9% yn y drefn honno). Roedd bechgyn yn fwy hyderus (24%) na merched (16%), ac roedd plant hŷn 13-15 oed (24%) yn fwy hyderus na phlant 8-12 oed (18%).[231]

VSPs (54%) oedd y math o wasanaeth ar-lein lle byddai plant Prydeinig rhwng 8 a 15 oed yn fwyaf tebygol o ddod ar draws ffugiad dwfn, ac yna cyfryngau cymdeithasol (49%) a gwasanaethau ffrydio byw (16%). Roedd benywod yn fwy tebygol o ddod ar draws ffugiad dwfn ar y cyfryngau cymdeithasol (55% o'i gymharu â 45% o wrywod).[232]

O ran ffurf y cynnwys, y math o gynnwys ffugiad dwfn yr oedd defnyddwyr 8-15 oed wedi dod ar ei draws oedd llun (63%), fideo (61%) a thestun (21%). Roedd plant yn fwyaf tebygol o ddod ar draws ffugiadau dwfn doniol neu ddychanol (58%), ac yna hysbysebion sgam (32%) neu ffugiadau dwfn yn ymwneud â gwleidydd neu ddigwyddiad gwleidyddol (28%). Roedd bechgyn 8-15 oed yn fwy tebygol na merched o weld cynnwys ffugiad dwfn a oedd yn ddoniol neu'n ddychanol (62% o'i gymharu â 53%).[233]

## Y llwyfannau a'r gwasanaethau lle daethpwyd ar draws niwed posibl

### Y cyfryngau cymdeithasol oedd y lle mwyaf tebygol o bell ffordd o ddod ar draws niwed posibl

Ers dechrau tracio ym mis Mehefin 2023, mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i fod y lleoliad lle mae'r mwyafrif (Mehefin 2024: 56%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU sy'n 13 oed a hŷn wedi dod ar draws niwed ar-lein yn fwyaf diweddar. Ar lefel is o lawer, bu cynnydd yng nghyfran y rhai sy'n 13 oed a hŷn sy'n dod i gysylltiad â niwed posibl drwy VSPs yn y don ddiweddaraf, o 7% ym mis Ionawr 2024 i 9% ym mis Mehefin 2024.

Roedd cyfran y plant 13-17 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac sydd wedi dod ar draws niwed posibl yn fwyaf diweddar ar y cyfryngau cymdeithasol yn llawer is nag ar gyfer oedolion, sef 38% o'i gymharu â 57% yn y drefn honno. Roedd plant rhwng 13 a 17 oed yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â niwed posibl ar VSPs nag oedolion (20% o'i gymharu ag 8%).

[230] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024, oedran: 16+, y DU.
[231] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.
[232] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.
[233] Ofcom, Pôl panel ymchwil ar-lein: Ffugiadau dwfn, Mehefin 2024, oedran: 8-15, Prydain Fawr.

Ymysg yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, roedd gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dweud eu bod wedi dod ar draws niwed posibl yn fwyaf diweddar drwy neges e-bost, o 12% ym mis Mehefin 2023 i 9% ym mis Mehefin 2024. Roedd oedolion hŷn yn fwy tebygol o nodi neges e-bost fel lleoliad na phobl iau (55 oed a hŷn: 17% o'i gymharu â rhai 18-24 oed: 2% Mehefin 2024). Roedd oedolion hŷn hefyd yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl drwy wefan neu ap newyddion (55 oed a hŷn: 7% o'i gymharu â rhai 18-24 oed: 2% Mehefin 2024). I'r gwrthwyneb, roedd y rhai rhwng 18 a 24 oed yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl drwy wefannau cwrdd â chariad ar-lein (2%), o'i gymharu ag 1% ar gyfer y grŵp cyfan o ymatebwyr, er bod y niwed hwn yn cael ei adrodd ar lefel isel iawn.

**Ffigur 72: Y gwefannau a'r gwasanaethau lle cafodd oedolion a phlant (13-17 oed) eu profiad niweidiol posibl mwyaf diweddar ar-lein**

| Y deg prif wefan lle mae defnyddwyr wedi dod ar draws niwed | Oedolion 18+ oed | | | Plant 13-17 oed | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meh 23 | Ion 24 | Meh 24 | Meh 23 | Ion 24 | Meh 24 |
| Gwefan neu ap cyfryngau cymdeithasol | 57% | 56% | 57% | 35% | 35% | 38% |
| E-bost | 12% | 11% | 9% | 3% | 2% | 3% |
| VSP | 7% | 6% | 8% | 23% | 17% | 20% |
| Gwefan neu ap negeseuon gwib | 5% | 6% | 5% | 9% | 9% | 7% |
| Gwefan neu ap newyddion | 4% | 4% | 4% | 1% | 1% | 1% |
| Peiriant chwilio | 2% | 2% | 2% | 2% | 3% | 4% |
| Ystafell sgwrsio / sgwrs mewn gêm | 1% | 1% | 1% | 9% | 6% | 6% |
| Gwefannau neu apiau cwrdd â chariad ar-lein[234] | 1% | 1% | 1% | - | - | - |
| Gwefan neu ap llwyfan gemau | 1% | 1% | 1% | 6% | 11% | 9% |
| Gwefan neu ap blogiau | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% |

*Dynodir ton ar don uwch gyda 99% hyder* *Dynodir ton ar don is gyda 99% hyder*

*Ffynhonnell: 13+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C21. Pa fath o wefan neu wasanaeth oeddech chi'n ei ddefnyddio pan gawsoch chi brofiad yn fwyaf diweddar? Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2023: 8414, Ionawr 2024: 4444, Mehefin 2024: 4613) 13-17 (Mehefin 2023: 634, Ionawr 2024: 351, Mehefin 2024: 347)*

## Roedd menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o ddod ar draws niwed posibl ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a VSPs

Wrth edrych ar gyfryngau cymdeithasol a VSPs, roedd 63% a 9% o fenywod sy'n oedolion wedi dod ar draws niwed posibl yn fwyaf diweddar ar y llwyfannau hyn yn y drefn honno, o'i gymharu â 52% a 7% o ddynion. Mae dynion yn llawer mwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl drwy negeseuon e-bost, gwefannau negeseuon gwib, gwefannau newyddion, peiriannau chwilio a gwefannau blogio na menywod.

Roedd gan ddefnyddwyr 13-17 oed brofiadau tebyg yn y ffaith bod bechgyn a merched yr un mor debygol o ddod ar draws niwed posibl ar VSP (18% ar gyfer merched a 21% ar gyfer bechgyn), yn

[234] Nid yw'r plant sy'n ymateb (13-17 oed) yn cael gweld y cod 'Gwefannau neu apiau cwrdd â chariad ar-lein' yn C21.

ystod sgwrs mewn gêm (6% ar gyfer merched a 7% ar gyfer bechgyn) ac ar wefannau fideo ar-alw (2% ar gyfer merched a 3% ar gyfer bechgyn). Fodd bynnag, roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o ddod ar draws niwed posibl ar lwyfannau gemau (12% o'i gymharu â 5%).

**Ffigur 73: Y gwefannau a'r gwasanaethau lle cafodd dynion a menywod eu profiad niweidiol posibl mwyaf diweddar ar-lein**

| Y deg prif wefan lle mae defnyddwyr wedi dod ar draws niwed | Dynion | | | Menywod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meh 23 | Ion 24 | Meh 24 | Meh 23 | Ion 24 | Meh 24 |
| Gwefan neu ap cyfryngau cymdeithasol | 52% | 50% | 52% | 62% | 62% | 63% |
| E-bost | 14% | 12% | 10% | 11% | 10% | 7% |
| VSP | 7% | 6% | 7% | 7% | 6% | 9% |
| Gwefan neu ap negeseuon gwib | 4% | 6% | 6% | 5% | 5% | 5% |
| Gwefan neu ap newyddion | 5% | 5% | 5% | 3% | 3% | 3% |
| Peiriant chwilio | 2% | 3% | 3% | 2% | 2% | 1% |
| Ystafell sgwrsio / sgwrs mewn gêm | 1% | 1% | 2% | 0% | 0% | 1% |
| Gwefannau neu apiau cwrdd â chariad ar-lein** | 1% | 1% | 1% | 0% | 1% | 1% |
| Gwefan neu ap llwyfan gemau | 1% | 1% | 1% | 0% | 1% | 1% |
| Gwefan neu ap blogiau | 1% | 1% | 1% | 0% | 1% | 0% |

*Dynodir ton ar don uwch gyda 99% hyder* *Dynodir ton ar don is gyda 99% hyder*

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C21. Pa fath o wefan neu wasanaeth oeddech chi'n ei ddefnyddio pan gawsoch chi brofiad yn fwyaf diweddar? Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2023: 8414, Ionawr 2024: 4444, Mehefin 2024: 4613)*

## Dywedodd tri o bob deg oedolyn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd eu bod wedi dod ar draws niwed posibl ar-lein yn fwyaf diweddar ar Facebook; TikTok ac YouTube oedd y gwasanaethau mwyaf tebygol ymysg pobl ifanc, sef 22% a 13% yn y drefn honno

Facebook oedd y llwyfan lle'r oedd defnyddwyr sy'n oedolion yn fwyaf tebygol o ddod ar draws niwed posibl, ar draws pob ton (Mehefin 2024: 29%), wedi'i ddilyn gan X (Mehefin 2024: 18%), sydd wedi gweld gostyngiad mewn adroddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf (Mehefin 2023: 23%). Roedd oedolion hŷn yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod ar draws y niwed posibl mwyaf diweddar ar Facebook, (55+: 45% o'i gymharu â phobl 18-24 oed: 8%) a Facebook Messenger (55+: 8% o'i gymharu â phobl 18-24 oed: 4%). Gall hyn fod oherwydd bod oedolion hŷn yn treulio mwy o amser nag oedolion iau ar Facebook / Messenger (yr amser a dreulir ar gyfartaledd gan ymwelwyr 55 oed a hŷn ar Facebook / Messenger: 45 munud o'i gymharu â phobl 18-24 oed: 18 munud ym mis Mehefin 2024).[235] Roedd defnyddwyr 18-24 oed yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed ar X (21%), Instagram (20%), TikTok (20%), Snapchat (3%) a Tumblr (1%), ac roedd yn llai tebygol o fod ar Facebook (8%).

[235] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, (BG) Facebook / Messenger, Mehefin 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer: Gan fod messenger yn rhan o brif wefan ac ap Facebook, nid yw Ipsos iris yn gallu adrodd ar bob gwasanaeth yn unigol.

Roedd plant 13-17 oed gryn dipyn yn fwy tebygol nag oedolion o ddod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar ar TikTok (22% o'i gymharu â 9%), YouTube (13% o'i gymharu â 4%), Snapchat (7% o'i gymharu ag 1%) a WhatsApp (7% o'i gymharu â 2%). Hefyd, dywedodd 3% o'r rhai 13-17 oed eu bod wedi dod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar ar Roblox.

**Ffigur 74: Y naw gwefan a gwasanaeth yr adroddwyd amdanynt fwyaf lle cafodd oedolion a phlant eu profiad niweidiol posibl mwyaf diweddar ar-lein**




*Ffynhonnell: 13 oed a hŷn, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C22_C29 Llwyfannau/apiau gyda'i gilydd. Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2023: 6082, Ionawr 2024: 3211, Mehefin 2024: 3453), Plant 13-17 (Mehefin 2023: 473, Ionawr 2024: 263, Mehefin 2024: 261)*

Hefyd, wrth edrych ar wahaniaethau yn ôl rhywedd, roedd cydberthynas amlwg rhwng yr amser a dreulir ar wasanaeth penodol a'r tebygolrwydd o ddod ar draws niwed posibl ar y gwasanaeth hwnnw. Roedd menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o fod wedi dod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar ar Facebook (31% o'i gymharu â 27%), tra bo dynion yn fwy tebygol na menywod o fod wedi dod ar draws niwed posibl ar X (23% o'i gymharu â 14%) – mae'r patrwm hwn wedi bod yn gyson dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ôl data Ipsos iris, menywod oedd yn treulio'r amser hiraf ar gyfartaledd ar Facebook / Messenger o'i gymharu â dynion (25 awr 28 munud o'i gymharu â dynion: 18 awr 8 munud), gyda dynion yn treulio'r amser hiraf ar X (5 awr 21 munud o'i gymharu â menywod: 3 awr 32 munud) ym mis Mehefin 2024.[236]

[236] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mehefin 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

**Ffigur 75: Amser a dreuliwyd, a ble roeddent wedi dod ar draws y niwed mwyaf diweddar, yn ôl rhyw: Mehefin 2024**

| Yr amser a dreulir ar gyfartaledd gan ymwelwyr sy'n oedolion yn y DU ym mis Mehefin 2024, yn ôl rhywedd (oriau:munudau) | Gwasanaethau lle daethpwyd ar draws niwed posibl yn fwyaf diweddar, yn ôl rhywedd |
|---|---|







*Ffynonellau: Siart o'r amser a dreuliwyd - Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mehefin 2024, oedran: 18+, defnyddwyr rhyngrwyd y DU. Sylwer mai'r amser sy'n cael ei dreulio ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron yn unig sydd yma. Siart o brofiadau niwed - Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, Mehefin 2024. C22_C29 Llwyfannau/apiau gyda'i gilydd. Sail: (Dynion dros 18 oed: 1557, Menywod dros 18 oed: 1817). Mae'r gwasanaethau a restrir ymysg y pum gwasanaeth yr adroddwyd amdanynt fwyaf lle daethpwyd ar draws niwed.*

Ymysg plant 13-17 oed, gan gymharu'r un pum gwasanaeth ag oedolion, roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o ddod ar draws niwed posibl ar YouTube (20% o'i gymharu â 7%), Facebook (12% o'i gymharu â 9%) ac X (6% o'i gymharu â 2%), tra bo merched yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl ar TikTok (26% o'i gymharu â 18%) ac Instagram (9% o'i gymharu â 5%). Roedd merched hefyd yn fwy tebygol na bechgyn o ddod ar draws niwed posibl ar WhatsApp (12% o'i gymharu â 2%) a Snapchat (9% o'i gymharu â 4%).

## Gan edrych yn agosach ar leoliadau a swyddogaethau gwasanaethau, ffrydiau defnyddwyr oedd y mannau mwyaf tebygol o ddod ar draws niwed posibl, gyda gwahaniaethau yn ôl rhyw

I ddefnyddwyr sy'n oedolion, sgrolio drwy eu ffrwd neu'r dudalen 'For You' oedd y lle mwyaf tebygol o ddod ar draws niwed posibl (35%), sy'n gyson â'r tonnau blaenorol. Bu cynnydd yng nghyfran y defnyddwyr sy'n dod i gysylltiad â niwed posibl wrth wylio cynnwys a ddewiswyd ar eu cyfer drwy awtochwarae, o 5% i 6% ac yna 7% ym mis Mehefin 2024, ac wrth wylio cynnwys roeddent wedi dewis ei wylio, o 8% ym mis Mehefin 2023 i 10% ym mis Ionawr a mis Mehefin 2024.

Roedd dynion yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl wrth wylio cynnwys roeddent wedi dewis ei wylio (12% o'i gymharu ag 8% o fenywod), darllen erthyglau ac adolygiadau (11% o'i gymharu â 7%) a darllen negeseuon e-bost (10% o'i gymharu â 7%). Roedd menywod yn fwy tebygol o ddod ar draws niwed wrth sgrolio drwy eu ffrwd neu'r dudalen 'For You' (37% o'i gymharu â 31% o ddynion), ac yn y sylwadau neu'r atebion i bost, erthygl neu fideo (23% o'i gymharu â 21%).

Hefyd, roedd gwahaniaethau ymysg oedrannau yn y ffyrdd yr oedd defnyddwyr sy'n oedolion yn dod ar draws niwed posibl; roedd oedolion iau (18-24 oed, 25-34 oed) yn fwy tebygol o ddod ar ei draws wrth sgrolio drwy eu ffrwd (45% a 41%), mewn sylwadau (24% ar gyfer y ddau), neu wrth wylio cynnwys roeddent wedi'i ddewis neu a oedd wedi'i argymell iddynt (15% ac 11%), a hefyd mewn negeseuon preifat (12% a 9%). Roedd oedolion hŷn (55 oed a hŷn) yn fwy tebygol o ddod ar ei draws wrth ddarllen erthyglau ac adolygiadau (12%), neu negeseuon e-bost (16%), a hefyd mewn hysbysebion (pobl 65 oed a hŷn yn benodol: 8%).

O ran plant 13-17 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, roedd y patrwm yn debyg i oedolion, ac eithrio ar gyfer cyfran uwch sy'n dod i gysylltiad â niwed posibl wrth wylio cynnwys roeddent wedi dewis ei wylio (Mehefin 2024: 20%), neu gynnwys a ddewiswyd ar eu cyfer drwy awtochwarae (Mehefin 2024: 11%). Roedd plant hefyd yn llawer mwy tebygol o ddod ar draws niwed posibl mewn sgwrs grŵp, neu wrth ddefnyddio'r swyddogaeth neges breifat neu uniongyrchol gyda mwy nag un defnyddiwr arall. Roedd ffrydio byw hefyd yn fwy tebygol o fod yn ffynhonnell niwed posibl i blant 13-17 oed (8%) o'i gymharu â 3% o oedolion sydd wedi dod ar draws niwed ar-lein yn ddiweddar wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn.

**Ffigur 76: Y gwefannau a'r gwasanaethau lle cafodd oedolion a phlant eu profiad niweidiol posibl mwyaf diweddar ar-lein**

| Y deg prif weithgaredd lle mae defnyddwyr yn dod ar draws niwed (yn seiliedig ar y niwed mwyaf diweddar y daethant ar ei draws) | Oedolion 18+ oed | | | Plant 13-17 oed | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meh 23 | Ion 24 | Meh 24 | Meh 23 | Ion 24 | Meh 24 |
| Sgrolio drwy eich ffrwd / y dudalen 'For You' | 35% | 32% | 35% | 26% | 24% | 26% |
| Yn y sylwadau neu'r atebion i bost, erthygl neu fideo | 22% | 23% | 22% | 15% | 19% | 15% |
| Gwylio cynnwys (rydych chi wedi dewis ei wylio) | 8% | 10% | 10% | 21% | 19% | 20% |
| Darllen erthyglau / adolygiadau | 9% | 9% | 9% | 6% | 8% | 6% |
| Darllen negeseuon e-bost | 12% | 11% | 8% | 3% | 2% | 3% |
| Defnyddio'r swyddogaeth neges breifat neu uniongyrchol gydag un defnyddiwr arall. | 6% | 7% | 7% | 7% | 13% | 8% |
| Gwylio cynnwys a ddewiswyd ar eich cyfer drwy awtochwarae | 5% | 6% | 7% | 9% | 6% | 11% |
| Mewn hysbyseb* | - | 6% | 6% | - | 8% | 7% |
| Mewn sgwrs grŵp / defnyddio'r swyddogaeth neges breifat neu uniongyrchol gyda mwy nag un defnyddiwr arall | 3% | 4% | 4% | 17% | 14% | 14% |

*Dynodir ton ar don uwch gyda 99% hyder*    *Dynodir ton ar don is gyda 99% hyder*

*Ffynhonnell: 13+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C21a. Gweithgarwch ar y wefan pan ddaethpwyd ar draws y niwed. Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2023: 8133, Ionawr 2024: 4264, Mehefin 2024: 4421), Plant 13-17 (Mehefin 2023: 597, Ionawr 2024: 331, Mehefin 2024: 328)*

# Ymateb defnyddwyr y rhyngrwyd ar ôl dod i gysylltiad â niwed posibl

Comisiynodd Ofcom ymchwil i ddeall profiadau pobl o ddefnyddio VSPs, a'u hagweddau at fesurau diogelwch ar y gwasanaethau hyn, fel rhan o'i ddyletswyddau o dan y drefn VSP.[237] Cynhaliwyd y gwaith maes ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 13 oed a hŷn; fe'i cynhaliwyd ddwywaith yn 2024 – ym mis Chwefror ac ym mis Awst. Mae'r adran ganlynol yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil hwn a Thraciwr Profiadau Ar-lein Ofcom.

## Roedd hanner y defnyddwyr sy'n 13 oed a hŷn wedi dweud, yn ddigymell, eu bod yn ymwybodol o unrhyw fesurau diogelwch ar y VSPs maent wedi'u defnyddio

Pan ofynnwyd, heb gynnig rhestr iddynt, p'un a oeddent yn ymwybodol o fesurau diogelwch ar y VSPs roeddent wedi'u defnyddio yn ystod y tri mis diwethaf, dywedodd 50% o ddefnyddwyr 13 oed a hŷn eu bod yn ymwybodol ohonynt, sydd wedi codi o 46% ym mis Chwefror 2024. O'r rhai a oedd wedi dweud *nad* oeddent yn ymwybodol o fesurau diogelwch ar VSPs (50%), y rheswm a ddewiswyd amlaf oedd am 'nad oedd rheswm iddynt chwilio amdanynt' (48%, sy'n gyson â mis Chwefror 2024: 50%), wedi'i ddilyn gan 'ddim yn credu eu bod eu hangen' (Awst 2024: 35%, Chwefror 2024: 36%).[238]

Dywedodd cyfran uwch o ddefnyddwyr gwrywaidd na benywaidd eu bod yn ymwybodol o fesurau diogelwch (53% o'i gymharu â 48%), a hynny'n ddigymell. Pan gynigiwyd rhestr o fesurau ac offer diogelwch iddynt, dywedodd 92% o ddefnyddwyr VSP eu bod yn ymwybodol ohonynt, sydd yr un fath â mis Chwefror 2024. Roedd benywod yn fwy tebygol na gwrywod o fod yn ymwybodol ohonynt (94% o'i gymharu â 90%). Ond fel y mae Ffigur 77 isod yn dangos, roedd mwy o wrywod sy'n defnyddio VSPs yn dweud eu bod yn ymwybodol bod system gwyno, systemau gwirio oedran, offer a gwybodaeth (fel canolfan ddiogelwch) i helpu defnyddwyr i ddefnyddio'r VSP yn ddiogel, ac awgrymiadau i atgoffa defnyddwyr am yr offer hynny, ar gael ar y VSP.[239]

[237] Ar 26 Hydref 2023, roedd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn nodi'r broses ar gyfer diddymu'r drefn VSP sy'n cynnwys sut y bydd VSPs yn symud o gael eu rheoleiddio o dan y drefn VSP i gael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: https://www.ofcom.org.uk/cy/online-safety/illegal-and-harmful-content/repeal-of-the-vsp-regime-what-you-need-to-know/?language=cy

[238] Ofcom, Traciwr VSP, Chwefror 2024 ac Awst 2024, oedran: 13+, y DU.

[239] Ofcom, Traciwr VSP, Chwefror 2024 ac Awst 2024, oedran: 13+, y DU.

**Ffigur 77: Cyfran y defnyddwyr (13 oed a hŷn) sydd wedi dweud eu bod yn ymwybodol o'r mesurau diogelwch a restrir ar y VSPs maent wedi'u defnyddio dros y tri mis diwethaf**




*Ffynhonnell: Traciwr VSP Ofcom 2024. C10. Pa rai o'r rheolau neu'r mesurau diogelwch canlynol sydd ar waith ar y gwefannau a'r apiau hyn yn eich barn chi? Sail: Defnyddwyr VSP sydd wedi defnyddio VSP yn ystod y tri mis diwethaf (Awst 2024: 1114). Mae symbol X ar y siart yn cynrychioli'r ffug-fesurau sydd wedi'u cynnwys i asesu gor-honiadau.*

## Dywedodd dwy ran o dair o ddefnyddwyr 13 oed a hŷn eu bod wedi gweithredu mewn rhyw ffordd mewn ymateb i ddod ar draws niwed posibl ar-lein

Ym mis Mehefin 2024, dywedodd 61% o ddefnyddwyr 13 oed a hŷn eu bod wedi gweithredu mewn rhyw ffordd mewn ymateb i ddod ar draws niwed posibl ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Mae hyn yn gyson â'r arolwg OET blaenorol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2024 (62%) a welodd gynnydd o 3pc yn y nifer a oedd wedi gweithredu mewn rhyw ffordd ers yr arolwg ym mis Mehefin 2023 (59%). O'r 61%, y cam mwyaf tebygol i gael ei gymryd gan ddefnyddwyr oedd creu adroddiad neu dynnu sylw at y cynnwys tramgwyddus (35%). Ym mis Mehefin 2024, gwelsom gynnydd ers y flwyddyn flaenorol yn nifer y defnyddwyr sy'n dewis datgysylltu neu newid eu hymddygiad ymgysylltu, sef 18% o'i gymharu â 16% ym mis Mehefin 2023.

Canfu traciwr VSP Ofcom ym mis Awst 2024 fod 51% o ddefnyddwyr VSP sy'n 13 oed a hŷn wedi defnyddio mecanwaith adrodd a thynnu sylw yn y gorffennol, sydd wedi codi o 42% ym mis Chwefror 2024. O'r bobl a oedd wedi defnyddio mecanweithiau adrodd a thynnu sylw, dywedodd 89% y byddent yn defnyddio un eto, sy'n gyson â mis Chwefror 2024 (87%). Y prif resymau y dywedodd defnyddwyr y buasent yn eu defnyddio eto oedd am eu bod yn hawdd eu defnyddio (61%) neu'n hawdd dod o hyd iddynt (50%); mae hynny eto'n gyson â mis Chwefror 2024 (66% a 56%).[240]

Dywedodd pedwar deg saith y cant o rieni, a oedd yn ymwybodol o fecanweithiau adrodd a thynnu sylw, y dylai'r rhain fod yn haws i blant ddod o hyd iddynt a'u defnyddio, tra bod 9% yn dweud ei bod hi'n ddigon hawdd yn barod i blant ddod o hyd iddynt a'u defnyddio, sy'n debyg i fis Chwefror 2024 (50% ac 8%).[241]

---

[240] Ofcom, Traciwr VSP, Chwefror 2024 ac Awst 2024, oedran: 13+, y DU.
[241] Ofcom, Traciwr VSP, Chwefror 2024 ac Awst 2024, oedran: 13+, y DU.

Roedd llai na thraean (27%) o ddefnyddwyr VSP wedi defnyddio system[242] gwyno mewn ymateb i gynnwys a allai fod yn niweidiol, ac roedd 8% o ddefnyddwyr yn teimlo ei bod hi'n anodd dod o hyd iddynt neu eu defnyddio, sy'n debyg i fis Chwefror 2024 (25% a 9%).[243]

**Ffigur 78: Ymatebion defnyddwyr i ddod ar draws niwed posibl yn ystod y pedair wythnos diwethaf: Mehefin 2024**




*Ffynhonnell: 13 oed a hŷn, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein. C15. Pan welsoch [niwed posibl] ar yr achlysur hwnnw, pa rai o'r camau canlynol wnaethoch chi eu cymryd, os o gwbl? Sail: Defnyddwyr 13+ oed (Mehefin 2024: 4960).*

---

[241] Yn ein holiadur, rydym yn diffinio systemau cwyno fel 'system gwyno sy'n galluogi defnyddwyr i gwyno am benderfyniad safle - gall hyn fod am gynnwys maen nhw wedi rhoi gwybod amdano, neu pan fydd eu cyfrif wedi'i atal dros dro, er enghraifft'. Ofcom, Traciwr VSP, Chwefror 2024 ac Awst 2024, oedran: 13+, y DU.

[243] Ofcom, Traciwr VSP, Chwefror 2024 ac Awst 2024, oedran: 13+, y DU.

## Roedd dynion ac oedolion ifanc yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o gamau o ryw fath yn cael eu cymryd gan y llwyfan ar ôl iddynt roi gwybod am niwed posibl

Roedd tri deg wyth y cant o oedolion a ddewisodd greu adroddiad neu dynnu sylw at y cynnwys neu'r gweithgaredd yn ymwybodol o ganlyniad eu hadroddiad; cynnydd ar ddwy don ddiwethaf yr arolwg (32% ym mis Ionawr 2024, 30% ym mis Mehefin 2023). Fodd bynnag, dywedodd hanner yr oedolion fod 'dim byd eto' wedi digwydd o ganlyniad i'w hymdrechion i greu adroddiad/tynnu sylw at y niwed mwyaf diweddar yr oeddent wedi dod ar ei draws. Dywedodd dau ddeg dau y cant eu bod wedi gweld y cynnwys tramgwyddus yn cael ei dynnu i lawr, sy'n gynnydd o 4pc ers mis Ionawr 2024 (18%), tra bod 9% wedi cael ymateb ysgrifenedig, sy'n gynnydd o'r flwyddyn flaenorol (Mehefin 2023: 6%, +3pc).

Pobl ifanc 18-24 oed oedd y grŵp oedolion lleiaf tebygol o fod wedi clywed 'dim byd eto' mewn ymateb i'w hadroddiad (33%). Roedd pobl ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o ddweud bod y cynnwys yr oeddent wedi rhoi gwybod amdano wedi cael ei dynnu i lawr (40%) na'r grŵp cyfan o oedolion oedd wedi ymateb (22%). Roedd pobl sy'n 55 oed a hŷn yn llai tebygol na grwpiau eraill o ddweud eu bod wedi gweld y cynnwys yn cael ei dynnu i lawr (16%).

Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o fod wedi clywed 'dim byd eto' mewn ymateb i'w hadroddiad (55% o'i gymharu â 46%) ym mis Mehefin 2024. Roedd dynion yn fwy tebygol o fod wedi cael ymateb ysgrifenedig (11% o'i gymharu â 7% o fenywod) ac yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o ganlyniad yr adroddiad (42% o'i gymharu â 35%). Ym mis Mehefin 2024, dywedodd chwarter o ddynion fod y cynnwys roeddent wedi rhoi gwybod amdano wedi cael ei dynnu i lawr, tra bod 18% o fenywod yn dweud yr un fath.

**Ffigur 79: Canlyniad ar ôl i oedolion yn y DU roi gwybod am niwed posibl, yn ôl rhywedd: 2023-2024**




*Ffynhonnell: 18+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C17. Fe wnaethoch chi grybwyll eich bod wedi adrodd/cwyno am y [niwed posibl]. Beth ddigwyddodd o ganlyniad i hynny? [ymateb mwy nag un dewis] Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2023: 1983, Ionawr 2024: 1044, Mehefin 2024: 1033).*

Mae cynnydd mewn bodlonrwydd oedolion ar ôl rhoi gwybod am gynnwys a allai fod yn niweidiol; o 31% ym mis Mehefin 2023 i 40% ym mis Mehefin 2024.[244] Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o beth oedd canlyniad rhoi gwybod am gynnwys (e.e. tynnu cynnwys i lawr, ymateb ysgrifenedig, ac ati), yn ystod yr un cyfnod, o 30% ym mis Mehefin 2023 i 38% ym mis Mehefin 2024.

Roedd cyfran yr oedolion sydd ddim yn fodlon nac yn anfodlon wedi gostwng o 32% ym mis Mehefin 2023 i 25% ym mis Mehefin 2024, tra bod cyfran y rhai anfodlon wedi aros yn sefydlog, o 37% ym mis Mehefin 2023 i 35% ym mis Mehefin 2024. Roedd oedolion iau (18-24 oed) yn fwy tebygol o fod yn fodlon (62%), cynnydd o 29pc ers mis Mehefin 2023. Eto, gall hyn fod yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth y grŵp hwn o beth oedd canlyniad rhoi gwybod am gynnwys, o 40% ym mis Mehefin 2023 i 56% ym mis Mehefin 2024.

Roedd oedolion hŷn yn llai tebygol o ddweud eu bod yn fodlon, gyda dim ond 38% o'r rhai 55 oed a hŷn. Gwelwyd cynnydd mewn bodlonrwydd ymysg dynion a menywod, ond roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o fod yn fodlon â chanlyniad eu hadroddiadau (Mehefin 2024: 44% o'i gymharu â 37%, Mehefin 2023: 41% o'i gymharu â 32%).

## Nid oedd y niwed posibl yn ddigon difrifol na niweidiol ym marn y rhan fwyaf o'r oedolion oedd heb gymryd camau gweithredu

Dywedodd tri deg naw y cant o oedolion nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r niwed posibl y daethant ar ei draws yn fwyaf diweddar; ar y cyfan, roedd hyn am nad oeddent yn teimlo bod y cynnwys yn ddigon difrifol neu niweidiol (44%). Dyma ostyngiad o 5pc ers y tonnau blaenorol.

Oedolion 55 oed a hŷn oedd y grŵp mwyaf tebygol o ddweud nad oeddent yn hoffi'r cynnwys ond nad oeddent yn ei ystyried yn ddigon difrifol i wneud rhywbeth amdano (24%). Roedd pobl ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o ddweud 'nad oedd ganddynt amynedd' i weithredu (23%). Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud nad oeddent 'wedi gweld yr angen i wneud unrhyw beth' (30% o'i gymharu â 19%).

---

[244] Mae bodlonrwydd yn y fan yma yn cyfeirio at NET o 'gweddol fodlon' a 'bodlon iawn' mewn ymateb i C18 yr OET.

**Ffigur 80: Rhesymau pam nad oedd oedolion yn gweithredu ar ôl dod ar draws niwed posibl ar-lein: 2023-2024**




*Ffynhonnell: 18+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C16. Rydych chi wedi sôn na wnaethoch chi gymryd unrhyw gamau gweithredu. Pam hynny? Sail: Defnyddwyr 13+ oed (Mehefin 2023: 1536, Ionawr 2024: 740, Mehefin 2024: 733).*

## Yn unol â mis Mehefin 2023 a mis Ionawr 2024, roedd bron i hanner (48%) y plant 13-17 oed a ddewisodd adrodd neu dynnu sylw at y cynnwys neu'r gweithgaredd yn ymwybodol o ganlyniad eu hadroddiad ym mis Mehefin 2024

Dywedodd tri deg naw y cant o blant (13-17 oed) eu bod 'heb glywed dim byd eto'. O'r rhai oedd yn ymwybodol o ganlyniad eu hadroddiad, dywedodd 36% fod y cynnwys wedi cael ei ddileu, dywedodd 13% eu bod wedi cael ymateb ysgrifenedig, a gofynnwyd i 15% am ragor o wybodaeth. Ar ôl rhoi gwybod am gynnwys a allai fod yn niweidiol, cynyddodd bodlonrwydd ymysg defnyddwyr 13-17 oed: o 48% ym mis Mehefin 2023 i 62% ym mis Mehefin 2024, tra bod cyfran y rhai anfodlon wedi aros yn gymharol sefydlog gyda 21% ym mis Mehefin 2023 o'i gymharu â 18% ym mis Mehefin 2024.

**Ffigur 81: Canlyniad ar ôl i bobl ifanc 13-17 oed yn y DU roi gwybod am niwed posibl: 2023-2024**




*Ffynhonnell: 13-17 oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C17. Fe wnaethoch chi grybwyll eich bod wedi adrodd/cwyno am y [niwed posibl]. Beth ddigwyddodd o ganlyniad i hynny? Sail: Plant 13-17 oed (Mehefin 2023: 78*, Ionawr 2024: 47**, Mehefin 2024: 52*). Sylwch fod defnyddwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb ar gyfer y cwestiwn hwn, felly nid yw'r siart uchod yn rhoi cyfanswm o 100%. *maint y sail yn fach **maint y sail yn fach iawn.*

# Agweddau a dulliau defnyddwyr tuag at gadw'n ddiogel ar-lein

## Roedd pedwar o bob deg (39%) oedolyn yn y DU yn credu y dylai llwyfannau a pheiriannau chwilio fod yn gyfrifol am ddiogelwch defnyddwyr

Ym mis Mehefin 2024, pan ofynnwyd a ddylai'r wefan a'r ap fod yn gyfrifol am ddiogelwch defnyddwyr ar lwyfannau lle mae cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn cael ei bostio, neu a ddylai'r unigolyn fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyn maen nhw'n ei bostio yn briodol i ddefnyddwyr eraill, dywedodd 39% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd eu bod yn teimlo mai'r llwyfan ddylai fod yn gyfrifol. Mae'r ymateb hwn wedi gweld cynnydd bach ond arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf: 37% ym mis Mehefin 2023, 38% ym mis Ionawr 2024. Dywedodd cyfran gynyddol o oedolion 55 oed a hŷn fod y cyfrifoldeb ar y llwyfan, i fyny o 36% ym mis Mehefin 2023 i 40% ym mis Mehefin 2024.

Pan ofynnwyd iddynt am beiriannau chwilio yn benodol, dywedodd 41% o oedolion mai cyfrifoldeb y peiriannau chwilio oedd rheoli'r hyn sy'n cael ei gyflwyno mewn canlyniadau chwilio yn hytrach na bod yn rhaid i unigolion wneud yn siŵr eu bod wedi dewis y gosodiadau cywir er mwyn sicrhau mai dim ond yr hyn sy'n briodol iddyn nhw sy'n cael ei gyflwyno. Dyma gynnydd bach ond arwyddocaol o 2pc ers mis Ionawr 2024. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o roi'r cyfrifoldeb ar beiriannau chwilio (45% o'i gymharu â 38%). Ymysg grwpiau oedran oedolion, pobl 25-34 oed oedd y mwyaf tebygol o deimlo bod y cyfrifoldeb ar y peiriant chwilio (46%), a phobl ifanc 18-24 oed oedd y lleiaf tebygol (38%).[245]

[245] I gael rhagor o ddata am beiriannau chwilio edrychwch ar ein hadroddiad rhyngweithiol

**Ffigur 82: Ymateb i agweddau ynghylch cyfrifoldeb y llwyfan o'i gymharu â'r unigolyn, yn ôl grwpiau demograffig oedolion: Mehefin 2024**

| Grwpiau demograffig | | 'Cyfrifoldeb y llwyfan' | Niwtral | 'Cyfrifoldeb yr unigolyn' |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 18+ | 39% | 41% | 20% |
| **Rhyw** | Menywod | 40% | 43% | 17% |
| | Dynion | 38% | 39% | 23% |
| **Oedran** | 18-24 | 34% | 42% | 24% |
| | 25-34 | 41% | 41% | 18% |
| | 35-44 | 39% | 44% | 17% |
| | 45-54 | 38% | 43% | 19% |
| | 55-64 | 40% | 41% | 19% |
| | 65+ | 40% | 36% | 25% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 39% | 42% | 19% |
| | Lleiafrifoedd ethnig | 38% | 40% | 23% |

*Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm o 95% hyder*

*Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm o 95% hyder*

*Ffynhonnell: 18+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C1. Cyfrifoldeb y wefan neu'r ap yw rheoli'r hyn sy'n cael ei bostio ar ei wefan o'i gymharu â chyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau bod yr hyn y mae'n ei bostio yn briodol i ddefnyddwyr eraill. Sail Oedolion 18+ (Mehefin 2023: 13205, Ionawr 2024: 7068, Mehefin 2024: 7280)*

Erbyn mis Mehefin 2024, roedd ychydig mwy o oedolion (12%) yn dweud nad oeddent yn hyderus yn eu gallu i aros yn ddiogel ar-lein nag mewn tonnau blaenorol (11% ym mis Ionawr 2024 a 10% ym mis Mehefin 2023). Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn hyderus yn gyffredinol (Mehefin 2024: 61%). Roedd y rhan fwyaf (56%) o oedolion a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd ym mis Mehefin 2024 hefyd yn credu bod synnwyr cyffredin yn ddigon i'w hatal rhag gweld cynnwys niweidiol neu dramgwyddus, er bod hyn yn cynrychioli gostyngiad sylweddol o'r 61% a oedd wedi dweud yr un peth y flwyddyn flaenorol.

## Roedd cyfran uwch o oedolion ar-lein yn cytuno ei bod yn bwysig i safleoedd fonitro a dileu safbwyntiau sarhaus

Ym mis Mehefin 2024 roedd mwy o oedolion ar-lein yn dweud ei bod yn 'bwysig i safleoedd fonitro a dileu safbwyntiau sarhaus i ddiogelu defnyddwyr eraill' nag y gwnaeth hynny'r flwyddyn flaenorol, sef 26% o'i gymharu â 24% ym mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, roedd cyfran uwch o oedolion (38%) yn teimlo bod gan '*y rhyngrwyd rôl bwysig o ran cefnogi rhyddid mynegiant*'. Roedd dynion yn fwy tebygol o ddadlau dros ryddid mynegiant, gyda 47% yn cytuno â'r datganiad hwn o'i gymharu â 30% o fenywod. Ond roedd 37% o oedolion ar-lein yn teimlo'n 'niwtral' ar y pwnc, sy'n dangos yr amrywiaeth barn ynghylch cymedroli cynnwys ar-lein.

**Ffigur 83: Barn ynghylch rôl y rhyngrwyd, yn ôl rhyw: 2024**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C1. 'Mae gan y rhyngrwyd rôl bwysig o ran cefnogi rhyddid mynegiant, hyd yn oed pryd y byddai rhai defnyddwyr yn teimlo bod y cynnwys yn sarhaus' o'i gymharu â 'Mae'n bwysig i safleoedd fonitro a dileu safbwyntiau sarhaus i ddiogelu defnyddwyr eraill'. Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2024: 7280).*

## Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cyfran gynyddol o oedolion wedi teimlo bod angen rhagor o fesurau diogelwch ar-lein

Roedd 44% o ddefnyddwyr sy'n oedolion o'r farn hon ym mis Mehefin 2024, o'i gymharu â 42% ym mis Ionawr 2024 a 40% ym mis Mehefin 2023. Roedd yr agwedd hon yn arbennig o wir ymysg menywod, pobl 55 oed a hŷn, a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol. Ar y llaw arall, roedd dynion, oedolion iau a'r rheini sy'n ystyried eu hunain yn LHD+ yn fwy tebygol o ddweud bod y mesurau diogelwch presennol yn ddigonol (gweler Ffigur 84 i gael manylion). Roedd ychydig o ostyngiad yng nghyfran yr oedolion ar-lein a oedd yn teimlo'n niwtral am fesurau diogelwch, o 36% ym mis Mehefin 2023 a mis Ionawr 2024, i 34% ym mis Mehefin 2024. Dywedodd dau ddeg dau y cant o ddefnyddwyr sy'n oedolion fod y mesurau diogelwch presennol yn diwallu'r anghenion, sy'n gyson â mis Mehefin 2023 (23%) a mis Ionawr 2024 (22%).

**Ffigur 84: Gwahaniaethau mewn agweddau oedolion at fesurau diogelwch ar lwyfannau, yn ôl demograffig: Mehefin 2024**

| Grwpiau demograffig | | 'Mesurau'n diwallu'r anghenion' | Niwtral | 'Angen mwy o fesurau diogelwch' |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 18+ | 22% | 34% | 44% |
| **Rhyw** | Menywod | 14% | 33% | 53% |
| | Dynion | 31% | 35% | 35% |
| **Oedran** | 18-24 | 20% | 40% | 40% |
| | 25-34 | 25% | 31% | 43% |
| | 35-44 | 23% | 35% | 42% |
| | 45-54 | 26% | 34% | 40% |

| Grwpiau demograffig | | 'Mesurau'n diwallu'r anghenion' | Niwtral | 'Angen mwy o fesurau diogelwch' |
|---|---|---|---|---|
| | 55-64 | 18% | 32% | 49% |
| | 65+ | 18% | 31% | 51% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 23% | 33% | 44% |
| | Lleiafrifoedd ethnig | 19% | 36% | 45% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Heterorywiol | 21% | 33% | 45% |
| | LDH+ | 26% | 36% | 38% |
| | Deurywiol | 24% | 34% | 42% |

*Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm o 95% hyder*

*Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm o 95% hyder*

*Ffynhonnell: 18+ oed, Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein, C1. 'Mae digon o fesurau diogelwch ar-lein ar waith' o'i gymharu â 'Dylai fod mwy o fesurau diogelwch ar-lein ar waith'. Sail: Oedolion 18+ oed (Mehefin 2023: 13205, Ionawr 2024: 7068, Mehefin 2024: 7280).*

# A1. Methodoleg

## Ffynonellau ymchwil Ofcom

### Traciwr Profiadau Ar-lein Ofcom

Mae'r Traciwr Profiadau Ar-lein yn arolwg tracio meintiol sy'n edrych ar agweddau pobl at ddefnyddio gwasanaethau a llwyfannau ar-lein yn y DU, a'u profiadau o hynny. Mae Ofcom yn cynnal yr ymchwil hwn ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio panel ar-lein YouGov o dros 2.7 miliwn o bobl sy'n byw yn y DU.

Cynhaliwyd Ton 6 o'r Traciwr Profiadau Ar-lein ymysg sampl cynrychioliadol cenedlaethol o 7,280 o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y DU rhwng 13 ac 84 oed. Cynhaliwyd y gwaith maes dros gyfnod o ddeg diwrnod rhwng 23 Mai a 8 Mehefin 2024. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth defnyddwyr rhyngrwyd y DU o ran oedran o fewn rhywedd, ac yn gyffredinol, i broffiliau rhanbarthol a Grŵp Economaidd-Gymdeithasol.

Daeth yr holl ymatebwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil o banel YouGov. Cafodd plant 13-17 oed eu recriwtio drwy eu rhieni neu eu gwarcheidwaid. Cafodd yr arolwg ei drosglwyddo i'r plant ar ôl cael caniatâd rhieni neu warcheidwaid. Yna rhoddodd y plant eu caniatâd eu hunain a chawsant gyfle i wrthod cymryd rhan yn yr ymchwil os oeddent yn dymuno.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Adroddiad Technegol.

### Traciwr Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) Ofcom

Mae'r Traciwr VSP yn arolwg meintiol sy'n ceisio deall a thracio ymwybyddiaeth, canfyddiadau a phrofiadau honedig defnyddwyr VSPs o'r mesurau diogelwch a'r adnoddau sydd ar gael ar VSPs, yng nghyd-destun ehangach eu defnydd o VSPs.  Cynhaliwyd cyfanswm o 1,155 o gyfweliadau ar-lein ymysg plant ac oedolion 13 oed a hŷn gan YouGov yn Nhon 6. Cynhaliwyd gwaith maes Ton 6 ym mis Awst 2024.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Adroddiad Technegol.

### Traciwr Technoleg Ofcom

Mae'r Traciwr Technoleg yn arolwg blynyddol a gynhelir ymysg pobl 16 oed a hŷn yn y DU, sy'n casglu gwybodaeth am berchnogaeth a defnydd pobl o dechnolegau, gan gynnwys teledu, radio, ffonau symudol, y rhyngrwyd a thechnoleg glyfar. Yn 2024, cynhaliwyd y gwaith maes gan BMG Research gyda 4,000 o bobl rhwng mis Ionawr a mis Ebrill, ac roedd yn gymysgedd o 80% o arolygon wyneb yn wyneb ac 20% o arolygon ar-lein a drefnwyd gyda gwahoddiad drwy'r post. Mae'n werth nodi nad yw'n bosibl cymharu â data 2021 ar gyfer y Traciwr Technoleg, gan fod rhaid i'r fethodoleg yn 2021 newid i wthio i'r we a gwthio i'r post oherwydd y pandemig Covid-19.

### Ofcom, Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau

Mae'r Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau yn arolwg blynyddol sy'n darparu tystiolaeth am ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth o'r cyfryngau ymysg pobl 16 oed a hŷn yn y DU.

Eleni, roedd y Traciwr yn cynnwys tri arolwg:

- Arolwg craidd: Cynhaliwyd un don y flwyddyn wyneb yn wyneb yn y cartref/ar garreg y drws gyda chyfweliadau ar-lein ychwanegol yn cael eu cynnal drwy banel ymchwil, gyda sampl o 3,645 o bobl 16 oed a hŷn (2,121 wyneb yn wyneb ac 1,522 ar-lein). Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2023. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar ehangder y defnydd o'r rhyngrwyd, defnydd dyfeisiau ac agweddau, a chwarae gemau.
- Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein: Cynhaliwyd dwy don y flwyddyn drwy banel ar-lein, gyda sampl o 6,182 o bobl 16 oed a hŷn (3,083 yn nhon 1 a 3,099 yn nhon 2). Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer ton 1 ym mis Mai 2023, ac ar gyfer ton 2 rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar bynciau cyfryngau cymdeithasol, agweddau ar-lein a llesiant.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Rhyngrwyd: Cynhaliwyd un don y flwyddyn drwy banel ar-lein, gyda sampl o 3,093 o bobl 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar bynciau dealltwriaeth feirniadol, data personol, ymddiriedaeth a hysbysebu ar-lein.

## Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau – Ofcom

Mae'r Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau yn darparu tystiolaeth ar fynediad, defnydd, agweddau a dealltwriaeth o'r cyfryngau ymysg plant a phobl ifanc 3-17 oed. Mae'r arolwg hefyd yn gofyn barn rhieni am ddefnydd eu plant o'r cyfryngau, a sut mae rhieni plant a phobl ifanc 3-17 oed yn monitro ac yn rheoli defnydd eu plant.

Eleni, roedd y Traciwr yn cynnwys tri arolwg:

Ymddygiad ac agweddau ar-lein: Cynhaliwyd un don y flwyddyn drwy banel ar-lein, gyda sampl o 3,383 o blant 3-17 oed. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023.
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhyngrwyd: Cynhaliwyd un don y flwyddyn drwy banel ar-lein, gyda sampl o 2,080 o blant 8-17 oed. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023.
Rhieni yn unig: Cynhaliwyd un don y flwyddyn drwy gymysgedd o baneli ar-lein ac arolygon o'r post i'r we, gyda sampl o 2,480 o rieni plant 3-17 oed. Roedd y fethodoleg gymysg yn ein galluogi i gyrraedd sampl ehangach o ymatebwyr. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023.

Mae rhagor o fanylion am fethodoleg Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau 2023 ar gael yn Adroddiad Technegol 2023.

## Y Cyfryngau ym Mywyd Plant – Ofcom

Mae prosiect Y Cyfryngau ym Mywyd Plant yn dilyn, cyn belled ag y bo modd, yr un grŵp o 21 o blant rhwng 8 ac 17 oed, gan gynnal cyfweliadau wedi'u ffilmio gyda nhw bob blwyddyn i ddysgu am eu hagweddau a'u harferion ar y cyfryngau. Dechreuwyd ar y gwaith ymchwil yn 2014 fel ffordd o ddarparu astudiaeth ansoddol gyfoethog a manwl ar raddfa fach sy'n ategu arolygon meintiol Ofcom o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Mae'n rhoi tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n eu cymell i ddefnyddio cyfryngau a chyd-destun hynny, a sut mae cyfryngau yn rhan o'u bywyd bob dydd ac amgylchiadau domestig. Mae'r prosiect hefyd yn rhoi manylion gwerthfawr ynghylch sut mae arferion ac agweddau plant yng nghyswllt cyfryngau yn newid dros amser, yn enwedig yng nghyd-destun eu datblygiad gwybyddol ac emosiynol.

## Panel Ymchwil Ar-lein Ofcom

Mae Ofcom yn gweithio gyda YouGov Plc UK ar brosiect y Panel Ymchwil Ar-lein, sy'n caniatáu i Ofcom gynnal cyfweliadau ar-lein sy'n cael eu gweinyddu i aelodau panel YouGov UK o 2.5 miliwn+ o

unigolion sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn arolygon. Caiff negeseuon e-bost eu hanfon at banelwyr a ddewiswyd ar hap o'r sampl sylfaenol. Mae'r e-bost yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg ac yn darparu dolen arolwg generig. Pan fydd aelod o'r panel yn clicio ar y ddolen, bydd yn cael ei anfon i'r arolwg sy'n gofyn amdano fwyaf, yn ôl y diffiniad o'r sampl a'r cwotâu. Nid yw gwahoddiadau i arolygon yn dod i ben, a gellir cyfeirio ymatebwyr at unrhyw arolwg sydd ar gael. Mae'r sampl sy'n ymateb yn cael ei bwysoli yn ôl proffil y diffiniad o'r sampl er mwyn darparu sampl adrodd cynrychioliadol.

Dyma'r diffiniadau sampl ar gyfer pob pôl:

**Amser plant o flaen sgrin** – Cyfanswm y sampl oedd 1121 o gyfranogwyr 8-15 oed, wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli plant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd rhwng 8 a 15 oed ym Mhrydain Fawr. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 19 a 26 Mawrth 2024.

**Storio yn y cwmwl, negeseuon a marchnadoedd ar-lein** – Cyfanswm y sampl oedd 2100 o gyfranogwyr 16 oed a hŷn, wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 2 a 3 Gorffennaf 2024.

**Ffugiadau dwfn (pobl ifanc yn eu harddegau hŷn ac oedolion)** – Cyfanswm y sampl oedd 2520 o gyfranogwyr 16 oed a hŷn, wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 7 a 10 Mehefin 2024.

**Ffugiadau dwfn (8-15 oed)** – Cyfanswm y sampl oedd 1051 o gyfranogwyr 8-15 oed, wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli plant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd rhwng 8 a 15 oed ym Mhrydain Fawr. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 7 a 13 Mehefin 2024.

**Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a ffugiadau dwfn (pobl ifanc yn eu harddegau hŷn ac oedolion)** – Cyfanswm y sampl oedd 2520 o gyfranogwyr 16 oed a hŷn, wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 7 a 10 Mehefin 2024.

**Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a ffugiadau dwfn (8-15 oed)** – Cyfanswm y sampl oedd 1051 o gyfranogwyr 8-15 oed, wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli plant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd rhwng 8 a 15 oed ym Mhrydain Fawr. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 7 a 13 Mehefin 2024.

## Oedran Defnyddwyr Plant Ar-lein Ofcom

Er mwyn deall i ba raddau mae plant yn osgoi mesurau sicrhau oedran, comisiynodd Ofcom ymchwil feintiol gan YouGov i amcangyfrif cyfran y plant sydd â phroffiliau ar-lein gydag 'oedran defnyddwyr' sy'n gwneud iddynt ymddangos yn hŷn nag y maent mewn gwirionedd. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg diweddaraf ym mis Awst 2024 a chafodd ei gwblhau gan 1,709 o blant 8-17 oed.

I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd rhaid i blant ddefnyddio a chael eu proffil eu hunain ar o leiaf un o'r deg llwyfan canlynol: YouTube (heb gynnwys YouTube Kids), Snapchat, TikTok, Instagram, Facebook, Discord, Pinterest, Twitch, X, Vimeo (neu unrhyw lwyfannau eraill a nodwyd ganddynt yn yr arolwg). Rhoddwyd hwb i sicrhau bod gan y sail isafswm o 50 fesul llwyfan, fesul grŵp oedran, sy'n ddigonol ar gyfer dadansoddiad cadarn.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Adroddiad Technegol.

## Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu Ofcom

Nod y Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu yw rhoi dealltwriaeth barhaus i Ofcom o faterion fforddiadwyedd defnyddwyr ym marchnadoedd cyfathrebiadau'r DU (gan gynnwys gwasanaethau symudol, llinell dir, band eang sefydlog, teledu drwy dalu a theledu ar-alw). Mae'r traciwr wedi bod

yn rhedeg ers mis Mehefin 2020 gyda'r gwaith maes yn cael ei wneud bob chwarter drwy omnibws dros y ffôn. Mae'r data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024 ymysg 1,089 o oedolion yn y DU, sydd naill ai yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau cyfathrebu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd yn eu haelwyd a/neu'r rhai sy'n defnyddio ffôn symudol yn bersonol.

## Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion

Mae'r Arolwg Cael Gafael ar Newyddion (NCS) yn arolwg a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gyda'r gwaith maes ar gyfer 2024 yn cael ei gynnal ar draws dwy don: rhwng 6 Tachwedd a 3 Rhagfyr 2023, a rhwng 26 Chwefror a 23 Mawrth 2024, gan gyrraedd sampl o 5,466 o unigolion 16 oed a hŷn sy'n cynrychioli'r DU.

Nod yr Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yw ein helpu i ddeall y canlynol:

- Arferion defnyddio newyddion ledled y DU ac ym mhob gwlad yn y DU
- Y ffynonellau a'r llwyfannau a ddefnyddir i gael newyddion
- Pa mor bwysig yw gwahanol sefydliadau newyddion
- Yr agweddau at ffynonellau newyddion unigol, a defnyddio newyddion lleol

Ewch i Galendr Datganiadau Ystadegol Ofcom 2024 i weld adroddiad technegol Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024, ynghyd â'r tablau data a gyhoeddwyd a'r holiadur.

## Ofcom, Arolwg newyddion a ffurfio barn Etholiad Cyffredinol y DU 2024

Cafodd yr arolwg ei gyflwyno bedair gwaith yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol i samplau o oedolion y DU a oedd yn cynrychioli'r wlad (2,000 o ymatebwyr fesul ton), gan ddefnyddio omnibws gwleidyddol YouGov.

Cafodd y gwaith maes ei wneud ar y dyddiadau canlynol: 19-20 Mehefin (W1); 26-27 Mehefin (W2); 3-4 Gorffennaf (W3); 10-11 Gorffennaf (W4). Cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol y DU ar 4 Gorffennaf 2024, felly mae'r ymchwil wedi darparu tair ton o waith maes yn y cyfnod cyn yr etholiad, ac un don yn ystod yr wythnos wedyn. Bach iawn oedd y gwahaniaethau a welwyd rhwng y pedair ton. Felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r ffigurau treigl a wnaed drwy gyfuno pedair ton y traciwr.

Roedd yr arolwg yn cynnwys 24 o gwestiynau dros dair adran:

5.1 Ffynonellau newyddion a materion cyfoes: Y ffynonellau roedd ymatebwyr yn eu defnyddio i ddod o hyd i newyddion a materion cyfoes y tu allan i gyfnod yr Etholiad Cyffredinol ac yn ystod y cyfnod hwnnw.

5.2 Agweddau at newyddion a materion cyfoes: Agweddau'r ymatebwyr at newyddion a materion cyfoes yn ymwneud â'r Etholiad Cyffredinol, sut maen nhw wedi ffurfio eu barn a rôl y gwahanol ffynonellau cyfryngau yn y broses hon.

5.3 Camwybodaeth a ffugiadau dwfn: Profiadau ymatebwyr o gamwybodaeth ffugiadau dwfn ymddangosiadol yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.

# Ffynonellau ymchwil trydydd parti

## Ipsos – Ipsos iris

Wedi'i lansio ddechrau 2021, Ipsos iris yw'r arian wedi'i gymeradwyo gan UKOM ar gyfer mesur cynulleidfaoedd cynnwys ar-lein ymysg oedolion 15 oed a hŷn yn y DU sy'n defnyddio'r rhyngrwyd o leiaf unwaith y mis.

Mae Ipsos iris yn defnyddio methodoleg hybrid gyda nifer o ffynonellau data, gan gynnwys:

- Panel goddefol un ffynhonnell o dros 10,000 o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Mae panelwyr yn gosod meddalwedd tracio goddefol ar ddyfeisiau digidol a ddefnyddir yn bersonol ac mewn rhai achosion ar rai sydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith (ffonau clyfar, cyfrifiaduron a dyfeisiau tabled) sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, gyda data'n cael ei gasglu'n barhaus. Mae'r panel yn cael ei recriwtio i gynrychioli poblogaeth y rhyngrwyd yn ddemograffig, yn ddaearyddol ac yn ôl math o ddyfais.
- Mesuriad y cyfrifiad o wefannau ac apiau cyhoeddwyr i gasglu mesurau o ran defnydd gyfer yr amser a dreulir a'r ymweliadau â thudalennau ar lefel gyflawn.
- Arolwg Sefydliad o ansawdd uchel, i gynhyrchu targedau cyffredinol. Mae panel Ipsos iris wedyn yn cael ei bwysoli ar gyfer poblogaeth rhyngrwyd oedolion yn y DU ac is-grwpiau demograffig.
- Data trydydd parti allanol o ffynonellau achrededig a chymeradwy gyda thargedau ychwanegol ar lefel gwefan neu ap.

Gan adrodd ar ddata dyddiol a misol, mae'r holl ffynonellau'n cael eu cyfuno i greu set ddata synthetig gyda dros filiwn o gofnodion i gynrychioli seilwaith gwefannau ac apiau ar-lein y DU. Gellir dadansoddi'r rhain a rhoi gwybod amdanynt ar sawl lefel ddemograffig a daearyddol. Gan mai set ddata synthetig yw hon, nid yw'n bosibl darparu cyfnodau/ystodau hyder ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth allosodedig. Fodd bynnag, mae'r holl ffigurau poblogaeth allosodedig a ddarperir yn amcangyfrifon a fydd â rhywfaint o ansicrwydd.

O ganlyniad i wella methodoleg set ddata Ipsos iris, ni ellir cymharu cyfanswm y data o ran yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar gyfer brand YouTube, cyfanswm ap a gwefan, â'r blynyddoedd blaenorol.

Pan fydd cyhoeddwyr newyddion wedi rhoi methodoleg tagio Ipsos iris ar waith, bydd ymweliadau â'u herthyglau drwy Google AMP a Facebook Instant Articles yn nodi'r cynnwys sy'n cael ei weld drwy'r llwyfannau hyn ac yn priodoli cyrhaeddiad ac amser a dreulir i'r cyhoeddwr perthnasol. Cafodd cynnwys Apple News ei gategoreiddio ym mis Hydref 2023, efallai y bydd cynnydd graddol mewn cyrhaeddiad ar gyfer rhai gwasanaethau wrth gymharu data o un flwyddyn i'r llall. Ceir rhagor o fanylion am fethodoleg Ipsos iris yn https://iris.ipsos.com/what-we-offer/.

Ar gyfer yr adroddiadau a ddefnyddir yma, rydym wedi defnyddio data misol Ipsos iris o fis Mai 2024 ymlaen yn bennaf. Roedd y panel goddefol ar gyfer y mis hwn yn cynnwys sampl a fesurwyd yn barhaus o 10,700 o oedolion. Mae maint y panel yn ôl oedran a chenedl i'w weld isod. Gan fod hwn yn banel parhaus, bydd y proffil adrodd mewn misoedd eraill yn debyg.

| Demograffig | Mai 2022<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2023<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2024<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2024<br>Cyfrannau'r DU |
|---|---|---|---|---|
| Pobl 18 oed a hŷn yn y DU | 10,871 | 10,542 | 10,700 | 99.4% |
| Pobl 18 oed a hŷn yn Lloegr | 8,946 | 8,717 | 8,862 | 82.3% |
| Pobl 18 oed a hŷn yn yr Alban | 1,040 | 983 | 990 | 9.2% |
| Pobl 18 oed a hŷn yng Nghymru | 623 | 561 | 548 | 5.1% |
| Pobl 18 oed a hŷn yng Ngogledd Iwerddon | 262 | 281 | 300 | 2.8% |

## Ampere Analysis - gemau

Mae Ampere Analysis yn gwmni ymchwil a dadansoddi data sy'n canolbwyntio ar y cyfryngau a chyfathrebu. Eleni, rydym wedi cynnwys data o dri o gynnyrch Ampere Games:

- Ampere Games – Consumer, Ch2, data y DU. Mae dau arolwg yn cael eu cynnal yn Ch2: Mae un yn arolwg sy'n cynnwys 2,000 o ymatebwyr 16-64 oed sy'n cynrychioli poblogaeth ar-lein y DU yn genedlaethol. Mae'r ail yn arolwg llawer llai o blant 13-15 oed yn y DU (120) nad yw'n cynrychioli'r wlad. Lle nad yw grwpiau oedran wedi'u diffinio, mae'r ddwy set hyn o ymatebion yn cael eu cyfuno.
- Ampere Games – Analytics, Mai 2023 a Mai 2024 Data'r DU: Mae 'Analytics' yn tracio gweithgarwch teitlau ar draws llwyfannau consolau Xbox a PlayStation, cynnwys teitlau mewn catalogau tanysgrifio aml-gêm, ac mae'n darparu metrig Poblogrwydd perchnogol Ampere ar gyfer gemau blaenllaw.
- Ampere Games - Markets: Mae hwn yn tracio perfformiad y farchnad gemau gyfan a rhagolygon ar draws categorïau dyfeisiau, modelau ennill arian, a mathau dosbarthu.

## Barb – gwylio YouTube ar setiau teledu

Barb Audiences Ltd (Barb) yw safon y diwydiant ar gyfer deall beth mae pobl yn ei wylio. Mae Barb yn defnyddio dull hybrid sy'n integreiddio data panel sy'n seiliedig ar bobl â data gwylio ar-lein ar lefel y cyfrifiad er mwyn darparu'r mesuriad teledu a ddarlledir swyddogol ar gyfer y diwydiant. Mae gan Barb banel cynrychioliadol cenedlaethol o oddeutu 5,300 o gartrefi (tua 12,000 o unigolion). Mae wedi bod yn ehangu'r panel dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Cwblhawyd y gwaith hwn yn gynharach yn 2024 ac mae bellach yn cynnwys 7,000 o gartrefi (tua 16,000 o bobl). Mae'r data mae Barb yn ei gasglu yn cynnwys gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu drwy setiau teledu a thrwy unrhyw ddyfeisiau sy'n gysylltiedig â setiau teledu, fel cyfrifiaduron, dyfeisiau ffrydio, neu flychau pen set. Mae Barb hefyd yn casglu 'data mawr' sy'n seiliedig ar ddyfeisiau pryd bynnag y bydd unrhyw un yn y DU yn gwylio gwasanaeth fideo-ar-alw darlledwr ar ddyfais sydd wedi'i chysylltu, yn ogystal â rhywfaint o ddata gwylio ar gyfer fideos sy'n cael eu gwylio ar wasanaethau ffrydio ar-lein a llwyfannau rhannu fideos. Mae hyn yn cynnwys gwylio fideos ar ddyfeisiau nad ydynt wedi'u cysylltu

â'r teledu sy'n cael eu gwylio gartref drwy WiFi. Nid yw Barb yn cynnwys gwylio y tu allan i'r cartref. Cymerwyd dadansoddiad Barb o feddalwedd dadansoddi AdvantEdge.

## Cyfeiriadau at ffynonellau trydydd parti eraill

Mae Ofcom yn cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a ffynonellau data trydydd parti drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys datganiadau i'r wasg, blogiau, adroddiadau ar enillion, adroddiadau tryloywder a gwybodaeth gorfforaethol arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae darparwyr trydydd parti eraill a nodwyd yn Online Nation yn cynnwys:

- Advertising Association
- Amazon
- Banc Lloegr
- BBC News
- Bumble
- Bustle
- CHILDWISE
- CNN
- Forbes
- Free Speech Coalition
- Gov UK
- IAB
- Institute for government
- Match Group
- Meta
- Y Swyddfa Dywydd
- Microsoft
- New York Times
- Open AI
- PornHub
- Reddit
- Techradar
- The Guardian
- TechCrunch